

Addysgu Llenyddiaethau yn ystod y Pandemig Byd- eang: Effeithiau ar Ysgolion Uwchradd yng Nghymru

Ymchwil

Rhif dogfen ymchwil: 75/2023
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Addysgu Llenyddiaethau yn ystod y Pandemig Byd-eang

Cynulleidfa

Y rheini sydd â rhan a diddordeb mewn addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, fel llunwyr polisi, athrawon, uwch dimau arwain, llyfrgellwyr, cyhoeddwyr, darlithwyr ac ymchwilwyr mewn llenyddiaethau ac addysg.

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr effeithiau o'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau sydd wedi'u cofnodi gan athrawon mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ar lefel ryngwladol, o ran yr awduron a'r testunau a addysgwyd, yn ogystal â dibenion a gweledigaethau. Mae hefyd yn disgrifio newidiadau mewn addysgu llenyddiaethau yn ystod yr un cyfnod o ganlyniad i ddigwyddiadau cyfoes fel cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a gwrthdystiadau Mae Bywydau Du o Bwys. Adroddwyd bod yr effeithiau negyddol yn rhai dros dro gan mwyaf, ac roedd gwerthfawrogiad o fesurau lliniaru, tra bo effeithiau cadarnhaol yn parhau i gael eu meithrin ar ôl y pandemig. Nid oedd y pandemig wedi cael effaith niweidiol ar ddibenion a gweledigaethau ar gyfer addysgu llenyddiaethau.

Awduron: Sarah Olive, Mary Davies a Gwawr Maelor

Camau i'w cymryd

Mae'r adroddiad yn amlinellu argymhellion i helpu i addysgu llenyddiaethau ar ôl y pandemig. Fe'i rhannwyd â llunwyr polisi Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Dr Sarah Olive
Yr Ysgol Gwyddorau Addysgol
Prifysgol Bangor
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG
e-bost: s.olive@bangor.ac.uk



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://hwb.gov.wales/professional-development/the-national-strategy-for-educational-research-and-enquiry-nserc/collaborative-evidence-network/>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Am yr awduron

Mae Dr Sarah Olive (Prif Ymchwilydd) yn Uwch Ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Addysgol ym Mhrifysgol Bangor. Cyn hynny, roedd yn Uwch Ddarlithydd mewn Addysg ym Mhrifysgol Caerefrog. Hi yw awdur *Shakespeare Valued: Education Policy and Pedagogy, 1989-2009* (Intellect, 2015). Cynhaliodd yr arolwg cenedlaethol cyntaf o addysgu gweithiau Shakespeare ar-lein mewn addysg uwchradd yn y DU yn 2017-18, gyda Dr Victoria Elliott (Addysg, Rhydychen).

Mae Dr Mary Davies (Cyd-ymchwilydd), Swyddog Ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Addysgol ym Mhrifysgol Bangor, wedi cwblhau PhD yn ddiweddar yn y Shakespeare Institute, Prifysgol Birmingham, ac mae'n siarad Cymraeg yn rhugl. Ym Medi 2022, ymgymerodd â swydd Darlithydd mewn Saesneg ym Mhrifysgol Abertawe.

Roedd Mrs Gwawr Maelor (Cyd-ymchwilydd) yn ddarlithydd mewn addysg gynradd ac uwchradd yn y Coleg Normal ym Mangor o 1993, cyn ymuno â'r Ysgol Gwyddorau Addysgol, Prifysgol Bangor, ym 1996, lle mae'n cyfrannu i raglenni ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd, yn cynnwys technoleg gwybodaeth mewn addysg, Astudiaethau Plentyndod, a modiwl ar lenyddiaeth plant yn y rhaglen MA.

Diolch

Ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal y prosiect hwn heb gyfranogiad a diddordeb yr athrawon ac arweinwyr ysgol a gysylltodd â'r prosiect, gan roi o'u hamser, eu hegni a'u syniadau.

GwE, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i Ogledd Cymru, a'r gwasanaethau cyfatebol ledled y wlad, a ymdrechodd i'n rhoi mewn cysylltiad ag ysgolion ym mhob rhan o Gymru gan eu hannog i gymryd rhan.

Y Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol: Addysg Ddwylieithog a'r Gymraeg, a roddodd gyfle i ni wneud cyflwyniad cynnar ar ddyluniad ein hymchwil a chael adborth ac anogaeth feddylgar ganddynt.

Yr Athro Carl Hughes, Fatema Sultana a Dr Richard Watkins, tîm rheoli CEN, yr Ysgol Gwyddorau Addysgol, Prifysgol Bangor am gerdded yr ail filltir.

Llywodraeth Cymru am ariannu'r ymchwil hon a Dr Luke Sibieta am arwain holl brosiectau CEN, gan roi'n hael o'i gefnogaeth a'i gyngor.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
1. Cyflwyniad	3
2. Nodau a dulliau'r ymchwil	6
3. Adolygu'r ymchwil bresennol	11
4. Canlyniadau a Thrafodaeth	26
5. Casgliad	35
Cyfeiriadau	38
Atodiad: Holiadur	41

Crynodeb gweithredol

Mae llenyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol mewn pynciau fel Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â drama. Mae hefyd yn agwedd ar addysgu ieithoedd rhyngwladol, felly mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at addysgu llenyddiaethau, yn y lluosog. Yng nghyd-destun y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn *Cwricwlwm i Gymru*, mae llenyddiaethau'n rhan o faes ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a maes y Celfyddydau Mynegiannol. Yn y prosiect hwn, ymchwiliwyd i effaith y pandemig COVID-19 ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru o safbwynt athrawon. Roedd hefyd wedi edrych ar ffactorau eraill sydd wedi dylanwadu ar addysgu llenyddiaethau dros y ddwy flynedd diwethaf (e.e. y Cwricwlwm i Gymru newydd a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys) a'r croestoriadau rhyngddynt ac effeithiau'r pandemig.

Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr — yn cwmpasu cyhoeddiadau oddi ar ddechrau'r pandemig yn y DU yng ngwanwyn 2020 hyd at ddiwedd cyfnod y prosiect hwn ym mis Gorffennaf 2022. Roedd hyn wedi cadarnhau bod prinder tystiolaeth ar y pryd o effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaeth mewn ysgolion uwchradd. Ar adeg ein hymchwil, nid oedd yr un astudiaeth helaeth wedi'i chynnal o effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru nac mewn gwledydd eraill. Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o'r llenyddiaeth bresennol ar ffurf ysgrifau personol, myfyriol a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion addysgu ar gyfer pynciau cyfoethog o ran llenyddiaeth yn Lloegr, Awstralia ac America. Mae'r prosiect hwn yn gwneud iawn am y diffyg tystiolaeth o'r effaith ar addysgu llenyddiaethau yn ystod y pandemig. Tra oedd astudiaethau blaenorol wedi canolbwyntio ar addysgu llenyddiaeth Saesneg, roedd y prosiect hwn wedi cynnwys addysgu llenyddiaethau yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

Dosbarthwyd arolwg ar-lein, yn Gymraeg a Saesneg, i'r rheini sy'n addysgu llenyddiaeth mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd yn gofyn i athrawon fyfyrion ar addysgu llenyddiaethau – beth roeddent yn ei addysgu a'u gweledigaethau ar gyfer y pwnc – ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru cyn ac ar ôl cychwyniad y pandemig yn y DU, drwy gwestiynau caeedig a phenagored. Roedd 47 o athrawon wedi cwblhau'r arolwg.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi gwneud rhywfaint o newid o ran yr awduron a'r testunau a addysgwyd, er mai ar lefel Safon Uwch yn unig yr oedd y pandemig yn brif ffactor yn hyn o beth. Ar lefel TGAU a CA3/hyd at 14 oed, roedd ffactorau fel newidiadau o ran y cwricwlwm a byrddau arholi, yn ogystal ag ymgyrchu ynghylch amrywiaethu testunau, wedi'u nodi'n aml. Roedd gwerthfawrogiad o fesurau i liniaru effeithiau negyddol y pandemig, yn amrywio o addasu manylebau gan fyrddau arholi i dalu am brynu llyfrau i ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyfan, roedd newidiadau a welwyd yn rhai negyddol, fel diffyg cyfle i addysgu testun penodol neu orfod cwtogi ar waith ar destunau ar gyfer dysgu o bell, yn cael eu priodoli i'r pandemig a'u hystyried yn rhai dros dro. Roedd newidiadau eraill, yn enwedig rhai'n ymwneud ag amrywiaeth, yn cael eu disgrifio'n rhai cadarnhaol a hirdymor. Roedd disgrifiadau o newidiadau o ran y cwricwlwm a byrddau arholi yn cael eu mynegi mewn termau niwtral gan mwyaf.

Roedd yr ymdeimlad ymysg yr holl athrawon fod llenyddiaethau'n bwysig wedi parhau neu gynyddu ers dechrau'r pandemig. Roeddent yn cysylltu hyn â'u hymroddiad i adfywio'r Gymraeg, cyfiawnder cymdeithasol a'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd dibenion addysgu llenyddiaeth wedi aros yn ddigymffwrdd i raddau helaeth, ac yn ymwneud yn bennaf â modelau cydnabyddedig ar gyfer datblygu sgiliau a datblygiad personol. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod eu hymdeimlad o ddiben y pwnc wedi'i adnewyddu gan effeithiau'r pandemig ar eu myfyrwyr ac mewn ymateb iddynt. Dim ond oddeutu un rhan o dair o ymatebwyr a oedd wedi newid eu gweledigaeth ar gyfer addysgu llenyddiaethau, gan gyfeirio at yr angen i sicrhau amrywiaeth, perthnasedd a thestunau amrywiol.

1. Cyflwyniad

Mae addysgu llenyddiaethau yn ystyriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru gan mai un o nodau Maes Dysgu a Phrofiad 'leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn y cwricwlwm newydd yw 'helpu i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth' ymysg dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2019). Y tu allan i'r ysgol, mae darllen llenyddiaeth er mwynhad yn fanteisiol o ran iechyd a lles, mae'n ehangu persbectifau, yn sicrhau dysgu parhaus ar ôl gorffen addysg ffurfiol, ac yn cyfrannu at fywiogrwydd y diwydiannau llenyddol a diwylliannol yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg (Dyer, 2010; Arslan et al., 2022).

Oherwydd y pwysigrwydd sydd i lenyddiaethau, y tu mewn a'r tu allan i'r sector addysg yng Nghymru, mae'n bwysig deall sut mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysgu. Mae llenyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol mewn pynciau craidd fel Cymraeg, Saesneg a drama. Mae hefyd yn agwedd ar addysgu ieithoedd rhyngwladol, felly mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at addysgu llenyddiaethau yn y lluosog. Yng nghyd-destun y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru, mae llenyddiaethau'n rhan o faes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a maes y Celfyddydau Mynegiannol. Yn y prosiect hwn, ymchwiliwyd i effaith y pandemig COVID-19 ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru o bersbectif athrawon. Roedd hefyd wedi edrych ar ffactorau eraill sydd wedi dylanwadu ar addysgu llenyddiaethau dros y ddwy flynedd diwethaf (e.e. y Cwricwlwm i Gymru newydd a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys) a'r croestoriadau rhyngddynt ac effeithiau'r pandemig.

Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr — yn cwmpasu cyhoeddiadau oddi ar ddechrau'r pandemig yn y DU yng ngwanwyn 2020 hyd at ddiwedd cyfnod y prosiect hwn ym mis Gorffennaf 2022. Roedd y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth bresennol ar ffurf ysgrifau personol, myfyriol a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion addysgu ar gyfer pynciau cyfoethog o ran llenyddiaeth yn Lloegr, Awstralia ac America. Roedd yr astudiaethau hyn wedi cyfleu'r heriau canlynol i'r rheini sy'n addysgu llenyddiaeth (Saesneg):

- Dod o hyd i ddulliau o gynnwys myfyrwyr mewn rhyngweithio rhyngbersonol wrth ddysgu o bell, gyda staff a chyda'i gilydd, sydd yn gyfwerth â lefelau a mathau blaenorol o ryngweithio yn yr ystafell ddosbarth ffisegol. Mae hyn yn bwysig gan fod lle blaenllaw yn cael ei roi'n aml i sgiliau cyfathrebu wrth addysgu llenyddiaethau: mae hyn yn ymwneud yn rhannol o leiaf â'r ffordd y mae dadleuon a gwrthddadleuon yn cael eu gwneud a meddyliau a syniadau'n cael eu cyfleu (Elliott 2021).
- Osgoi sefyllfa lle mae llais a barn yr athro yn tra-arglwyddiaethu ar lais a barn myfyrwyr, a'r persbectif unffurf sy'n codi o ganlyniad i hyn. Hefyd, cadw cyfleoedd i fyfyrwyr feithrin hyder wrth rannu eu syniadau sy'n gyfwerth â'r rheini yn yr ystafell ddosbarth ffisegol. Unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â'r ffaith bod trafodaeth a phersbectifau lluosog yn agweddau allweddol ar astudio llenyddiaethau.
- Ymwrthod â'r demtasiwn i addysgu ar gyfer arholiadau yn unig, gan fod yr angen i addasu i ddysgu o bell mewn cyfnod byr, ac ymdrechu i drafod testunau a thopigau i'w hasesu, yn golygu bod rhywfaint o gyfoeth ac ehangder yr addysgu yn cael ei gollu. Roedd rhai o'r adnoddau a anelwyd at athrawon (gyda phob bwriad da, gellid dadlau) yn ystod y pandemig wedi creu'r perygl o waethygu hyn. Roedd athrawon wedi adrodd am ddylanwad y dull hwn o addysgu ar fyfyrwyr gan nodi eu bod yn dechrau pryderu eto ynghylch atebion 'cywir' neu 'anghywir'.
- Atal myfyrwyr sy'n ei chael yn anodd dysgu llenyddiaethau rhag colli diddordeb yn ystod amser y dosbarth oherwydd amodau dysgu o bell a'r gwahaniad ffisegol rhwng athrawon a myfyrwyr.
- Sicrhau darpariaeth gyfartal o dan amodau dysgu o bell: cafwyd bod yr effaith ar addysgu llenyddiaethau yn ystod y pandemig yn amrywio yn ôl yr adnoddau a oedd ar gael i ysgolion.

Ochr yn ochr â'r heriau a ddisgrifiwyd uchod, roedd yr astudiaethau presennol hyn, a gyflawnwyd ar raddfa fach – gan athrawon a hyfforddwy'r athrawon yn aml – wedi canfod rhai agweddau cadarnhaol ar eu profiad o'r pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bod y creadigedd sy'n rhan annatod o bynciau seiliedig ar lenyddiaeth yn rhagdueddu athrawon a myfyrwyr i fod yn barod i addasu.
- Meithrinwyd y defnydd o dechnegau a thestunau a oedd yn cymell myfyrwyr i fyfyrion ar effeithiau'r pandemig ar eu bywydau, gan roi pwyslais ar gynnal eu hiechyd a'u lles. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ysgrifennu creadigol a dewis testunau sy'n gysylltiedig â chyfnodau o gynnwrf cymdeithasol.
- Bod y dulliau a lwyddodd yn ystod y pandemig wedi'u mabwysiadu gan athrawon yn yr ystafell ddsbarth ar ôl y pandemig.
- Bod y cyfle a gafwyd o ganlyniad i darfu gan y pandemig i wneud newidiadau mewn arferion presennol wrth addysgu llenyddiaethau wedi cyd-ddigwydd â hwb ychwanegol i gyflwyno newidiadau a grëwyd gan ymgyrchu a fu'n destun sylw eang yn ystod cyfnod y pandemig drwy amrywiaethu'r testunau a addysgir.
- Llwyddiant mathau penodol o weithgareddau neu ddulliau addysgegol ac enghreifftiau o fyfyrwyr a oedd wedi ffynnu'n annisgwyl o dan amodau'r pandemig.

Er bod y llenyddiaeth bresennol yn cynnig rhai mewnwelediadau, roedd hefyd yn dangos bod prinder tystiolaeth o effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaeth mewn ysgolion uwchradd. Ar adeg ein hymchwil, nid oedd yr un astudiaeth gynhwysfawr wedi'i chynnal ar effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gyhoeddiadau ymchwil yn Gymraeg.

Mae'r prosiect hwn yn gwneud iawn am rai o gyfyngiadau'r ymchwil bresennol hon. Lluniwyd arolwg ar-lein, yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfer y rheini sy'n addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd yn cynnwys addysgu llenyddiaethau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol (Sbaeneg a Ffrangeg yn bennaf). Roedd yn gofyn i athrawon fyfyrion ar addysgu llenyddiaethau ar lefel yr ysgol uwchradd yng Nghymru cyn ac ar ôl cychwyniad y pandemig yn y DU, drwy gwestiynau caeedig a phenagored. Ar 1 Mawrth 2022, rhoesom gyflwyniad ar ddyluniad yr ymchwil i'r Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol: Addysg Ddwyieithog a'r Gymraeg a chawsom adborth calonogol am amseroldeb a phwysigrwyd y gwaith hwn ar gyfer y Gymraeg a'i diwylliant mewn ysgolion. Roedd yn cynnig ffordd i dreialu cwestiynau'n arolwg, er bod y rhain wedi'u dilysu cynt ar gyfer y ddwy astudiaeth ddiweddar y cawsant eu haddasu ohonynt (Elliott ac Olive; Kneen et al). Dosbarthwyd yr arolwg i'r rheini sy'n addysgu llenyddiaeth i fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg, Saesneg, drama ac ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru. Roedd 47 o athrawon wedi cwblhau'r arolwg. Ystyriwyd ystadegau disgrifiadol am ddemograffeg yr ymatebwyr, yr awduron a thestunau a addysgwyd, a'r pwysigrwyd o addysgu llenyddiaethau ochr yn ochr â data ansoddol o'r sylwadau agored. Dadansoddwyd y rhain ar sail themâu drwy broses ailadroddol gan wneud defnydd o'r adolygiad o ymchwil bresennol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi gwneud rhywfaint o newid o ran yr awduron a'r testunau a addysgwyd, er mai ar lefel Safon Uwch yn unig yr oedd y pandemig yn brif ffactor yn hyn o beth. Ar lefel TGAU a CA3/hyd at 14 oed, roedd ffactorau fel newidiadau o ran y cwricwlwm a byrddau arholi, yn ogystal ag ymgyrchu ynghylch amrywiaethu testunau, wedi'u nodi'n aml. Roedd gwerthfawrogiad o fesurau i liniaru effeithiau negyddol y pandemig, yn amrywio o addasu manylebau gan fyrrddau arholi i dalu am brynu llyfrau i ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyfan, roedd newidiadau a welwyd yn rhai negyddol, fel diffyg cyfle i addysgu testun penodol neu orfod cwtogi ar waith ar destunau ar gyfer dysgu o bell, yn cael eu priodoli i'r pandemig a'u hystyried yn rhai dros dro. Roedd newidiadau eraill, yn enwedig rhai'n ymwneud ag amrywiaeth, yn cael eu disgrifio'n rhai cadarnhaol a hirdymor. Roedd disgrifiadau o newidiadau o ran y cwricwlwm a byrddau arholi yn cael eu mynegi mewn termau niwtral gan mwyaf.

Roedd yr ymdeimlad ymysg yr holl athrawon fod llenyddiaethau'n bwysig wedi parhau neu gynyddu ers dechrau'r pandemig. Roeddent yn cysylltu hyn â'u hymroddiad i adfywio'r Gymraeg, cyfiawnder cymdeithasol a'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd dibenion addysgu llenyddiaeth wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth, ac yn ymwneud yn bennaf â modelau cydnabyddedig ar gyfer datblygu sgiliau a datblygiad personol, er bod nifer o ymatebwyr wedi mynegi teimlad bod y dibenion hyn wedi'u hadnewyddu i drechu effeithiau'r pandemig ar blant. Dim ond oddeutu un rhan o dair o ymatebwyr a oedd wedi newid eu gweledigaeth ar gyfer addysgu llenyddiaethau, gan gyfeirio at yr angen i sicrhau amrywiaeth, perthnasedd a thestunau amrywiol.

Wrth gwrs, roedd amrywiant ym mhrofiadau athrawon llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru a gasglwyd gennym. Roedd hyn yn gyson â'r llenyddiaeth bresennol ar lefel ryngwladol. Fel y nododd Owen et al. (2021), 'there is no singular narrative that can capture the experiences of [...] teachers during remote teaching and learning' (t. 15). Dywedwyd bod rhai dysgwyr ac athrawon yn ffynnu o dan gyfyngiadau cyfnodau clo (Evans et al., 2020; Edwards 2021). Mae llenyddiaeth arall yn tynnu sylw at effeithiau negyddol y pandemig, yn enwedig ar ddysgwyr ag anableddau, dysgwyr mewn teuluoedd incwm isel a fyddai wedi gallu bod heb fynediad at dechnoleg yn ystod y cyfnod hwn, a dysgwyr lle nad oedd iaith y cartref yn brif iaith yn eu cyd-destun cenedlaethol (Evans et al., 2020; Howard, Khan a Lockyer, 2021; Comisiynydd Plant Cymru, 2020; Parr et al., 2021). Ni ddylid trin yr effeithiau ar athrawon a myfyrwyr llenyddiaethau, na'r broses adfer ar eu cyfer, fel rhai unffurf. Er bod y sefyllfa'n llai na pherffaith, roedd yr ymagwedd gadarnhaol ymysg athrawon a'u hymroddiad diflino i les eu myfyrwyr – nid yn unig er mwyn eu canlyniadau mewn addysg ffurfiol, ond hefyd er mwyn eu llwyddiant mewn bywyd yn y dyfodol – yn amlwg yn y data a gasglwyd gennym. Rydym yn canmol yr athrawon llenyddiaethau a ymatebodd i'n harolwg am eu proffesiynoldeb eithriadol.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, mae Pennod 2 ('Nodau a dulliau'r ymchwil') yn egluro sail resymegol ein hymchwil, ein dulliau a'n gweithdrefnau moesegol. Mae Pennod 3 ('Adolygu'r ymchwil bresennol') yn crynhoi'r dystiolaeth bresennol ar lefel ryngwladol am effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd. Mae'n dangos y graddau y mae'r llenyddiaeth bresennol yn ateb cwestiynau ein hymchwil yn ogystal â'r cyfyngiadau a bylchau a oedd yn creu'r angen am ein hymchwil gynradd. Mae Pennod 4 ('Canlyniadau a thrafodaeth') yn disgrifio'r canfyddiadau o'n harolwg o athrawon, y pwyntiau lle'r oedd tebygrwydd a gwahaniaeth yn ymatebion athrawon a rhwng y rheini a'r ymchwil bresennol. Mae Pennod 5 ('Casgliad') yn ystyried cyfyngiadau'r ymchwil hon ac yn amlinellu'r camau gweithredu sydd wedi'u hargymhell i randdeiliaid yn yr ymchwil hon.

2. Nodau a dulliau'r ymchwil

2.1 Sail resymegol yr ymchwil

Mae llenyddiaeth yn cael ei haddysgu'n bennaf mewn dau o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru: leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a'r Celfyddydau Mynegiannol. Mae maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu "yn ymwneud ag agweddau hanfodol cyfathrebu rhwng pobl. Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg, ac *ieithoedd rhyngwladol* yn ogystal â *llenyddiaeth*" (2020a). Mae maes y Celfyddydau Mynegiannol "yn cwmpasu pum disgyblaeth, sef celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol" (2020b). Felly, mae llenyddiaeth – wedi'i hysgrifennu mewn gwahanol ieithoedd neu wedi'i chyfieithu iddynt – yn agwedd ar astudio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol (a elwid yn leithoedd Tramor Modern o'r blaen) yn ogystal â drama. Fel arfer, mae'r term 'llenyddiaeth' yn disgrifio gweithiau ysgrifenedig sy'n ffrwyth y dychymyg, yn cynnwys barddoniaeth, drama, a ffuglen naratif, er ei fod wedi cyfeirio yn y gorffennol at ystod ehangach o ysgrifennu, yn cynnwys ysgrifennu ffeithiol (fel pamffledi crefyddol a thraethodau gwyddonol).

Mae addysgu testunau llenyddol a'u dehongli yn rhan bwysig o bynciau craidd fel Cymraeg a Saesneg. Mae'r pynciau hyn o ddiddordeb arbennig am eu bod yn bwysig fel cymwysterau ar gyfer derbyn dysgwyr i addysg uwch a'u rhagolygon gyrfawedyn. Mae addysgu llenyddiaeth yn cryfhau ac yn gwella sgiliau allweddol dysgwyr, fel y gallu i ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu'n effeithiol. Bydd llenyddiaeth yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu amdany'n nhw eu hunain ac am y gymuned, a hefyd i ddarganfod diwylliannau a phersbectifau newydd. Er pwysiced yw llenyddiaeth, gwelwyd gostyngiad yn nifer y rheini sy'n cymryd pynciau sy'n cynnwys astudio llenyddiaeth ar gyfer Safon Uwch, ac wedyn ar lefel gradd. Un esboniad a gynigiwyd yw bod ystod gyfyng y testunau llenyddol a astudir yn cadw myfyrwyr rhag cymryd y pynciau hyn. Mae pryder hefyd ynghylch a yw rhai dulliau o addysgu llenyddiaeth yn methu ag ysbrydoli dysgwyr i barhau â'u haddysg yn y pynciau hyn (Elliott 2021). Rhai ffactorau mwy cyd-destunol yw cefnogaeth llywodraeth, ysgolion a rhieni i bynciau STEM yn y DU yn y ganrif hon, mater sy'n cael sylw cyson yn y wasg Brydeinig brif ffrwd (er enghraifft, Weale a Larrison). Mae'n hollbwysig ymchwilio i'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar addysgu llenyddiaethau a gweld sut mae athrawon wedi ymaddasu mewn ymateb i ofynion dysgu o bell.

Mae hefyd yn bwysig darganfod pa effaith a gafwyd ar addysgu llenyddiaeth mewn pynciau allweddol eraill, fel ieithoedd rhyngwladol (e.e. Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg), a'r celfyddydau mynegiannol, fel Drama. Mae llenyddiaeth yn ffordd hollbwysig i gyrraedd at ieithoedd a diwylliannau eraill, felly mae'n bwysig ystyried y rhan hanfodol sydd i llenyddiaeth mewn dysgu a datblygu ieithoedd. Ar lefel y brifysgol, mae'r datganiad meincnodi QAA ar gyfer cyrsiau iaith yn nodi'r pwysigrwydd o drafod a dehongli testunau llenyddol yn rhan o nifer o raglenni gradd, felly mae disgwyl y bydd dysgwyr yn dechrau datblygu'r sgiliau hyn yn yr ysgol uwchradd (2019). Yn yr un modd, un rhan bwysig o gyrsiau Drama ar lefel TGAU a Safon Uwch yw'r arholiad ysgrifenedig, lle bydd myfyrwyr yn astudio testunau gosod ac yn eu dadansoddi o dan amodau amser. Er bod yr agwedd ymarferol ar Ddrama yn atyniadol iawn i fyfyrwyr sy'n ymddiddori mewn perfformio, mae pryder am y posibilrwydd nad yw'r agwedd ddamcaniaethol yn cael sylw dyladwy. Gwelir bod ymdrin â llenyddiaeth yn hanfodol i lwyddiant myfyrwyr yn y pynciau hyn, er mwyn datblygu eu sgiliau beirniadol a dadansoddol allweddol. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal ag leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, yn un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae'n bwysig astudio pa effaith a gafwyd ar addysgu pynciau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn o ganlyniad i'r pandemig er mwyn darparu argymhellion cadarn a fydd o gymorth wrth gyflwyno'r cwricwlwm ar ôl Medi 2022.

Ni chafwyd trosolwg cenedlaethol na rhyngwladol hyd yn hyn ar yr effaith a gafodd y pandemig ar addysgu llenyddiaethau nac ar yr hyn y mae athrawon yn ei wneud i leddfu effaith dysgu cyfunol, dysgu ar-lein neu gau ysgolion ar addysgu llenyddiaethau – heb sôn am yr hyn y maent yn ei weld yn llwyddiannus neu fel arall. Yn hytrach, cafwyd erthyglau a rhifynnau thematig yn disgrifio'r ymatebion gan athrawon, adrannau a sefydliadau penodol mewn cyfnodolion addysgu a gyhoeddwyd gan gymdeithasau proffesiynol i athrawon llenyddiaeth, ieithoedd a drama. Mae llyfrau fel *Teaching Literature in Times of Crisis* (2021) gan Sofia Ahlberg yn rhannu eu sylw rhwng y pandemig a materion eraill (e.e. yr argyfwng hinsawdd a hiliaeth systemig). Mae'r rhain ar ffurf llawlyfrau i athrawon yn hytrach nag ymchwil. Rydym yn dangos hyn yn fanwl ym Mhennod 3 isod.

Mae rhannu tystiolaeth am effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau, a gwneud awgrymiadau ar gyfer lleddfu ei effeithiau neu ymadfer ar eu hôl, yn weithgarwch sy'n ymateb yn union i'r flaenoriaeth o ddiwygio addysgol yn y *Rhaglen Lywodraethu* (2016; 2021b), yn ogystal â'r dyheadau a nodwyd yn y rhaglen *Adnewyddu a Diwygio* (2021). Ar ben hynny, bydd yr ymchwil hon yn darparu trosolwg amserol ar addysgu llenyddiaethau – wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol a'u cyfieithu iddynt – ar draws y cwricwlwm yng Nghymru wrth i ysgolion gamu ymlaen o ddatblygu eu cwricwla at eu cyflwyno (yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru (2020)), gan nodi'r manteision a'r heriau i'w gweledigaethau ar gyfer addysgu llenyddiaethau a gododd o ganlyniad i'r pandemig.

2.2 Nodau'r ymchwil

- Crynhoi'r dystiolaeth am effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru a thu hwnt.
- Nodi bylchau yn y llenyddiaeth bresennol ar effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau yn yr ysgol uwchradd.
- Casglu data ar effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru.

2.3 Cwestiynau ymchwil

- Pa ymchwil a wnaed am effeithiau'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ar lefel ryngwladol?
- Pa fylchau sydd yn yr ymchwil hon?
- Beth mae athrawon ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi rhoi gwybod amdano o ran effeithiau'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau?

2.4 Dulliau ymchwil

Roedd ein dulliau yn yr astudiaeth hon yn cynnwys:

- Cynnal adolygiad o'r ymchwil a gyhoeddwyd ynghylch addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ar lefel ryngwladol.
- Cynnal arolwg ar-lein o athrawon llenyddiaethau yng Nghymru, ar lefel ysgolion uwchradd, i asesu eu canfyddiadau o effeithiau'r pandemig ar eu gwaith.

Ar gyfer yr adolygiad o'r llenyddiaeth bresennol, chwiliwyd cronfeydd data ar-lein gan ddefnyddio'r allweddeiriau 'addysgu', 'llenyddiaeth', 'pandemig' a'u cyfystyron, ar gyfer llyfrau; erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid a chyfnodolion addysgu; polisi llywodraeth a dogfennau elusennau addysgol, o ddechrau 2020 hyd fis Gorffennaf 2022. Ar y dechrau, defnyddiwyd allweddeiriau ychwanegol i ganolbwyntio ar ganlyniadau chwilio yng Nghymru a'r DU. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r chwiliadau hynny, ehangwyd cwrpas y chwilio

i gynnwys gwledydd tramor. Roedd cyfeiriadau perthnasol yn y cyhoeddiadau a ganfuwyd drwy'r chwiliad cychwynnol o lenyddiaeth yn ein galluogi i ddod o hyd i ragor eto o lenyddiaeth berthnasol.

Yn ein proses casglu data ein hunain, roedd ein harolwg yn defnyddio dulliau cymysg ar y cyd i ofyn cwestiynau caeedig a phenagored er mwyn casglu data meintiol ac ansoddol. Nid oedd arolygon wedi'u cynnal a'u dilysu o'r blaen a oedd yn ddigon cynhwysfawr i'w defnyddio ar gyfer ein cwestiynau ymchwil. Felly, roedd holiadur yr arolwg wedi'i seilio ar ddau arolwg diweddar o athrawon a oedd wedi arwain at lunio adroddiadau a chyhoeddi ymchwil ym maes addysgu llenyddiaeth: un yn archwilio'r testunau y mae athrawon yn eu defnyddio ar lefel CA3 (blynyddoedd 7-9) yng Nghymru a de-orllewin Lloegr (Kneen et al, 2019-2020); y llall yn ymwneud â pha destunau Shakespeare a addysgir mewn ysgolion uwchradd yn y pedair gwlad a'r dulliau a rhesymau sy'n gysylltiedig â hynny (Elliott ac Olive, 2019). Er mwyn canfod effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaeth, roedd ein harolwg yn cynnwys elfen yn cymharu'r sefyllfa 'cynt ac wedyn' yn ychwanegol i'r holiaduron presennol. Er enghraifft, gofynnwyd y cwestiynau: 'Pa destunau roeddech yn eu haddysgu cyn y pandemig? A ydych yn addysgu testunau gwahanol nawr? Os felly, pa rai? A pham wnaethoch y newidiadau hyn?' Yn ogystal â hynny, roeddent yn cynnig cyfle i'r cyfranogwyr fyfyrion ynghylch a oeddent o'r farn bod y pandemig yn unig reswm neu'n rheswm uniongyrchol dros newid, neu a oeddent o'r farn bod cyfuniad o resymau wedi dylanwadu arnynt.

Roedd prosiectau Rhwydwaith Tystiolaeth Cydweithredol (CEN) Ysgol Gwyddorau Addysgol Prifysgol Bangor wedi cyflogi ymgynghorydd arbenigol ar ddulliau arolygon ymchwil Dr Olena Kaminska, Prifysgol Essex, a roddodd gyngor ar yr holiadur ymchwil drafft. Yn ogystal â hynny, roeddent wedi cydweithio â Fatema Sultana, Swyddog Ymchwil a oedd yn goruchwyllo dulliau arolygon holl brosiectau'r CEN, i ddatblygu set o gwestiynau caeedig i gasglu data demograffig am yr ysgolion a gymerodd ran, er mwyn helpu i ganfod a oedd y canfyddiadau'n gynrychiadol ac yn rhai y gellid eu cyffredinoli. Er hynny, am fod yr ysgolion wedi cymryd rhan ar sail wirfoddol, mae'n annhebygol o fod yn hollol gynrychiadol. Fel y gwneir fel arfer mewn llawer o ymchwil addysgol sy'n defnyddio dulliau cymysg/ansoddol, roedd ein prosiect yn rhoi blaenoriaeth i'r gallu i drosglwyddo canfyddiadau yn hytrach na'r gallu i gyffredinoli ar eu sail.

Cafodd yr holiadur ymchwil ei ddatblygu a'i weinyddu drwy ddefnyddio arolygon ar-lein JISC. Roedd y data yn ddiennw yn y pwyntiau casglu. Casglwyd y lleiaf posibl o wybodaeth bersonol yn unol â'r arferion gorau ar gyfer rheoli data. Roedd yr arolwg yn gofyn am wybodaeth o'r mathau canlynol gan bob un o'r athrawon:

- Pa bwnc/pynciau a pha grŵp/grwpiau blwyddyn a addysgir?
- A gafwyd newid yn y testunau llenyddol (drama, rhyddiaith, barddoniaeth) ac awduron a addysgir ar bob lefel (CA3, TGAU, Safon Uwch) ers dechrau'r pandemig yn gynnar yn 2020? Os cafwyd, am ba resymau?
- A gafwyd newid yn y nodweddion rydych yn chwilio amdanynt mewn testunau llenyddol ar bob lefel ers dechrau'r pandemig yn gynnar yn 2020? Os cafwyd, am ba resymau?
- A gafwyd newid yn eich ymdeimlad ynghylch a yw'n bwysig addysgu llenyddiaethau, yn eich ymdeimlad o'i ddibenion, ac yn eich gweledigaeth ar gyfer dysgu am a thrwy lenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd ers dechrau'r pandemig yn gynnar yn 2020? Os cafwyd, am ba resymau?

2.5 Moeseg a risg

Roedd lefel y risgiau i gyfranogwyr yn isel iawn. Casglwyd data drwy arolwg ar-lein, diennw am faterion nad oeddent yn sensitif oddi wrth oedolion nad oeddent yn agored i niwed. Drwy ofyn am y lleiaf o wybodaeth bersonol a gofalu bod cyfranogwyr yn ddiennw ar y pwynt casglu

data, roedd llai o risg o allu adnabod athrawon ar sail y data neu y byddent yn amharod i gwblhau'r arolwg am y rheswm hwn. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol gan bwyllgor moeseg Ysgol Gwyddorau Addysgol Prifysgol Bangor, gan ddefnyddio ei weithdrefnau a ffurflenni sefydledig.

Roedd risgiau i'r prosiect, o ran methu â chasglu digon o ddata, wedi cael eu lleihau drwy anfon negeseuon e-bost at reolwyr gyfarwyddwyr y consortia ysgolion, a oedd wedyn wedi anfon llythyr gwahoddiad, ac unrhyw nodiadau atgoffa, yn uniongyrchol at benaethiaid yr ysgolion yn y sampl ar ein rhan. Gwnaed hyn dan arweiniad Fatema Sultana (Prifysgol Bangor) a Richard Watkins (GwE – consortiwm gwella ysgolion Gogledd Cymru). Mae'r anhawster cynyddol o sicrhau cyfranogwyr ar gyfer prosiectau, oherwydd blinder yn y proffesiwn addysgu yn sgil y pandemig, yn fater sydd wedi'i nodi gan nifer o ymchwilwyr yng nghyd-destun y cyfnod ar ôl y pandemig yng Nghymru, yn cynnwys rhai ym mhrosiectau CEN Prifysgol Bangor. Roeddem wedi ceisio gwrthbwysu'r risg o gael nifer bach o ymatebion drwy geisio sicrhau ymatebion ansoddol cynhwysfawr i'r graddau mwyaf posibl, gan ddefnyddio cyfuniad o gwestiynau caeedig a phenagored yn yr arolwg. Cam arall a gymerwyd i wella ansawdd y data oedd defnyddio cwestiynau arolwg a ddilyswyd mewn dwy astudiaeth debyg flaenorol mewn gwledydd yn y Deyrnas Unedig (Kneen et al. 2019-20, Elliott ac Olive, 2019).

2.6 Samplu a dadansoddi data

2.6.1 Samplu

Defnyddiwyd dull samplu clystyrog, aml-gam i ddewis sampl er mwyn sicrhau ei bod yn gynrychiadol. Ar gam cyntaf y broses samplu, dewiswyd ysgolion canol ac uwchradd o restr wedi'i threfnu ar sail awdurdodau lleol (Abertawe, Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Powys, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Tor-faen, Wrecsam ac Ynys Môn), ac o fewn awdurdodau lleol ar sail cyfrwng iaith (dwy ffrwd, cyfrwng Saesneg, Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, Trosiannol a chyfrwng Cymraeg) a chanran y disgyblion mewn ysgolion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (sgoriau canran cymedrig). Ar yr ail gam, dewiswyd holl athrawon y celfyddydau mynegiannol ac ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (h.y., Cymraeg, Saesneg, Drama ac Ieithoedd Tramor Modern) a'u gwahodd i gwblhau'r arolwg.

Darparwyd yr holiaduron ar-lein gan anfon llythyr gwahoddiad drwy'r e-bost at benaethiaid yr ysgolion ym Mawrth 2022 gan y consortia ysgolion rhanbarthol yng Nghymru (GwE, EAS, Partneriaeth Canolbarth Cymru, CSC, Castell-nedd Port Talbot, Partneriaeth), a chymryd tri cham atgoffa wedyn ar ffurf cyfarfod ar Zoom, neges e-bost a galwad ffôn. Ar gyfer prosiect CEN 7, gwahoddwyd 164 o ysgolion (146 o ysgolion uwchradd a 18 o ysgolion canol, gan fod ysgolion canol yn darparu addysg gynradd ac uwchradd). Roedd cyfanswm o 30 o ysgolion wedi derbyn y gwahoddiad rhagarweiniol i gymryd rhan yn yr arolwg. Er hynny, staff o ddim ond 19 o ysgolion a gwblhaodd yr arolwg yn y pen draw. Roedd cyfanswm o 47 o athrawon wedi llenwi'r holiadur. Rhwng Mawrth ac Ebrill 2022 gwahoddwyd ysgolion i gymryd rhan mewn sesiwn Zoom ar-lein er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn arolygon CEN. Anfonwyd neges e-bost i atgoffa ysgolion ganol Mai 2022 drwy'r consortia ysgolion a nodwyd y byddai swyddogion ymchwil CEN yn cysylltu ag ysgolion drwy alwad ffôn ddilynol er cwrtseisi. Rhwng Mai a Mehefin 2022, gwnaed y galwadau ffôn atgoffa dilynol olaf i'r ysgolion i'w hannog i gymryd rhan yn arolygon CEN. Unwaith roedd ysgol wedi derbyn gwahoddiad y prosiect CEN, anfonwyd dolen ar gyfer holiadur yr arolwg at bennaeth/aelod staff dynodedig yr ysgol i'w hanfon ymlaen at holl athrawon y celfyddydau mynegiannol ac ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn yr ysgol (h.y., Cymraeg, Saesneg, Drama ac Ieithoedd Tramor Modern) er mwyn ei llenwi. Gellid llenwi'r holiadur yn Gymraeg neu Saesneg. Anfonwyd y llythyrau gwahoddiad a negeseuon atgoffa i ysgolion yn rhan o brosiectau CEN eraill

Prifysgol Bangor ar gyfer ysgolion lle'r oedd penaethiaid yr ysgolion a ddewiswyd wedi'u gwahodd i gymryd rhan mewn prosiectau CEN eraill.

Gwahoddwyd y sampl o ysgolion canol ac uwchradd yng Nghymru i gymryd rhan rhwng diwedd Mawrth a diwedd Mehefin 2022. Cysylltwyd ag athrawon llenyddiaethau mewn nifer o bynciau perthnasol. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd canlyniadau'r arolwg yn cynnwys mwy nag un athro o bob ysgol. Fodd bynnag, drwy gasglu codau post ysgolion, roeddem yn gallu gweld a oedd clystyrau o gyfranogwyr. Roedd cyfanswm o 47 o gyfranogwyr yn gweithio mewn 19 o ardaloedd cod post (o gyfanswm o 243 o godau post). Felly, ar gyfartaledd, roedd 2.5 athro ym mhob ardal cod post a gymerodd ran ac roedd clystyrau o ddau neu ragor o athrawon yn gweithio yn yr un ardal cod post mewn 75% o'r ardaloedd cod post a gymerodd ran. Dim ond 5 cod post unigryw a gafwyd, pob un yn y canlyniadau arolwg Saesneg: 2 mewn gwahanol ardaloedd ym Morgannwg Ganol; 1 yng Ngwent; 1 yng Ngwynedd; ac 1 yng Nghaerdydd. Mae'n debygol bod clystyrau o fewn yr un ardal cod post yn dangos bod nifer o athrawon o'r un ysgol wedi ymateb, gan fod llenyddiaeth yn cael ei haddysgu mewn nifer o Feysydd Dysgu a Phrofiad. At ei gilydd, roedd 5 (o blith 7) o'r ardaloedd cod post yng Nghymru wedi'u cynrychioli (CF, LL, NP, SA). Roedd bylchau amlwg yn y ddwy ardal cod post gyfagos yng nghanolbarth Cymru (LD a SY), gan na chafwyd cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion yn y manau hynny. Cafwyd rhaniad cyfartal bron rhwng athrawon a lenwodd yr holiadur yn Gymraeg (51%, n.24) a'r rheini a'i llenwodd yn Saesneg (49%, n.23).

2.6.2 Dadansoddi

Drwy holi am y math o ysgol, roeddem yn gallu gweld a oedd ymatebion yn gynrychiadol o fathau o ysgolion ar lefel genedlaethol neu'n tueddu at fath penodol o ysgol. Drwy holi am brofiad yr athrawon (nifer y blynyddoedd o wasanaeth) a'r cam yn eu gyrfa (o Statws Athro Cymwysedig i Bennaeth Adran), roedd modd gwirio ymatebion mewn ffordd debyg i ganfod a oeddent yn gynrychiadol ac a ellid cyffredinolli ar eu sail a gwneud sylwadau am hynny.

Roedd y data meintiol a gasglwyd ar ffurf ystadegau disgrifiadol: y nod oedd ceisio canfod rhai o brif nodweddion yr athrawon a gymerodd ran a'u hysgolion. Maent yn dangos newid a dilyniant o ran yr awduron a thestunau a addysgir, ym mha feysydd cwricwlwm, i ba grwpiau/ lefelau, a gwahanol boblogrwydd y dulliau a ddefnyddiwyd i ddewis testunau. Mae agwedd gymharol yr arolwg, cyn y pandemig ac yn y cyfnod ymadfer ar ei ôl, yn dangos ym mha ffordd y mae athrawon yn gweld bod hyn wedi newid, os o gwbl, dros y ddwy flynedd diwethaf.

Ystyriwyd y data ansoddol ar sail dadansoddiad o'u cynnwys, themâu a disgwrs, a hynny'n cynnwys barn ymatebwyr am bwysigrwydd a diben(ion) addysgu llenyddiaethau a'u gweledigaethau ar gyfer hynny. Mae'r data hyn yn dangos newid a dilyniant yn y canfyddiadau hyn dros y ddwy flynedd diwethaf. Y nod wrth gasglu'r data ansoddol oedd dangos y canfyddiadau o addysgu llenyddiaethau, yn y cyfnodau yn union cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig, yng ngeiriau'r athrawon eu hunain. Cafodd y data ansoddol eu codio gan ddau o'r ymchwilyr. Gweithiodd Davies ar y data ansoddol yn Gymraeg ac Olive ar y data ansoddol yn Saesneg. Am fod Davies yn ddwyieithog, roedd hefyd yn gallu codio rhai data yn Saesneg a'u cymharu wedyn â chodio'r un data gan Olive, gyda thrafodaeth wedyn i sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl wrth godio'r ddwy set ddata. Roedd y broses codio yn un ailadroddol lle'r oedd codau cychwynnol wedi'u datblygu ar sail yr adolygiad llenyddiaeth cychwynnol a chodau wedi'u hychwanegu atynt drwy ddadansoddi'r data ac adolygu rhagor o lenyddiaeth.

O ran cofnodi'r canfyddiadau, parhawyd i ddyrannu gwaith ar yr ymatebion Cymraeg i Mary Davies a gwaith ar yr ymatebion Saesneg i Sarah Olive fel y disgrifir ym Mhennod 2. Parhawyd hefyd â'u harfer o ddarllen, gwneud sylwadau a rhoi adborth ar waith ei gilydd wrth iddynt ysgrifennu a chyfnewid adrannau h.y., fe'u cofnodwyd yng nghyd-destun trafodaeth gilyddol, barhaus. Roedd trydydd ymchwilydd, Gwawr Maelor wedi cael drafft llawn terfynol ac wedi cyfrannu at y cofnodi ar y cam hwn. Yn benodol, gofynnwyd iddi roi cyngor ar faterion penodol yn ymwneud â'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg y teimlai'r awduron eraill eu bod yn teilyngu ail farn arbenigol iawn.

3. Adolygu'r ymchwil bresennol

Mae bwlch yn y dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ar lefel ryngwladol. Roedd y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth bresennol a ganfuwyd ar y topig hwn, wrth chwilio yn Gymraeg ac yn Saesneg, wedi cael ei hysgrifennu yn Saesneg. Yn yr un modd, roedd yn ymwneud yn bennaf ag addysgu llenyddiaethau yn Saesneg, yn hytrach na llenyddiaethau mewn ieithoedd neu ddisgyblaethau eraill (drama, er enghraifft). Roedd rhywfaint o'r llenyddiaeth bresennol yn datgan yn benodol ei bod yn canolbwyntio ar 'Llenyddiaeth Saesneg'. Mae nifer o gyhoeddiadau o America yn darparu enghreifftiau o'r ystafelloedd dosbarth 'English Language Arts'. Mae nifer o erthyglau yn cynnwys y gair 'English' yn unig yn eu teitlau, a'u cynnwys yn ymwneud ag addysgu Llenyddiaeth Saesneg, yn hytrach nag iaith Saesneg. Mae erthyglau o'r fath yn canolbwyntio ar addysgu testunau llenyddol (dramâu, cerddi a nofelau) yn ystod y pandemig, gan roi pwyslais yn aml ar dulliau addysgegol arloesol i wella llythrennedd a sgiliau dadansoddi beirniadol. Mae eraill yn tynnu sylw at yr angen brys i gyflwyno testunau newydd yn eu cwricwlwm er mwyn amrywiaethu'r testunau a addysgir mewn ysgolion.

Gan fod lle mor amlwg i Llenyddiaeth Saesneg yng nghanlyniadau'r chwiliadau am yr ymchwil bresennol ar addysgu llenyddiaethau yng Nghymru a thu hwnt, a'r gallu i'w throsglwyddo wrth astudio llenyddiaethau mewn ieithoedd eraill yn y DU, bydd yn werth ei diffinio yma fel pwnc, yn enwedig yng nghyd-destun y 'knowledge turn' a welwyd yn y cwricwlwm yn y DU dros y degawd diwethaf (Lambert, 2011). Mae Elliott (2021) yn ymchwilio i ystyr 'gwybodaeth' mewn Llenyddiaeth Saesneg yn benodol ac yn ymdrin â chwestiynau pwysig ynghylch y mathau o wybodaeth sy'n berthnasol wrth ei haddysgu, a'r gwahanol werthoedd a roddir iddynt gan gyrrff arholi a llywodraeth. Yn ei geiriau hi:

at least part of what we are teaching when we teach English Literature is the knowledge of how an argument is constructed, and how to propose a point, listen to the ideas of others, and propose counter-arguments; we are teaching some aspect of written communication; and we are teaching the idea of knowledge as a complex construction of language (t. 17).

Yn ei llyfr, mae Elliott yn dadlau bod gwybodaeth yn y pwnc yn cynnwys gwybod am bethau (e.e. ffeithiau ac ystadegau) a gwybodaeth ymgorfforedig: y syniad o 'wybod' cerdd neu ddarn ysgrifenedig. Mewn barddoniaeth, er enghraifft, mae Elliott yn tynnu sylw at y berthynas rhwng gwybodaeth, 'ymateb affeithiol' a 'gwerthfawrogi esthetig' (Elliott, 2021, t. 81). Gall gwybodaeth am gerdd fod yn fanylion bywgraffyddol am yr awdur, y defnydd o gynllun odli, a'i ffurf a strwythur. Er hynny, mae'n bosibl na fydd cofio gwybodaeth o'r fath yn gyfystyr o reidrwydd â dealltwriaeth llawn o'r gerdd, a gwerthfawrogiad o'i hystyron lluosog. Fel y mae Elliott yn ymhelaethu:

To be able to tell me that Keats uses spondees regularly in 'Ode on a Grecian Urn' is not to have valuable knowledge about the poem. To be able to identify them and think about their potential effect, or why they have been placed where they have, would be valuable knowledge. This brings us back to a key question: Is every fact we store 'knowledge' or is there something more to knowing than being able to list attributes?' (t. 86)

Mae Saesneg yn bwnc sy'n delio â dysgu cymhleth ac amwysedd, mân wahaniaethau a dehongli. Yn ei llyfr, mae Elliott yn holi a yw rhai dulliau asesu tyngedfennol yn cyfoethogi'r addysgu ar lenyddiaethau i fyfyrwyr, neu a yw dulliau sy'n dethol, dynodi a dosbarthu yn arwain at ddysgu arwynebol yn unig.

3.1 Effeithiau'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau

Nid oedd yr astudiaeth hon wedi canfod unrhyw ymchwil helaeth a oedd yn ymdrin yn benodol ag effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, yn Gymraeg na Saesneg. Felly, mae'r adran hon yn cwmpasu'r llenyddiaeth bresennol ar effaith y pandemig ar addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yn y DU, sef llenyddiaeth o Loegr yn bennaf, ac ar lefel ryngwladol, sef llenyddiaeth o Awstralia yn bennaf. Mae trosolwg yn dilyn ar y prif destunau a ddaeth i'r golwg.

Roedd y llenyddiaeth bresennol ar ffurf cyhoeddiadau o ysgrifau myfyriol, byr yn bennaf, a'r rheini wedi'u hysgrifennu'n afaelgar mewn arddull anffurfiol, fel Evans et al. (2020) yn cofnodi profiadau naw o athrawon Saesneg mewn ysgolion uwchradd yn Llundain yn ystod y pandemig. Mae Brindley et al. (2021) hefyd yn rhannu adroddiadau am bum athro Saesneg yn y DU. Roedd pob un o'r athrawon yn yr ymchwil hon yn rhai a oedd wedi graddio'n ddiweddar yn y rhaglen Graddau Meistr mewn Saesneg ac Addysg ym Mhrifysgol Caergrawnt, ac mae'r ysgolion lle maent yn gweithio yn amrywio o ran eu lleoliad daearyddol, statws ac ystodau oedran y dysgwyr (t. 67). Yn hytrach na rhannu adroddiadau ysgrifenedig yr athrawon eu hunain, roedd awduron yr erthygl wedi dadansoddi ac ysgrifennu eu hymatebion eu hunain i'r naratifau byr a gyflwynwyd gan yr athrawon, gan ddefnyddio dyfyniadau uniongyrchol yn dystiolaeth. Maent yn crynhoi'r prif themâu sy'n codi o'r naratifau: diffiniadau o 'Saesneg' fel pwnc, mynediad technolegol, ymgysylltu a chymhelliant ymysg dysgwyr, ac addasu i gyd-destunau dysgu newydd. Hefyd yn y DU, roedd *Drama & Theatre* wedi rhoi sylw i nifer helaeth o ymarferiadau addysgegol, gwybodaeth ar ffurf newyddion i'r proffesiwn addysgu ac agweddau ehangach ar y ddarpariaeth o ddrama y tu allan i'r maes llafur, yn cynnwys cynrychiadau mewn ysgolion, gweithdai theatr, a chyngor ar glyweliadau mewn ysgolion drama. Mae cynghorion mewn rhifynnau diweddar o'r cyfnodolyn hwn yn rhoi mewnwelediad i'r dulliau o addysgu drama yn ystod y newid i ddysgu o bell. Roedd un athro drama, Keith Burt, wedi argymhell 'setting your students tasks they can do without you being physically present' (Smurthwaite, 2019/2020). Roedd Burt wedi gosod tasgau fel dadansoddi ymsonau ac wedi annog myfyrwyr i'w ffilmio eu hunain a lanlwytho fideos y bydd yr athro yn gallu rhoi adborth arnynt. Roedd hefyd wedi gosod ymarferiadau ysgrifennu creadigol lle mae myfyrwyr yn ysgrifennu golygfa wedi'i seilio ar ddrama y cawsant eu haddysgu arni neu'n darparu cyngor i actorion sy'n chwarae rhan benodol mewn testun y buont yn ei astudio (cymerodd Burt ddarn o *The Hunger Games* gan Suzanne Collins ar gyfer gwaith y dosbarth). Yn ei erthygl, mae Burt yn ymdrin â'r heriau y mae pynciau wedi'u hwynebu oherwydd y pandemig, a rhai ffyrdd i'w datrys, a dulliau addysgegol poblogaidd a ddefnyddir i'w darparu sydd fel arfer yn galw am ryngweithio byw a chorfforol agos rhwng myfyrwyr.

Cafwyd nifer da o erthyglau mewn un rhifyn arbennig o gyfnodolyn i addysgwyr yn Awstralia. Mewn modd tebyg, mae Owen et al. (2021) yn cyflwyno ymatebion gan bedwar athro Saesneg i wahoddiad gan y cyfnodolyn i addysgwyr, *English in Australia*, i rannu eu profiad o'r cyfnod clo cyntaf (Mawrth-Mehefin 2020). Mae'r erthygl hon yn darparu dadansoddiad wedyn o'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr athrawon, a sylwadau amdanynt. Mae'r rhain yn amlygu themâu cyffredin (fel dulliau o ddatrys problemau a gwytnwch dysgwyr ac athrawon) a gwahaniaethau (profiad yr athro, bod yn gyfarwydd â thechnoleg ar-lein). Yn yr un modd, roedd Parr et al. (2021) wedi defnyddio ffurf yr ysgrif fyfyrliol. Mae eu herthygl yn ymdrin ag effaith y pandemig ar Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae wedi'i seilio ar bedwar adroddiad hunangofiannol gan ddarparwyr addysg gychwynnol i athrawon Saesneg mewn prifysgolion ar hyd arfordir dwyreiniol Awstralia. Dewiswyd yr athrawon mewn ymateb i wahoddiad gan yr Australian Association of the Teaching of English (t. 22). Mae'r erthygl yn tynnu sylw at brofiadau unigryw pob athro wrth ymateb i amodau'r pandemig ac mae'n cefnogi dulliau addysgegol creadigol ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr mewn cyfnod o ansicrwydd, deall dulliau addysgegol o'r fath er mwyn sbarduno meddwl beirniadol, hyder ymysg dysgwyr i ddilyn syniadau gwreiddiol a meysydd syniadol newydd mewn llenyddiaeth. Mae'n cynnwys

strategaethau ar gyfer dysgu o bell yn y sector ysgolion uwchradd. Mae'n bwysig nodi ei bod yn cydnabod, am yr athrawon sydd dan sylw yn yr erthygl hon, ei bod yn ymddangos eu bod yn gweithredu mewn cyd-destunau lle cafwyd gwell adnoddau i ymdopi â dysgu o bell, fel ei bod yn bosibl y byddai eu profiadau'n wahanol iawn i'r rheini a gafodd athrawon a oedd yn gweithio mewn cyd-destunau llai breintiedig (t. 30). Mae Gannon et al. (2021) yn troi eu sylw oddi wrth athrawon ac at y disgyblion, gan edrych ar y ffordd yr oedd dosbarth Saesneg Blwyddyn 9/10 yng ngorllewin Sydney wedi ymaddasu i dasg ysgrifennu mewn uned ar *Macbeth* yn ystod ton gyntaf y pandemig (tt. 38-39). Ym mis Gorffennaf 2020, roedd yr awduron wedi dosbarthu gwahoddiad, drwy law penaethiaid ysgolion uwchradd yn Ne Cymru Newydd, i fyfyrwyr gan ofyn iddynt rannu enghreifftiau o'r gwaith yr oeddent wedi'i greu yn ystod y cyfnodau clo cyntaf mewn ysgolion. Mae'r ysgrif yn canolbwyntio ar yr ymateb gan un ysgol a oedd wedi darparu 17 o ymatebion gan fyfyrwyr i'r un dasg: 'a pandemic-inspired soliloquy embedded within an English unit of *Macbeth*' (Gannon et al., 2021, t. 39). Roedd yr awduron wedi dewis pum enghraifft a'u dadansoddi'n fanwl, gan ymdrin wedyn ag amrywiaeth yr ymatebion a gyflwynwyd gan y myfyrwyr. Oherwydd natur darllenwyr y cyfnodolyn hwn, er mai gwaith y myfyrwyr sydd dan sylw yn yr erthygl hon, y bwriad yw helpu athrawon i gynllunio ar gyfer addysgu ac asesu unedau tebyg. Felly, roedd llawer o'r cymorth i athrawon Saesneg yn ymwneud â dau gyd-destun cenedlaethol yn bennaf, Lloegr ac Awstralia.

Ar sail y llenyddiaeth bresennol, gwelir mai un her allweddol a gododd o ganlyniad i'r pandemig oedd dod o hyd i ddulliau o gynnwys myfyrwyr mewn rhyngweithio rhyngpersonol wrth ddysgu o bell, gyda staff a chyda'i gilydd, sy'n gyfwerth â lefelau a mathau rhyngweithio blaenorol yn yr ystafell ddosbarth ffisegol. Mae nifer o'r adroddiadau sy'n ymwneud ag addysgu Saesneg yn tynnu sylw at y ffaith bod rhyngweithio ac ymgysylltu cymdeithasol wedi'i gollu o ganlyniad i addysgu ar-lein (Evans et al., 2020; Yandell, 2020). Mae hon yn gollod ddifrifol o gofio mai un o'r prif nodau ar gyfer addysgu Saesneg yng Nghymru yw bod dysgwyr yn cael cyfleoedd ar gyfer 'ymarfer ar lafar cyn ysgrifennu'; 'ymateb ar lafar i destunau di-dor a phytiog'; 'cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion'; 'siarad a gwrando'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddsbarth' yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Llywodraeth Cymru, 2016, t. 17, t. 30). Yn yr un modd, un o'r nodau ar gyfer addysgu Saesneg fel pwnc, yn ôl y *National Curriculum* yn Lloegr, yw 'use discussion in order to learn' (DfE, 2013, t. 13). Ni cheir y nod canolog hwn ar gyfer trafod ymysg nodau disgyblaethau pwnc eraill, ar wahân i ieithoedd. Mae'r effaith hon yn destun cryn bryder ar gyfer pynciau craidd fel Cymraeg a Saesneg oherwydd eu statws uchel a'u pwysigrwydd ar lefel TGAU. Er nad oes canfyddiadau yn y llenyddiaeth ehangach am natur yr effaith ar addysgu Cymraeg o ganlyniad i'r pandemig, mae'r adroddiad gan Estyn yn 2020 am Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf yn nodi pryder cyffredinol, parhaus ynghylch gwersi sy'n rhy undonog, ac mae'r adroddiad yn argymhell rhwydweithio a chyfranogi gan fyfyrwyr wrth addysgu Cymraeg (t. 21).

Mae Elliott (2021) yn awgrymu mai 'two characteristic pedagogies' sy'n hanfodol ar gyfer addysgu Llenyddiaeth Saesneg yw 1) 'communal reading of a text' a 2) 'guided discussion of the text' (t. 12). Mae barn Elliott wedi'i hategu gan erthyglau eraill sy'n mynnu bod cyfathrebu ac ymgysylltu ag eraill yn bwysig mewn ystafelloedd dosbarth Saesneg er mwyn 'construct knowledge through discursive means, as a community' (t. 13). Mae adroddiadau gan athrawon yn Llundain yn Evans et al. (2020) yn dangos bod cefnogaeth ar lawr gwlad i'r syniad bod trafod yn rhoi'r gallu i fyfyrion, meithrin ymwybyddiaeth o farn pobl eraill, a rhannu syniadau â'i gilydd er mwyn canfod ystyr a chael dealltwriaeth: 'learning happens best in a dialogue, not in a sequence of decontextualised and monological tasks' (t. 247). Er bod yr athrawon hyn yn gweithio yn Llundain, gallai'r erthygl hon fod o gymorth i ddangos yr anawsterau y gallai athrawon eu profi wrth hwyluso trafodaeth er mwyn cyflawni'r nod yn y

Cwricwlwm i Gymru o sicrhau dysgwyr sydd yn 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd' (Llywodraeth Cymru, 2022) os caeir ysgolion yn y dyfodol ac os bydd rhagor o ddibyniaeth ar ddysgu o bell. Mae athro arall yn Evans et al. (2020) yn nodi '[g]etting students to talk about the use of language in a text [...] is impossible when students cannot share ideas with one another' (t. 246). Roedd yr athro hwn wedi defnyddio Google Meets ar gyfer dysgu o bell. Eglurodd nad oedd myfyrwyr yn gallu gweld ei gilydd, na'r athro (er mwyn gallu lleddfu 'pryderon o ran diogelu' wrth ddefnyddio'r cyfleuster fideo), a bod sgwrsio'n fwy anodd o lawer o ganlyniad i hyn (t. 245). Mae Owen et al. yn myfyrio ar ganfyddiad o wahaniaethau problemus wrth gyfrannu i drafodaeth rhwng aelodau o ddsbarth gan weld bod hynny'n achosi problemau i athrawon: eglurodd un athro am drafodaethau mewn dosbarthiadau mawr: 'some students have asked not to be called on for answers to questions, but without calling on specific students, it tends to be the same few students answering questions all the time' (t. 10). Mae adroddiad arall yn Owen et al. yn rhannu profiad tebyg: 'for those students for whom school is a difficult and challenging place, remote learning seemed to mean that they could, by and large, opt-out of the process' (t. 13). Er nad yw'r her o gynnwys myfyrwyr mwy distaw neu anfoddog yn un newydd i athrawon, mae'r adroddiadau hyn yn awgrymu bod y problemau'n dwysáu os nad yw'r athro yn bresennol yn yr un gofod ffisegol â'r dysgwyr.

Byddai'r syniad o lunio gwybodaeth 'through discursive means' yn gallu ymddangos yn un delfrydgar i rai athrawon, yn ôl eu harddull addysgu a lefel gallu'r dysgwyr yn eu dosbarth. Er hynny, roedd nifer o adroddiadau wedi nodi'r buddion o gynnwys myfyrwyr, gweithgareddau dan arweiniad myfyrwyr a chyfranogi gweithgar mewn dysgu sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth dyfnach o'r testunau a astudir. Roedd y cyfnodau clo wedi peri bod y math hwn o addysgu yn llai cyraeddadwy, os nad yn amhosibl: 'teaching via an online platform doesn't exclude conversations; they are just much harder to do (particularly if you're engaging a whole class)' (NATE Spring 21, t.11). Un o beryglon dysgu o bell yw y bydd y gwersi'n rhai lle clywir llais yr athro yn bennaf yn trosglwyddo gwybodaeth i'r myfyrwyr ac yn cyfarwyddo'r dosbarth. Mae hyn yn gyson â math o addysgeg lle '[t]he knowledge of the text — the interpretation, the argument that supports it — is already generated' cyn ei ddarparu i'r myfyrwyr (Elliott, 2021, t. 14, ac mewn perthynas â hyn gweler Parr et al. t. 28). Un o beryglon y dull addysgu hwn yw ei fod yn gwrthod 'the multiplicity of interpretation which is one of the characteristics of literary study'; y cystadlu rhwng nifer o safbwyntiau, sydd weithiau'n groes i'w gilydd, a geir wrth astudio llenyddiaeth; a'r cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan yn y cystadlu a'r problemeiddio hwnnw (Elliott, 2021, t. 14). Mae addysgeg o'r math hwn hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd gwireddu'r nodau yn y *Cwricwlwm i Gymru* newydd ym maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o ran darparu 'profiadau llenyddol i ddysgwyr a fydd yn ennyn eu diddordeb', os mai dim ond llais yr athro a gaiff sylw ac nad oes cyfleoedd i ymchwilio i bersbectifau eraill (Llywodraeth Cymru, 2019, t. 7).

Mae'r pryder ynghylch gwersi llenyddol yn ystod y pandemig lle mynegwyd un farn yn unig yn cael ei rannu gan Yandell, ymchwilydd a darparwr addysg gychwynnol i athrawon yn yr Athrofa Addysg, Llundain (2020). Mae'n ymdrin ag un wers Saesneg ym Mlwyddyn 10 a gynigiwyd ar wefan Oak National Academy, cronfa o wersi ar-lein a ddatblygwyd mewn ymateb i'r cyfnod clo cyntaf yn y DU yn 2020. Cefnogwyd y fenter hon gan y Reach Foundation, cwmni elusennol ar gyfer plant sydd â'i chanolfan yn Feltham, a gafodd gyllid gan yr Adran Addysg yn Lloegr (£2.2 miliwn), a Sefydliad Mohn Westlake (£1.8 miliwn; gweler Reach Foundation, 2020, t. 8). Crëwyd Oak National Academy yn wreiddiol gan 40 o athrawon, ond mae'r nifer hwn wedi cynyddu erbyn hyn i fwy na 550 o athrawon sy'n cynorthwyo ac yn cyfrannu cynlluniau gwersi mewn 28 o bynciau i'r wefan rhwng Cyfnod Sylfaen y Blynnyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 4 (gweler Oak National Academy Annual Report, 2021, t. 7, t. 8). Mae Yandell yn edrych ar wers Saesneg ym Mlwyddyn 10 ar 'Approaching unseen fiction texts' lle mae'r cynllun yn cynnwys cwis rhagarweiniol, esboniad o'r pyramid naratif (y 'Pedwar gwrthdrawiad mewn llenyddiaeth', a ddatblygwyd

gyntaf gan Gustav Freytag yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg), ac wedyn gwahanol dechnegau ar gyfer archwilio'r tesun, cyn mynd ymlaen at y stori fer ei hun. Er nad yw Yandell yn nodi'r agwedd benodol ar Saesneg fel pwnc y mae'n cyfeirio ati yn yr ysgrif hon, mae'r ymarferiad ffuglen dibaratoad yn rhan o'r papur TGAU Iaith Saesneg, felly gellir cymryd yn rhesymegol ei fod yn trafod addysgu Iaith Saesneg.

Ar ôl trafod pob cam yn y cynllun gwers, mae Yandell yn crynhoi'r dull hwn o addysgu Saesneg gan ddweud ei fod wedi'i gyfeirio at arholi ac asesu (a elwir yn aml yn 'addysgu ar gyfer y prawf'). Mae'n dod i'r casgliad bod y dull hwn o addysgu yn cyfyngu'r pwnc fel a ganlyn: 'the point of English is to prepare students for English exams', gan fod ymarferiadau testun dibaratoad yn brif elfen mewn arholiadau, yn hytrach nag agwedd ar y dulliau asesu gwaith cwrs a fabwysiadwyd mewn ymateb i'r pandemig (er y gellid dadlau, yn gyffredinol, fod y gallu i drafod testun anghyfarwydd, ei werthuso a chanfod ystyr ynddo yn sgil bywyd pwysig sy'n berthnasol i ystod o ddibenion, yn amrywio o sylwi ar newyddion ffug h.y., llythrennedd beirniadol, i ddarllen er mwynhad). Mewn sesiynau fel yr un y mae Yandell yn ei disgrifio, mae llai o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu syniadau gwreiddiol eu hunain am lenyddiaeth ac mae perygl y bydd gwersi sy'n cynnwys dim ond un ateb awdurdodol yn achosi ymddieithrio ymysg myfyrwyr. Yn ogystal â hyn, byddai'r canlyniadau i wersi Saesneg unffordd o'r fath yn gallu troi dysgwyr oddi wrth ddarllen er mwynhad, yn groes i'r nodau yn y Cwricwlwm i Gymru newydd ar gyfer datblygu 'cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth' (Llywodraeth Cymru, 2019, t. 7). Yn ei erthygl, mae Yandell yn codi cwestiynau am adnoddau a dulliau addysgegol ar gyfer gwersi Saesneg a gyflwynwyd mewn ymateb uniongyrchol i'r cyfnod clo cyntaf ym Mawrth 2020. Mae'n awgrymu mai'r ymateb cyntaf i'r pandemig wrth addysgu llenyddiaethau, a phynciau tebyg eraill o bosibl, oedd syrthio'n ôl oddi wrth y cynnydd addysgegol a gafwyd o'r 1960au a'r 1970au ymlaen, o ffafrio addysgegau disgybl-ganolog yn hytrach na rhai athro-ganolog, ac oddi wrth ystyried bod llenyddiaeth yn ymwneud â ffyrdd o lunio nifer o wahanol ddeongliadau at ei gweld yn fater o ailadrodd un ystyr awdurdodol a ddarparwyd gan athro. Mae'r erthygl hon yn anarferol am ei bod yn darparu beirniadaeth o enghraifft o ddysgu ar-lein mewn Saesneg fel pwnc yn ystod y pandemig. Nid yw ond yn un enghraifft o un wers a gynigiwyd gan Oak National Academy ac ni ellir cymryd ei bod yn nodweddiadol o'r ddarpariaeth ar gyfer y pwnc yn y fan honno nac mewn mannau eraill yn ystod y pandemig. Er hynny, mae'n awgrymu nad yw'r pryderon hirhoedlog am y cyfeiriad y mae pynciau seiliedig ar lenyddiaeth yn mynd iddo, fel 'addysgu ar gyfer y prawf', wedi diflannu yn sgil y pandemig: maent yn amlwg o hyd yn y dulliau addysgegol a thechnegol a ddefnyddiwyd i addasu addysgu i gyd-destun y pandemig.

Un o'r prif argymhellion gan yr athrawon a gyfrannodd i'r cyhoeddiadau hyn, er mwyn lleihau nifer y gwersi llenyddiaeth lle mynegir un farn yn unig, yw darparu cyfleoedd i fyfyrwyr feithrin hyder wrth rannu syniadau. Myfyriodd un athro drama dienw ar ei brofiad o weithio gyda myfyrwyr Blwyddyn 12 ym Medi 2020 pan aildechreuodd addysgu wyneb yn wyneb: 'we needed to work on their confidence. So many of them had a fear of getting things wrong and that fear was stifling their ability to be creative' (Dienw, 2020/2021, t.11, gweler hefyd Adnewyddu a Diwygio t. 6 ynghylch dysgwyr ôl-16 newydd a phresennol). Gwelwyd problemau tebyg o ran hyder mewn pynciau eraill hefyd pan ddychwelodd disgyblion i'r ystafell ddosbarth. Mae Woozley (2022), sy'n aelod o weithgor addysg uwchradd y Gymdeithas Genedlaethol er Addysgu Saesneg (NATE), yn nodi 'many teachers reported a decrease in students' oral participation during online learning' (t. 19). Mae Woozley yn argymhell ailadrodd disgwyliadau i bob dosbarth fel y bydd pob dysgwr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddo ym mhob gwers, ac yn dweud bod modd datblygu 'the careful scaffolding of oracy skills' ar sail hyn (Woozley, 2022, t. 20). Mae Woozley hefyd yn argymhell y dylai athrawon fod yn ymwybodol o'u hymatebion geiriol; yn lle 'rephrasing and rewording student responses to get the "right" answer', gellir gofyn cwestiynau arweiniol i gymell myfyrwyr i feddwl yn fanwl am eu hymatebion. Gellir defnyddio addysgeg o'r math hwn i greu awyrgylch dysgu adeiladol, lle gellir annog myfyrwyr i greu syniadau a'u harwain mewn ffordd gynhyrchiol. Drwy gymell myfyrwyr i beidio â meddwl yn

nhermau atebion 'cywir' neu 'anghywir', bydd myfyrwyr yn gallu meithrin hyder a'r gallu i greu syniadau. Mae'r addysgeg hon yn gyson hefyd â'r rhagdybiaeth epistomegol sydd gan ysgolheigion Saesneg mewn Addysg, a nifer o athrawon llenyddiaethau yn ein hadolygiad, y dylid rhoi lle blaenllaw wrth astudio llenyddiaethau i ddeongliadau lluosog o destunau sy'n ganlyniad i ddadlau a phroblemeiddio. Yn ogystal â hyn, roedd yr athro drama dienw y cyfeiriwyd ato uchod wedi rhoi anogaeth i fyfyrwyr ynghylch cael pethau'n 'anghywir' a bod yn chwareus, er mwyn tyfu a dysgu (t. 11).

Cafwyd enghreifftiau eraill o athrawon Saesneg a oedd wedi osgoi'r dull addysgu unffordd a drafodwyd uchod, a hynny'n dangos bod addysgegau cydweithredol yn bosibl yn ystod y cyfnodau clo. Mae un disgrifiad yn Owen et al. (2021) yn cymharu ymarfer addysgu ar-lein yr addysgydd â'i ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ffisegol: wrth addysgu ar-lein roedd yn 'less formal, more collaborative, less dictatorial and more flexible around the moods and preferences: [a] focus on collaboration, engagement and connection was used to foreground student voices' (t. 13). Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod cyfranogi gan fyfyrwyr ac ymgais i gynnwys eu lleisiau yn elfennau hanfodol wrth addysgu o bell, rhywbeth y mae nifer mawr o addysgwyr wedi ceisio rhoi blaenoriaeth iddo'n gyson yn yr ystafell ddosbarth. Yn yr un modd, mae adroddiad yn Parr et al. (2021) yn rhannu'r pryder hwn: '[W]e were determined not to succumb to a model of education that sees the teacher's role as simply transmitting information' a 'we planned around opportunities for students to work in small groups, with the Zoom breakout room functioning like a round-table group in class' (tt. 27-28). Mae'r disgrifiad hwn wedi'i ategu gan ddealltwriaeth o natur gydweithredol addysgeg, pwysigrwydd dysgu fel profiad cymdeithasol, a rhannu syniadau o fewn addysg, er y dylid nodi ei fod yn ymwneud â hyfforddiant athrawon ac y gellid cymryd bod hyfforddwyr athrawon yn meddu ar wybodaeth ehangach am y technegau a'r dulliau addysgegol sydd ar gael, a mwy o brofiad o'u defnyddio na'r athro llenyddiaeth cyffredin yn yr ystafell ddosbarth.

Er bod yr adolygiad hwn o'r ymchwil bresennol wedi nodi agweddau negyddol ar ymgysylltu â myfyrwyr gan mwyaf, fe geir adroddiadau cadarnhaol o'r math hwn: '[t]he rare quieter or less sociable student, found the independent allocation of time and a greater control over work completion a positive' (Owen et al, 2021, t. 13). Roedd yn ymddangos bod gweithio gartref, gan brofi annibyniaeth newydd wrth ddysgu, yn gweithio'n ffafriol i rai dysgwyr. Mae'r un adroddiad yn Owen et al, a ysgrifennwyd gan Steven Kolber, yn disgrifio tri chyfnod cyntaf y dysgu o bell ym Melbourne, Awstralia (15 Ebrill - 9 Mehefin 2020, 20 Gorffennaf - 1 Awst 2020, a 2 Awst - 18 Medi) o dan wahanol benawdau, ac mae'n ddi-ddorol nodi bod y cyfnod cyntaf wedi'i ddisgrifio fel a ganlyn: '[e]njoying the novelty of remote learning, learning new methods and tools with students'. (t.13). Mewn disgrifiad arall yn Owen et al, gan Anne Wood, ceir yr un ymdeimlad o frwdfrydedd: 'online learning provided an extraordinary opportunity for teachers to see the possibilities of technology and creativity in the English curriculum' (t. 14). Er bod y fformat dysgu newydd yn gyffrous i rai athrawon a'u myfyrwyr, mae hefyd yn bwysig ychwanegu bod y mwynhad o newyddbethau a brofwyd yn ystod y cyfnod cyntaf o ddysgu o bell wedi pylu yn ôl y profiad a gafodd Kolber sydd wedi'i grybwyll yn Owen et al. (t. 13). Mae'n ymddangos bod her yn codi wrth geisio parhau i ymgysylltu a dysgu mewn ffyrdd arloesol ar-lein. Mae'n bosibl bod y cyfnod hwn o ddysgu o bell wedi'i weld ar y dechrau'n un a oedd yn debygol o fod yn fyrhoedlog, ond pan gafwyd cyfnodau clo hirach yn Victoria, er enghraifft, roedd yn fwy anodd cynnal y mwynhad o ddysgu o bell. Er hynny, mae un adroddiad yn Parr et al. (2021) yn awgrymu'r canlynol: 'COVID highlighted not the prickliness of our teaching area but rather its capacity to be dynamic, adaptable, and, [...] to reach into new territories and ways of doing with confidence born from uncertainty' (t. 26). Roedd y farn hon yn croesawu'r cyfleoedd a gafwyd yn ystod y pandemig o ran addasu ac ymchwilio i ffyrdd newydd i addysgu llenyddiaeth. Mae'r ymagwedd gadarnhaol hon at yr ymdeimlad o wynebu'r

anhysbys yn un fuddiol wrth addysgu llenyddiaeth, oherwydd gellir darganfod ffyrdd newydd posibl i astudio, dehongli a thrafod testunau, ac mae hefyd yn cael ei galw'n fantais gynhenid mewn astudiaethau llenyddol.

Roedd yn ymddangos bod y defnydd o weithgareddau ysgrifennu creadigol yn cynnig profiad gwerthfawr i athrawon a myfyrwyr yn ystod y pandemig, gan fod ymarferiadau o'r fath yn datblygu sgiliau meddwl creadigol a sgiliau mynegiant a oedd yn galluogi myfyrwyr i fyfyr ar eu profiadau o'r pandemig. Er enghraifft, disgrifir profiadau cadarnhaol o waith dyfeisiol mewn dosbarthiadau drama i greu ffilmiau swrrealidd yn rhifyn 94 o *Drama & Theatre*. Mewn ymateb i gamau gan QCAA (Queensland Curriculum and Assessment Authority), yn Awstralia, i ddileu asesu creadigol yn eu cwricwlwm Saesneg Blwyddyn 12, penderfyniad a wnaed i helpu 'school teachers and students to manage learning and assessment during the evolving COVID-19 pandemic', mae un athrawes yn cofio'r ymgais gan ei hadran i leddfyr ymdeimlad cyffredin hwn o golli cyfleoedd dysgu:

'[w]e discovered an online environment provided a space where students could write free from judgement in private channels within the platform. Many teachers in my faculty described experiences where students who did not participate in class and felt self-conscious were more than willing to express their creativity in this environment. One particular Year 10 Learning Support student who had not completed one English assignment since enrolling in the school in Year 7 was able to produce a Gothic short story which met the Year 10 achievement standard' (Owen et al., 2021, t. 14).

Mae'r gallu wrth ddysgu ar-lein i greu gofod sy'n 'free from judgement' yn ganlyniad pwysig ac yn un sydd wedi'i ddisgrifio hefyd yn Edwards (2021). Yn ei herthygl, mae'n cofnodi myfyrdodau gan athrawon ar ffyrdd i helpu dysgwyr a all deimlo'n swil neu'n hunanymwybodol yn yr ystafell ddosbarth ffisegol ac yn ystyried a fydd modd cadw dulliau a ddefnyddiwyd wrth ddysgu o bell (fel ysgrifennu drwy gyfrwng y 'sianeli preifat' a grybwyllwyd uchod) pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol. Mae'r erthygl hon yn dangos sut mae ymarferiadau creadigol yn cynnig ffordd i gynnwys myfyrwyr mewn addysg. Cofnodir profiadau tebyg hefyd yn Gannon et al. (2021), sy'n cynnwys profiadau cadarnhaol o ymarferiadau ysgrifennu creadigol a ysbrydolwyd gan *Macbeth*, ac yn Evans et al. (2020), lle mae un athro yn cymeradwyo gwerth ysgrifennu creadigol fel ffordd i gymell myfyrwyr i ddeall a myfyr ar eu profiadau o'r pandemig (gweler hefyd Ahberg). Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth ac yn cael profiad therapiwtig os gallant fynegi eu teimladau a'u cysylltiadau â'r byd o'u hamgylch. Mae ymarferiadau o'r fath hefyd yn dangos y cyfleoedd sydd mewn llenyddiaeth a phynciau creadigol i fynd i'r afael â materion cyfoes. Mae Gannon et al. o gymorth i gyfleu pwysigrwydd creadigedd yn ystod y cyfnod clo ac mae'n disgrifio enghreifftiau o ddysgu creadigol ysbrydoledig o dan amodau o'r fath. Nid yn unig y mae creadigedd yn gallu sbarduno ffyrdd newydd o feddwl a meithrin hyder mewn dysgwyr, ond mae dulliau addysgegol creadigol hefyd yn gallu creu brwdfrydedd mewn myfyrwyr ac atal ymddieithrio, mater a oedd yn peri pryder neilltuol yn ystod y cyfnod dysgu o bell.

Mae rhai erthyglau ar addysgu llenyddiaeth yn ystod y pandemig yn ymwneud yn llai â dulliau addysgegol ac yn fwy ag egluro'r rhesymu gan athrawon wrth ddedol testunau yn ystod y cyfnod hwn, gan gadw naws anecdotaidd neu addysgiadol y sylwadau unwaith eto, er mwyn ysbrydoli a chyfleu gwybodaeth i gydweithwyr yn y sector. Er enghraifft, mae Frazier a Lewis (2021) yn disgrifio sut roedd eu hadran Saesneg yn Ohio wedi dewis *Station Eleven* (2014) gan Emily St. John Mandel, ac *A Midsummer Night's Dream* a *King Lear* gan Shakespeare ar gyfer ysgol haf ar-lein. Mae'r awdur yn honni bod y testunau hyn wedi caniatáu i fyfyrwyr feddwl am y lle sydd i gelfyddyd mewn cyfnod o argyfwng, am bwysigrwydd arweinyddiaeth a llywodraethu, ac am y berthynas rhwng y ddynol ryw a'r byd naturiol, pob un ohonynt yn berthnasol iawn yn ystod cyfnod y pandemig. Yn yr un modd, mae Sulzer (2021), sydd hefyd yn gweithio yn Ohio, yn disgrifio ffyrdd i ddehongli *Macbeth* Shakespeare o bersbectif yr

argyfwng hinsawdd a'r pandemig, gan gysylltu llenyddiaeth ganonaidd â digwyddiadau a materion cyfoes. Mewn modd tebyg, mae Wolfsdorf (2021), yn Efrog Newydd, yn egluro pam y dewisodd addysgu *Hamlet* yn ei ddsbarth blwyddyn olaf mewn ymateb i'r pandemig. Mae'n dadlau bod y ddrama hon yn adlewyrchu byd sy'n newid yn gyflym, gan gynnig myfyrdodau pwerus ar golled, profedigaeth a galar. Mae pob un o'r erthyglau hyn yn tynnu sylw at ffyrdd i addysgu llenyddiaeth mewn perthynas â materion byd-eang cyfoes fel y pandemig a newid hinsawdd. Maent yn taro'r un nodyn â *Teaching Literature in Times of Crisis* (2021) gan Sophia Ahlberg. Mewn perthynas â hyn, mae Ahlberg yn darparu adnoddau ymarferol i hyfforddi athrawon ynghylch sut i addysgu llenyddiaeth yn ystod cyfnod o argyfwng parhaus ac yn dadlau bod llenyddiaeth yn gallu grymuso dysgwyr i ddeall argyfyngau a'r byd o'u hamgylch. Yn yr un modd, penderfynodd Torres (2021) addysgu testunau newydd yn ystod y pandemig. Mae'n egluro sut roedd y newid i ddysgu o bell wedi rhoi cyfle iddi argymhell testun newydd i'w addysgu. Roedd yr erthygl hon yn dangos bod ffactorau eraill a sbardunodd newidiadau o ran testunau wedi cyd-ddigwydd â'r pandemig. Yn ogystal â hyn, mae erthygl Torres yn dangos sut roedd y pandemig, a'r rheidrwydd i droi oddi wrth addysgeg wyneb yn wyneb at ddysgu ar-lein, wedi cynnig cyfle i fyfyrion ar yr hyn a addysgwyd, ac i wneud newidiadau yn y maes llafur. Mae erthygl Torres yn cynnig naratif ysbrydoledig sy'n herio rhagdybiaethau rhwydd y byddai'r pandemig yn arwain at sefyllfa lle'r oedd addysgwyr yn addysgu topigau sefydledig a digon o adnoddau ar eu cyfer, a fyddai felly'n 'fwy diogel'; gan ddyheu am y cyfarwydd a'r dibynadwy, yn hytrach na newid y maes llafur. Mae'n awgrymu yn hytrach fod y dryswch a achoswyd gan y pandemig yn gyfle a oedd yn rhyddhau athrawon i arbrofi, a rhoi cynnig ar destunau a dulliau addysgegol newydd.

Roedd rhai addysgwyr wedi dangos dulliau arloesol o ddefnyddio gwahanol dechnolegau i addysgu llenyddiaeth, wrth ymateb i'r angen i addysgu ar-lein yn ystod cyfnodau clo, a'r rhain yn ymddangos yn fwy effeithiol nag addysgu yn yr ystafell ddsbarth, ac wedi'u cynnwys bellach wrth addysgu yn yr ystafell ddsbarth ffisegol. Mae eraill wedi disgrifio sut roeddent wedi cyflwyno dulliau newydd o addysgu llenyddiaeth ar-lein yn ystod y pandemig, a'r rhain wedi bod yn ddefnyddiol wedyn ar gyfer dosbarthiadau ar-lein a rhai wyneb yn wyneb. Mae'r rhain yn fanteision i'w cadw ar ôl COVID. Mae Murphy (2022) yn myfyrion ar lwyddiant llyfrau llafar wrth addysgu llenyddiaeth drwy ddulliau rhithwir yn ystod y cyfnod clo, a sut mae'r dewis hwn o addysgeg yn parhau i hyrwyddo dysgu ar ei ôl. Mae llyfrau llafar wedi dod yn fwy poblogaidd yn ystod y pandemig, fel y nodwyd yn *Annual Literacy Survey Report* (2020): '[a]udiobooks also appear to offer a way into literacy for boys, with 1 in 2 (51.1%) boys saying that listening to audiobooks has increased their interest in reading, and 2 in 5 (43.2%) saying that it has made them more interested in writing'. Mae'n ymddangos yn briodol, felly, fod addysgwyr mewn ysgolion yn manteisio ar y duedd gynyddol hon. Mae Murphy yn dweud mai'r rheswm dros y penderfyniad i ddefnyddio llyfrau llafar oedd yr awydd i ddarparu 'an element of "stretch and challenge": model addysgu sy'n ceisio sbarduno meddwl dyfnach a dysgu annibynnol ymysg y myfyrwyr (gweler Light, 2017). Mae llyfrau llafar yn cynnig ffordd i fyfyrwyr brofi llenyddiaeth sy'n cymell gwrandio gweithredol, sgil gwerthfawr i ddysgwyr sy'n cynyddu'r gallu i ganolbwyntio a chyfathrebu. Er bod llyfrau llafar wedi bod ar gael ers degawdau drwy dechnolegau hyn fel casetiau a CDs, roeddent yn cael eu cysylltu'n bennaf oll o'r blaen â phlant sydd heb ddysgu i ddarllen ac ysgrifennu eto neu bobl hyn a phobl â nam ar eu golwg. Mae'r ffaith bod rhai athrawon yn dechrau 'cyfrif' llyfrau llafar yn ddarllen yn arwain at oblygiadau ehangach ar gyfer darllen ymysg bechgyn, gan fod Sellers wedi canfod bod yr amcangyfrif o oriau darllen ymysg bechgyn yn rhy isel am nad oeddent yn rhoi gwybod i athrawon am fathau darllen llai traddodiadol (defnyddio llawlyfrau gemau, darllen storïau cartŵn, darllen llyfrau ffeithiol). Yn anffodus, roedd hyn wedi cryfhau ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd fod bechgyn yn 'gyndyn o ddarllen' ac wedi cymell bechgyn i uniaethu â'r disgrifiad hwnnw – gan deimlo bod darllen yn anffasiynol ac y byddai'n tynnu sylw atynt mewn ffordd negyddol (2019, t. 942). Un grŵp a nodwyd yn ymchwil Sellers oedd y 'darllenyddion difater': unigolion nad oeddent yn gwrthwynebu darllen ond a ddywedai nad oedd ganddynt ddigon o

amser i ddarllen a bod darllen yn ymddangos yn groes i ymgysylltu cymdeithasol. Cafodd Sellers fod canfyddiadau o'r fath ymysg myfyrwyr – bod darllen yn weithgarwch ynysig, anghymdeithasol – yn eu hatal mewn llawer achos rhag ymgymryd ag ef fel gweithgarwch y tu allan i oriau ysgol: os byddai llyfrau llafar a thestunau digidol eraill yn ei gwneud yn fwy posibl i nifer o ddarllenwyr fynd i'r afael â thestun ar adeg benodol, mewn cyd-destun cymdeithasol yn ystod oriau hamdden wrth 'hel at ei gilydd', gallai hynny chwalu rhai o'r rhwystrau rhag darllen llenyddiaeth er mwynhad. Fodd bynnag, byddai hyn yn galw am feddwl a buddsoddi o ddifrif gan ysgolion, llyfrgelloedd a chyllidwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghylch sut i gynnig mynediad teg at lyfrau llafar, gan fod y darparwyr mwyaf adnabyddus yn codi ffioedd tanysgrifio misol neu dâl am bob lawrlwythiad sydd fel arfer yn uwch o lawer nag am gopiâu printiedig o'r un testun (er enghraifft, Audible). Er bod yr adroddiadau gan Edwards a Murphy yn darparu manylion cryno am eu profiadau personol, mae angen rhagor o ymchwil er mwyn deall a yw'r enghreifftiau hyn yn gynrychiadol neu a ellid eu cymhwyso at addysgu llenyddiaethau mewn rhannau eraill o'r DU, yn enwedig Cymru. Mae hyn yn neilltuol o bwysig yn wyneb 'Saesnegeiddio' y rhyngwyd a thechnolegau cysylltiedig. Ystyr y term 'Saesnegeiddio' yw 'increasing dispersion of English as a means of communication in non-Anglophone contexts' ac fe'i defnyddir yn eang ym maes ieithyddiaeth ac astudiaethau ôl-drefedigaethol (Wilkinson a Gabriëls).

Mewn rhifyn arbennig o'r cylchgrawn traws-sectoraidd i addysgwyr *Teaching Shakespeare*, o'r enw *Teaching Shakespeare in Lockdown*, mae Edwards (2021) yn disgrifio'r profiad o addysgu gwaith Shakespeare ar-lein i grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 7 yn ei hysgol yn Llundain ac yn egluro sut roedd y grŵp wedi rhannu syniadau'n effeithiol drwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio ar Google Classroom. Mae Edwards yn pwysleisio'r ffordd y mae rhai agweddau ar addysgu ar-lein wedi peri i rai dulliau addysgegol ymddangos yn fwy effeithiol nag addysgu wyneb yn wyneb, gan fod canfyddiad bod y cyfleuster sgwrsio yn galluogi pawb i gyfrannu eu syniadau mewn ffordd deg a chyfartal, a bod yr athro wedyn yn gallu edrych ar bob cyfraniad ar ei hyd. Yn y dosbarth, ni fydd digon o amser fel arfer i drafod syniadau pawb, felly mantais y cyfleuster sgwrsio grŵp yw ei fod yn galluogi'r athro i gadw'r log sgwrsio fel y gall edrych ar y sgwrs ar ei hyd ar ôl y wers a rhannu'r adnodd hwn â'r myfyrwyr hefyd. Mae Edwards hefyd yn nodi bod myfyrwyr yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddarllen y testun yn uchel a chynnig cyngor i'w gilydd ar-lein nag y byddent os oeddent yn yr ystafell ddosbarth gyda'i gilydd. Mae hyn yn awgrymu bod yr ystafell ddosbarth rithwir yn ymddangos yn llai bygythiol i fyfyrwyr yn y grŵp hwn a bod pwysau gan gyfoedion, neu bryder ynghylch datgan eu barn, yn ffactor llai pwysig yn yr amgylchedd dysgu hwn. Mae hyn yn gyson â sylwebaeth gymdeithasol gyffredinol cyn y pandemig ynghylch y graddau y mae swildod yn lleihau pan fydd pobl yn rhyngweithio ar-lein, a hynny'n cwmpasu trafodaethau am drolio ar Twitter ac ymddygiadau rhywiol gorfodaethol ar-lein sy'n amhriodol o ran oedran. Mae'r profiad hwn yn gwrthgyferbynnu â'r adroddiadau yn Evans et al., (2020) lle'r oedd athrawon yn teimlo ei bod yn fwy anodd cynnwys myfyrwyr mewn trafodaeth ar-lein. Mae'n wir bod Edwards yn disgrifio barn yr athro am ryngweithio o fath penodol rhwng cyfoedion, tra bod Evans et al. yn edrych ar ryngweithio geiriol rhwng yr athro a'r dosbarth — felly mae'r disgrifiadau prin hyn yn rhoi cipolwg ar ffenomena sy'n weddol agos i'w gilydd. Mae'r adroddiadau amrywiol hyn yn dangos sut mae'r pandemig wedi effeithio ar ddulliau tebyg o addysgu llenyddiaeth mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r arddull a methodoleg addysgu, argaeledd technoleg a'r graddau y mae staff a myfyrwyr wedi arfer â defnyddio cyfarpar, a'r amgylchedd cymdeithasol, yn rhai o blith nifer o wahanol ffactorau sydd wedi cyfrannu at effeithiolrwydd dysgu ac addysgu yn y cyfnod hwn.

Mae'r enghraifft a gynigir gan Evans et al. yn ymwneud â'r broses o addasu addysgeg i addysgu llenyddiaethau a thrafod yr heriau cychwynnol o addysgu barddoniaeth ar-lein (2020). Mae Evans et al. yn nodi y byddai'r dosbarth, cyn y pandemig, yn anodi cerdd gyda'i gilydd. Roeddent yn wynebu'r dasg o drosglwyddo'r fethodoleg hon ar gyfer addysgu

lleyddiaeth i leoliad ar-lein addas. Mae Evans et al. yn sôn wedyn fod ei hadran wedi wynebu'r posibilrwydd ar y dechrau o fethu â chynnal trafodaethau a chael adborth mewn amser real, fel bod y sefyllfa'n un ymestynnol iawn. Crëwyd fideos gan aelodau staff lle'r oedd pob un ohonynt yn trafod un gerdd, ac roeddent yn cofio bod hon yn ffordd effeithiol i ddangos sut byddai athrawon yn mynd ati i ddadansoddi'r testun — ond bod hyn yn ymddangos yn dystiolaeth ychwanegol o'r pryder a fynegwyd gan Yandell fod lle canolog yn cael ei roi i lais awdurdodol, unochrog yr athro o ganlyniad i'r pandemig (er bod nifer o athrawon a cherddi dan sylw yn yr enghraifft hon). Mae Evans et al. hefyd yn nodi bod recordio sesiynau Zoom lle'r oedd athrawon yn rhannu deongliadau o gerddi â'i gilydd yn ddewis effeithiol o addysgeg, gan fod myfyrwyr yn gweld sut roedd gwahanol syniadau'n cael eu cyfleu a'u trafod mewn ffordd gynhyrchiol. Er y byddai'r dull olaf hwn yn gallu lleddfu rhywfaint ar bryder Yandell ynghylch llais monologaidd yr athro, yr hyn sydd ar goll yn yr ymarferiadau hyn yw lleisiau'r myfyrwyr eu hunain a'u mewnbwn a'u hebychiadau cymelledig neu ddigymell. Dim ond wedyn y gellir gofyn am y rhain, ar ôl i'r myfyrwyr weld sut mae'r athrawon yn dehongli cerddi mewn ffyrdd cyferbyniol. Er y gallai hyn ennyn hyder yn y dysgwyr i ddatblygu eu syniadau eu hunain, byddai gwyllo athrawon yn darparu eu deongliadau, fel awdurdodau ar y testun, yn gallu dylanwadu'n ormodol ar y myfyrwyr i ddilyn yr un syniadau. Mae'r erthyglau gan Edwards ac Evans et al. ill dwy'n ddefnyddiol gan eu bod yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r pandemig wedi effeithio ar addysgu lleyddiaeth ac yn disgrifio dulliau cyferbyniol o addasu addysgu i gefnogi dysgu. Mae'r ddwy erthygl yn cynnig enghreifftiau o ysgolion yn Llundain: Edwards gyda grŵp Blwyddyn 7 gallu cymysg; nid yw Evans et al. yn sôn am y dosbarth/lefel benodol yn yr enghraifft am farddoniaeth, ond gellir casglu ei fod yn ddosbarth TGAU/Safon Uwch oherwydd y flodeugerdd sydd wedi'i chrybwyll. Wrth gwrs, disgrifio profiadau athrawon penodol y mae'r erthyglau hyn, ac ni ellir dod i gasgliadau cyffredinol.

Er bod yr amgylchiadau'n ymddangos yn anaddawol, oherwydd yr heriau wrth ryngweithio a ddisgrifiwyd uchod, roedd enghreifftiau o'r gallu i ddod â drama yn fyw ar-lein. Mewn un adroddiad yn Parr et al. (2021) eglurir, '[t]able readings replaced blocked readings, Shakespearean shared lines could be shared across the digital divide and, with careful planning, the "conscience alley" drama strategy still worked albeit without the eponymous alley' (t. 26). Mae'r ymarferiad "conscience alley" yn helpu myfyrwyr i ystyried nifer o wahanol bersbectifau neu deimladau sydd gan gymeriad ar eiliad dyngedfennol yn ystod y ddrama (e.e., pan yw Macbeth yn penderfynu a fydd yn lladd y Brenin Duncan). Bydd y grŵp yn ffurfio dwy res, ac un person yn y canol yn cerdded rhwng y rhesi, ac wrth i'r person gerdded heibio i'r cyfranogwyr eraill bydd yn clywed gwahanol feddyliau mewn perthynas â'r dewis y mae'n rhaid i'r cymeriad ei wneud. Pan fydd y person yn y canol yn cyrraedd diwedd y rhes, rhaid iddo wneud penderfyniad wedyn ar sail y meddyliau cyferbyniol y mae wedi'u clywed gan y cyfranogwyr eraill (gweler Farmer, d.d.). Roedd yr athro yn erthygl Parr wedi canfod ffordd i addasu dulliau dysgu gweithredol a oedd eisoes ar gael a oedd hefyd yn effeithiol ar-lein (ar yr amod bod cysylltiad da â'r rhyngrwyd). Aeth yr athro ymlaen i egluro '[c]reativity remained central to the teaching and learning. It enlivened the virtual Zoom backgrounds we created as visual representations of Tomas Tranströmer's poem "Blue House"' (t. 26). Defnyddiwyd addysgeg greadigol i drawsnewid y gofod ar-lein hwn ar gyfer hyfforddi athrawon mewn ffordd effeithiol a thrwy ddefnyddio dulliau chwareus cafwyd ffyrdd newydd i ddehongli testunau, gan gynnig y posibilrwydd i'r athrawon dan hyfforddiant hyn o fabwysiadu'r dulliau hyn yn eu haddysgeg yn y dyfodol wrth weithio gyda'u myfyrwyr ysgol eu hunain.

Un ffactor pwysig y tarfwyd arno yn ystod y pandemig yng nghyswllt addysgu lleyddiaethau oedd amser. Roedd ysgolion yn gorfod newid eu dull o ddarparu addysg yn gyflym ac addasu drwy'r amser i'r amodau cyfnewidiol yn ystod y cyfnodau clo, o fis Mawrth

2020 ymlaen. Er bod nifer o effeithiau negyddol y pandemig mewn perthynas ag amser wedi cael eu trafod yn helaeth, mae dwy enghraifft yn yr ysgrifau myfyriol hyn sy'n egluro bod athrawon wedi canfod bod mwy o amser ganddynt ar gyfer cynllunio a datblygiad proffesiynol yn ystod y cyfnodau o ddysgu o bell (Evans et al., 2021). Er enghraifft, mae un athro Saesneg yn Owen et al. yn dweud '[t]here were aspects of a regular teacher workload which dropped away, such as writing reports. I had time to read and to prepare resources to be uploaded, to focus specifically on delivering content' (t. 12). Nid yw'n hollol glir pa 'adroddiadau' y mae'r athro'n cyfeirio atynt (er enghraifft, a oedd yr adroddiadau ysgol blynyddol a anfonir at rieni wedi cael eu canslo yn ystod y cyfnod clo, neu a oedd y gofyniad am adroddiadau atebolrwydd ar gyfer athrawon wedi'i ollwng), ond mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod rhywfaint o lacio ar rai dyletswyddau rheolaidd blaenorol a bod fformat newydd y dulliau dysgu o bell wedi rhyddhau amser i'w dreulio gan athrawon ar gynllunio gwersi ac ehangu eu gwybodaeth am wahanol destunau, neu hyd yn oed darllen er mwynhad. Mewn disgrifiad arall yn Parr et al. (2021), lle ceir myfyrdodau ar addysg athrawon yn ystod y pandemig, nodwyd bod y newidiadau yn yr amserlen yn golygu bod modd cynnig modiwl newydd yr oedd yr adran wedi bwriadu ei dreialu: modiwl ar addysgu ffuglen oedolion ifanc. Cafwyd bod y modiwl hwn yn ddewis poblogaidd a gwerthfawr i'r athrawon dan hyfforddiant a gofrestrwyd arno ac mae hyn yn enghraifft o'r ffordd yr oedd y pandemig wedi amharu ar ddarparu addysg athrawon ar y dechrau, ond wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol yn y pen draw.

Mater sy'n gysylltiedig â'r canfyddiad a gyflëwyd yn y llenyddiaeth bresennol fod problemau o ran amser wedi cael eu hachosi neu eu gwaethygu gan y pandemig yw'r ymdeimlad bod dysgu mewn gwersi seiliedig ar lenyddiaeth wedi arafu ar-lein. Mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn adroddiadau gan athrawon Saesneg yn Evans et al. (2020) ac Owen et al. (2021), lle dywedwyd am sgwrsio ar-lein un-i-un rhwng yr athro a myfyriwr Blwyddyn 12 ei fod 'like proper teaching' ond ei fod yn 'slow slow slow' (t. 10). Teimlai'r athrawon hyn fod llai o ddysgu wedi'i gyflawni ar-lein, o gymharu â dysgu wyneb yn wyneb. Er mai disgrifiadau gan ddau unigolyn yn unig yw'r rhain, a'r enghraifft yn Owen et al. yn disgrifio dim ond un diwrnod o addysgu, maent yn tynnu sylw at gwestiynau pwysicach ynghylch faint o ddysgu a gyflawnwyd ar-lein ac a oedd y cynnydd yn arafach, mewn perthynas â chanfyddiadau athrawon am addysgu llenyddiaethau – ac yn ehangach o bosibl. Fodd bynnag, mae un disgrifiad yn Owen et al. (2021) yn gorffen mewn ffordd sy'n ceisio lleddfu pryderon am y gallu i ddod i ben â'r gwaith ac yn dathlu 'Covid keeps': '[M]y practice upon returning to school has seen more authentic and live assessment, less busywork, more skills building and a dramatic increase in group and collaborative work'. Mae'r addysgwr hwn yn sôn am ddarganfod 'what my students needed was not content, but connection, collaboration, and most of all engagement' (t. 13). Yn ogystal â hyn, roedd cyfranogwyr y prosiect hwn wedi dangos ymwybyddiaeth bod sylw wedi'i roi i bryderon am gyflymder yr addysgu ar-lein: fel y mae'r prif ganfyddiadau'n dangos, roeddent yn ymwybodol o newidiadau mewn gofynion ynghylch nifer y testunau i'w haddysgu ar gyfer cymwysterau llenyddiaeth Saesneg penodol. Felly, roedd y canfyddiad o arafwch mewn gwersi ar-lein yn cael ei weld weithiau yn y llenyddiaeth bresennol yn rhywbeth y gellir ei liniaru gan athrawon drwy adolygu eu persbectifau eu hunain a gan gyrff dyfarnu drwy addasu gofynion o ran y deunydd i'w gynnwys.

Os ydym i grynhoi'r ffordd yr oedd athrawon yn y llenyddiaeth bresennol yn gweld bod y pandemig wedi effeithio ar addysgu llenyddiaethau (hyd yn hyn, y disgrifiadau a ysgrifennwyd yn Saesneg yn unig, a'r rheini sy'n addysgu Saesneg a Drama), roedd wedi cael effaith negyddol ar y rhyngweithio rhyngbersonol rhwng athrawon a myfyrwyr, ac ymysg y myfyrwyr; ar ymgyssylltu a chyfranogi gan fyfyrwyr, drwy wyro oddi wrth dulliau addysgegol cydweithredol presennol at rai hyn a oedd yn canolbwyntio ar yr athro; ac ar hyder myfyrwyr wrth gyfrannu. Roedd athrawon yn y llenyddiaeth bresennol, gan dderbyn

eu bod yn is-set fyfyrïol, dynamig a hunandetholiadol o'r proffesiwn, wedi arsylwi'r effeithiau negyddol hyn, wedi datblygu ffyrdd i'w lliniaru, ac wedi gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Mewn rhai achosion, maent wedi cadw mentrau a sbardunwyd gan y pandemig fel 'Covid keeps' ar ôl dychwelyd at y dulliau darparu arferol a'r cyfnod o ymadfer ar ôl y pandemig. Yn ogystal â hyn, dywedir bod y pandemig, neu ddigwyddiadau cydredol fel gwrthdystiadau gwrth-hiliol a gwrth-rywiaethol yn America a'r DU, wedi cael effaith gadarnhaol ar weithgareddau ysgrifennu creadigol, ar amrywiaeth y testunau a addysgir, ar yr ystod o dechnolegau a ddefnyddir, er gwaethaf pwysau amser ac ymdeimlad cyffredinol, ar y dechrau o leiaf, fod y cynnwys yn cael ei drafod yn arafach. Nodwyd yn y llenyddiaeth bresennol fod athrawon a wnaeth ddarganfyddiadau cadarnhaol — o ran testunau, dulliau addysgegol ac adnoddau — yn bwriadu eu hymgorffori yn eu hymarfer ôl-bandemig, neu eu bod wedi gwneud hynny eisoes.

3.2 Pa wersi y gellir eu dysgu o'r ymchwil bresennol?

Er eu bod yn darparu disgrifiadau uniongyrchol o brofiadau athrawon llenyddiaeth yn ystod y pandemig, mae cyfyngiadau amlwg yn nifer o'r erthyglau gan athrawon sydd wedi'u crybwyll uchod. Mae'n bosibl y bydd enghreifftiau penodol a roddwyd gan athrawon sy'n ymarfer yn gallu bod yn fodolau i addysgwyr eraill e.e., o'r ffordd yr addaswyd dull o addysgu barddoniaeth ar gyfer dysgu ar-lein (Evans et al). Ar y cyfan, maent yn adrodd ar benderfyniadau a wnaed a dulliau addysgegol ac adnoddau a ddefnyddiwyd wrth addasu addysgu i amgylchiadau'r pandemig heb eu trafod yn feirniadol fanwl nac ar sail ddamcaniaethol neu ar sail ymchwil addysgol. Mae rhai o'r disgrifiadau yn neilltuol o fyr, heb fanylion hanfodol, e.e., demograffeg/cyd-destun yr ysgol lle maent yn addysgu, y testunau a addysgwyd, y dosbarthiadau y maent yn eu haddysgu, ac ym mha ffyrdd penodol y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysgeg. Maent hefyd wedi'u hysgrifennu gan grŵp dethol o athrawon: athrawon a deimlodd effaith y pandemig ac a wnaeth newidiadau mewn perthynas ag ef y teimlant eu bod yn werth eu rhannu fel enghreifftiau o arfer da. Roedd cyfyngiadau'r llenyddiaeth sydd ar gael yn amlygu'r angen am gynnal ymchwil gynradd ar y pwnc hwn.

Un neges glir i'w chymryd o'r llenyddiaeth bresennol yw bod y galwadau a gafwyd gan ymgyrchwyr a myfyrwyr ac addysgwyr mewn sectorau eraill, fel addysg uwch ar lefel ryngwladol (wedi'u harwain mewn cyd-destunau Saesneg o leiaf gan gyn-drefedigaethau Prydeinig), am amrywiaethu'r cwricwlwm a defnyddio strategaethau gwrth-hiliol a ffeministaidd croestoriadol wrth addysgu llenyddiaeth, wedi bod yn fwy o hwb i wneud newidiadau wrth addysgu llenyddiaeth yn y blynyddoedd diwethaf nag yr oedd y pandemig ei hun, er bod canfyddiad yn aml fod y rhain wedi cyd-ddigwydd (yn bennaf oherwydd pwysigrwydd y gwrthdystiadau Mae Bywydau Du o Bwys a gafwyd mewn llawer man yn haf 2020 wrth hybu ymwybyddiaeth o hiliaeth systemig mewn nifer o gymdeithasau Eingl-ddiwylliannol ac Ewropeaidd). Mae'r adroddiad *Lit in Colour* gan Elliott et al. a gyhoeddwyd yn 2021 yn cynnig rhesymau hanfodol dros yr angen am newid. Mae'n cyflwyno ystadegau am y llenyddiaeth a addysgir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Lloegr. Er enghraifft, roedd llai nag 1% o'r ymgeiswyr am TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn 2019 wedi ateb cwestiwn am nofel gan awdur o liw (t. 6). Mae'n dadlau bod angen rhoi sylw ar fyrder i'r mater hwn, gan ei bod yn hollbwysig bod yr ystod ehangaf posibl o fyfyrwyr yn gweld eu bod wedi'u portreadu yn y llenyddiaeth a addysgir. Mae'r diffyg cynrychiolaeth presennol yn awgrymu mai dim ond persbectifau gwyn, gwrywaidd, dosbarth canol sy'n werth darllen amdanynt a'u hastudio. Nid dysgwyr o gymunedau a ymyleiddiwyd yn hanesyddol yw'r unig rai sy'n cael eu niweidio gan ddiffyg cynrychiolaeth. Mae hefyd yn amddifadu myfyrwyr o'r cyfle i ddysgu am bersbectifau, diwylliannau, crefyddau a chefnidiroedd ethnig eraill. Gall llenyddiaeth gynnig gwersi hollbwysig o ran cyfiawnder hiliol a rhyweddol a bod yn gyfrwng i fyfyrwyr drafod gormes, felly mae'n bwysig bod ystafelloedd dosbarth yn cynnwys

portreadau a phrofiadau amrywiol yn y testunau llenyddol a gynigir i fyfyrwyr. Y tu allan i gyd-destun yr ystafell ddosbarth, os bydd llenyddiaethau yn cael eu haddysgu mewn ffordd sy'n cynnig bydolwg cyfyngedig, bydd hynny'n amharu ar apêl y pwnc a nifer y myfyrwyr a fydd yn astudio Llenyddiaeth Saesneg wedyn. Mae *Lit in Colour* yn dadlau bod y pandemig wedi ymyrryd â newidiadau yn y cwricwlwm neu wedi'i ddefnyddio'n rheswm gan arweinwyr i gyfiawnhau peidio â gwneud newidiadau (Elliot et al., t. 50). Mae'n ddiddorol nodi bod hyn yn anghyson â'n canfyddiadau ni sy'n awgrymu, er bod rhai llunwyr polisi wedi oedi o bosibl, fod aelodau'r proffesiwn addysgu wedi cyflymu newidiadau mewn perthynas ag amrywiaeth, lle maent yn rhydd i wneud hynny. Tra bod Elliott et al. yn canolbwyntio ar Lloegr, mae ein harolwg ni yn canolbwyntio ar Gymru lle y dylai athrawon gael mwy o ymreolaeth drwy'r cyfleoedd a geir yn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r adroddiad *Lit in Colour* yn gyson â llenyddiaeth bresennol arall sy'n dangos mai gweithiau gan ddynion gwyn, dosbarth canol yw'r testunau a addysgir yn bennaf mewn ysgolion. Mae'r llenyddiaeth hon yn cynnwys llyfr Elliot *Knowledge in English* (2021, t.67), sy'n ymwneud â Lloegr gyfan, ac adroddiad ymchwil gan Kneen et al. (2019-2020), am Gymru a de-orllewin Lloegr. Ar gyfer yr adroddiad olaf, holwyd athrawon Saesneg i ddarganfod pa destunau llenyddol a oedd yn cael eu haddysgu ar lefel CA3 (blynyddoedd 7-9). Mae eu hadroddiad yn tynnu sylw mewn modd tebyg at brinder yr awduron a'r cymeriadau o liw mewn testunau a addysgir ar y lefel hon: Malorie Blackman oedd yr unig awdur o liw yn y rhestr rhyddiaith; John Agard a Maya Angelou oedd yr unig feirdd o liw; nid oedd dramâu gan awduron o liw; ac roedd prinder o ran awduron a phrif gymeriadau benywaidd (Kneen et al., 2019-2020). Mae'r ffigurau hyn wedi'u hategu gan astudiaethau pwysig eraill. Roedd yr ymgyrch End Sexism in Schools wedi cynnal arolwg ledled Lloegr o destunau llenyddol a astudir ar lefel CA3 a chanfod bod 65% o ysgolion nad ydynt yn addysgu testunau gan awduron benywaidd yn ystod y tair blynedd sy'n rhan o CA3 (Fenn, 2022b). Nid oedd y gynulleidfa ar gyfer yr ymgyrch hon wedi'i henwi'n benodol, ond ar sail yr argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad gellir cymryd bod yr ymchwil wedi'i hanelu at y rheini sy'n gwneud neu'n dylanwadu ar benderfyniadau am gynnwys a chyllid y cwricwlwm addysg uwchradd Saesneg: Ofsted, byrddau arholi, staff ysgolion ac awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU, a darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (Fenn, 2022a). Mae Fenn yn disgrifio archwiliad a gynhaliodd pan oedd yn Bennaeth Adran a oedd yn gofyn i'w chydweithwyr nodi pam yr oedd testunau llenyddol yn cael eu haddysgu, a pha negeseuon (ymhlyg/echblyg) yr oedd y testunau hyn yn eu cyfleu am rywedd. Yn ei herthygl, mae Fenn yn argymhell amrywiaethu'r cwricwlwm gan wneud hynny, y mae'n awgrymu, drwy newid graddol fel na fydd athrawon ac ysgolion yn cael eu llethu gan waith gan sicrhau 'that patriarchal values aren't continuing to shape pupils' thinking' (Fenn, 2022b). Mae'r cyhoeddiadau hyn yn berthnasol i addysgu Llenyddiaeth Saesneg yng Nghymru gan fod testunau tebyg yn boblogaidd mewn ysgolion yng Nghymru e.e. *Of Mice and Men, A Christmas Carol* (Kneen et al., 2019-20).

Mae'r llenyddiaeth bresennol yn dangos bod llyfrau llafar yn cael eu gweld yn adnodd effeithiol yn ystod y pandemig. Er hynny, mae'r llenyddiaeth bresennol yn dangos bod y penderfyniad i gyflwyno llyfrau llafar wedi'i ysgogi gan ddymuniad athrawon, fel Murphy, i gynnig 'a more diverse and inclusive curriculum' (Murphy, 2022). Roedd Murphy yn addysgu *Ugly Dogs Don't Cry* (2020). Mae'r gwaith hwn yn fersiwn newydd o stori John Steinbeck yn *Of Mice and Men* (1937) wedi'i lleoli yng ngorllewin Llundain ac wedi'i hysgrifennu gan DD Armstrong, awdur Prydeinig du, ifanc. Nid yw'n glir a oedd y pandemig yn gymhelliad uniongyrchol i benderfyniad Murphy i ddechrau amrywiaethu'r cwricwlwm drwy gyfrwng llyfrau llafar, neu a fyddai hyn wedi digwydd beth bynnag. Wedi'r cyfan, mae argaeledd a phoblogrwydd llyfrau llafar digidol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf ac roedd galwadau am ddad-drefedigaethu ac amrywiaethu cwricwla wedi codi cyn y pandemig. Yn hytrach, mae erthygl Murphy yn tynnu sylw at arf effeithiol a

ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig a allai fod o gymorth wrth adfer gwersi llenyddiaeth mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru. Nid yw'r erthygl yn dweud bod digwyddiad penodol wedi sbarduno'r penderfyniad i addysgu testunau newydd yn ystod y cyfnod hwn nac yn awgrymu bod y tarfu a achoswyd gan y pandemig wedi gosod rhwystrau penodol i addysgu testunau a addysgwyd o'r blaen. Yn hytrach, roedd y newidiadau a orfodwyd ganddo – fel y newid i addysgu ar-lein – wedi bod yn hwb i ad-drefnu mwy helaeth gan athrawon llenyddiaeth. Roedd hyn yn cwmpasu'r ffordd i addysgu llenyddiaethau, drwy ddefnyddio gofodau newydd a rhithwir, yn ogystal â beth oedd i'w addysgu. Mewn geiriau eraill, roeddem wedi canfod bod dryswch y pandemig wedi rhoi hwb weithiau i weithredu ar agendâu hŷn ar gyfer amrywiaethu'r dewis o destunau gan athrawon. Roedd rhai athrawon wedi gweld y gallai fod yn effeithiol gwneud newidiadau a orfodwyd gan y pandemig, a'r newidiadau a ddymunwyd am resymau eraill, yr un pryd.

Yn yr un modd, mae Torres (2021) yn dangos sut roedd y pandemig wedi cynnig cyfle i ddiwygio'r dewis o destunau llenyddol. A hithau'n athrawes Saesneg yr wythfed radd (yn cyfateb i Flwyddyn 9 yng Nghymru a Lloegr) yn Hawai'i, mae'n egluro sut y gofynnwyd i'w hadran gadarnhau pa destunau a fyddai'n cael eu haddysgu er mwyn galluogi staff i gydgyllunio, ac archebu deunyddiau a'u dosbarthu er mwyn sicrhau eu bod ar gael i'r holl fyfyrwyr. Roedd hyn wedi rhoi cyfle i Torres argymhell cynnwys *Enrique's Journey (The Young Adult Adaptation): The True Story of a Boy Determined to Reunite with His Mother* (2014) gan Sonia Nazario yn y maes llafur. Hefyd, gyda'r testun yr oedd yn parhau i'w addysgu (*To Kill a Mockingbird*, 1960 gan Harper Lee), roedd wedi dechrau cymhwyso 'critical literacy lens' at y testun yn ôl yr argymhelliad yn #DisruptTexts (gweler #DisruptTexts, d.d.), fel y byddai myfyrwyr yn gallu cwestiynu trosiadau'r Gwardwr Gwyn a 'what it means for a Whitewoman author's book about racism to be so commonly taught' mewn ystafelloedd dosbarth (Torres, 2021). Mae'r erthygl yn cyfeirio at newidiadau ehangach — yn nhermau mabwysiadu strategaethau gwrth-hiliol ac amrywiaethu testunau yn y cwricwlwm — a ddigwyddodd cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig, ond a oedd wedi'u cyflymu ganddo yn ôl athrawon mewn rhai erthyglau yn y llenyddiaeth bresennol.

Mae'n ddealladwy bod y pandemig wedi cymell athrawon i fyfyrrio ar eu hymarfer, heblaw dewis ac amrywiaethu testunau llenyddol. Er enghraifft, yn yr adroddiad gan un athro yn Owen et al. (2021) gofynnir beth a oedd yn bwysig yn ei ymarfer addysgu ei hun: '[i]s it being able to mark essays on time, or having happy learners in my classroom?' (t. 12, gweler hefyd Gannon et al. t. 40). Mae'n bosibl bod cynnig mwy o gefnogaeth lles a thasgau llai ymestynnol i fyfyrwyr yn fwy llesol i fyfyrwyr ac athrawon yn ystod y cyfnod dysgu o bell, yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i farcio. Mae adroddiad arall yn Owen et al. yn ategu'r syniad hwn, gan fod un athro yn cydnabod mai, '[w]ellbeing and students' positive mental health was my primary concern rather than delivery of an overstuffed curriculum' (t. 13). Mae'r datganiad hwn yn awgrymu mai barn bersonol yr athro yw nad yw gorbwyslais ar gynnwys y cwricwlwm yn arbennig o iach a llesol i fyfyrwyr, ac mae'r ansoddair 'overstuffed' yn awgrymu llwyth gwaith gormodol, straen, a llai o effeithiolrwydd, a hefyd ymddieithrio ymysg myfyrwyr.

Yn olaf, mae'n ymddangos mai neges arall yn y llenyddiaeth bresennol yw bod angen mwy o ystyriaeth yn nhermau gofod ffisegol yn yr ysgol, a sut mae gofod yr ysgol yn hwyluso neu'n rhwystro profiadau addysgol. Mae Gannon et al. (2021) yn nodi am y cyfnod yn ystod y pandemig, 'digital lives and online worlds offered potential spaces for cultivating wellbeing and creativity' a '[c]reativity was evident in many online spaces during the initial COVID-19 lockdown' (t. 40, gweler hefyd Jacobs, Finneran a D'Acosta 2020 cit. Gannon t. 40). Gellid sefydlu ac amlhau gofodau ar-lein yn gyflym ac yn weddol rad – o gymharu â chodi campfa neu theatr newydd, er enghraifft: rhywbeth a brofwyd gan nifer y sioeau ar-lein a grëwyd gan fyfyrwyr (Waseda Institute Players, Japan) a gan berfformwyr

proffesiynol (The Show Must Go Online, Creation). Nid yw hyn yn golygu na ellir cael gofodau creadigol mewn ysgolion, ond mae'r darganfyddiad hwn yn werth ei nodi, efallai am y byddai rhai wedi credu y byddai addysgu ac addysgeg creadigol wedi bod yn fwy anodd eu cynhyrchu ar-lein. Mae Gannon et al. yn dweud wedyn: '[t]he COVID-19 lockdown provided spaces to relearn, rediscover and reinvigorate. While the potential for demotivation was high among some students and teachers, there also opened a new space for ideation among students and teachers, which is a key factor in creativity' (t. 40). Mae'n bosibl bod newydd-deb y sefyllfa newydd hon ar gyfer dysgu wedi arwain at bosibiliadau newydd, neu o leiaf wedi cyflymu'r broses o'u derbyn. Ni fyddai hyn wedi digwydd o bosibl pe byddai addysg wedi parhau mewn ysgolion heb y pandemig. Mae'n ddiddorol ystyried wedyn sut mae gofod ffisegol yr ystafell ddosbarth yn dylanwadu, yn ysbrydoli neu'n cyfyngu creadigedd. Liam Semler a fathodd y syniad o 'ArdenSpace': gofod sy'n bodoli y tu allan i systemau dysgu ffurfiol, math o ddihangdod bron, lle mae dysgu dwfn yn gallu digwydd, a fydd wedyn yn dylanwadu ar y dysgu gan fyfyrwyr pan fyddant yn dychwelyd i leoliad arferol yr ystafell ddosbarth (Semler, 2014, tt. 51-53). Mae angen nid yn unig am werthusiad ffisegol o'r ystafell ddosbarth (e.e. edrych ar gynefineg y gofod, addurniadau'r ystafell etc.) ond hefyd am werthusiad cysyniadol, er mwyn i athrawon edrych yn bellach nag anhyblygrwydd yr ystafell ddosbarth neu feysydd llafur yr arholiadau a threfnu profiadau dysgu a fydd yn cymell myfyrwyr i feddwl yn ddyfnach. Bydd hyn yn gallu cwrdd â'r pryderon a drafodwyd yn gynharach a godwyd gan academwyr fel Yandell (2020), a'r pryder bod ymarfer arholi yn cyfyngu ar ddatblygiad ffyrdd beirniadol a chreadigol o feddwl a dehongli mewn pynciau seiliedig ar lenyddiaeth fel Cymraeg a Saesneg.

Er mwyn crynhoi, yr awgrym yn yr adran hon yw nad yw'r pandemig yn llwyr gyfrifol, neu hyd yn oed yn bennaf cyfrifol, am y newidiadau a welwyd o ran addysgu llenyddiaethau yn y DU ac ar lefel ryngwladol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf – er y gallai fod wedi rhoi hwb i newid yn gyflymach. Yn ogystal â hynny, nid yw athrawon yn y llenyddiaeth bresennol yn credu bod effeithiau'r pandemig yn rhai negyddol yn bennaf. Ar ben yr agweddau cadarnhaol a nodwyd yn 3.1, mae athrawon sydd wedi'u cynnwys yn y llenyddiaeth bresennol yn galw am ailystyried y defnydd o ofod yn eu gwahanol gwricwla a'r defnydd o ofod ffisegol mewn ysgolion ar ôl y pandemig, er mwyn hyrwyddo addysgu llenyddiaethau.

3.3 Crynodeb o'r ymchwil bresennol

Nid oedd hyd yn oed yn bosibl cael cipolwg ar y ffordd roedd y pandemig wedi effeithio ar addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru, am fod cyn lleied o ymchwil gyhoeddus ar gael am y ffenomen hon. Fodd bynnag, er bod y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru yn wahanol ac unigryw, gellir cymryd yn rhesymol y bydd rhai o nodweddion y sefyllfa yn debyg i'r rheini mewn gwledydd fel Lloegr, Awstralia ac America sydd wedi'u trafod yn yr ymchwil bresennol. Roedd yr ymchwil honno'n dangos bod effeithiau'r pandemig o ran pa destunau a addysgir, pa ddulliau addysgegol a pha adnoddau technolegol a ddefnyddir yn rhai a oedd yn digwydd ar lefel yr unigolyn yn bennaf. Yr hyn a drafodir yn bennaf yn y llenyddiaeth bresennol yw enghreifftiau o ymarfer yn Awstralia, Lloegr a Gogledd America, yng nghyd-destun addysgu Saesneg fel pwnc ym mron pob achos. Mae ein harolwg yn dangos natur y profiad a gafodd athrawon llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach na'r rhan fwyaf o'r erthyglau a drafodwyd. Credwn mai'r sylw unigryw y mae'n ei roi i addysgu llenyddiaethau yng Nghymru, mewn gwahanol bynciau (nid y pynciau Saesneg a Drama yn unig fel yn y rhan fwyaf o'r erthyglau uchod) mewn Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, yw ei gyfraniad pwysicaf at ledaenu gwybodaeth.

Mae ein hadolygiad o'r ymchwil bresennol wedi amlygu bylchau eraill mewn gwybodaeth a oedd yn arwain at yr angen i ni ymchwilio i ganfyddiadau'r athrawon hyn o'r effeithiau a gafodd y pandemig a ffactorau cyd-destunol eraill ar eu haddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg ymchwil i bersbectifau athrawon ar y modd y mae ffactorau croestoriadol yn dylanwadu ar addysgu llenyddiaethau – fel newid mewn polisi, newid hinsawdd, ymgyrchu gwrth-hiliol a ffeministaidd i ddad-drefedigaethu ac amrywiaethu'r cwricwlwm h.y., y Cwricwlwm i Gymru newydd, streiciau hinsawdd, End Sexism in Schools, Mae Bywydau Du o Bwys. Drwy wneud iawn am y diffygion hyn, credwn fod ein hadroddiad yn gwneud cyfraniad buddiol at y llenyddiaeth hyfforddiadol a'r myfyrdodau gan unigolion a drafodwyd uchod.

4. Canlyniadau a thrafodaeth

Drwy gydol yr adroddiad, rydym yn cofnodi canlyniadau Cymraeg o'r arolwg yn gyntaf ac wedyn y rhai Saesneg cyfatebol. Wrth drafod y canlyniadau hyn yn Saesneg, cyfieithwyd dyfyniadau uniongyrchol sydd yn yr adran hon i'r Saesneg gan Mary Davies, Swyddog Ymchwil dwyieithog y prosiect. Wrth gyfieithu, rhoddwyd pwys ar nodweddion y testun gwreiddiol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn parchu ystyr gwreiddiol pob un o'r ymatebion ond, os oedd angen, newidiwyd y gystrawen ac ychwanegwyd geiriau er mwyn helpu i wneud rhai o'r ymatebion yn fwy eglur a hawdd eu darllen. Darparwyd cymorth ychwanegol gan Gwawr Maelor Williams mewn perthynas â'r cyfieithu. Ar gyfer pob un o brif agweddau'r canfyddiadau, rydym wedyn yn dod â'r ddwy set ddata Cymraeg a Saesneg ynghyd, yn edrych ar nodweddion tebyg a gwahanol ac wedyn yn eu cysylltu â'r canfyddiadau yn yr ymchwil bresennol a drafodwyd ym Mhennod 3, gan nodi pwyntiau cyson ac anghyson.

4.1 Demograffeg cyfranogwyr ac ysgolion

Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion o dde Cymru: rhai o'r rhanbarthau sydd wedi'u tangynrychioli yw gogledd-ddwyrain, canolbarth a gorllewin Cymru. Mewn astudiaethau blaenorol, roedd y sector ysgolion annibynnol wedi'i gorgynrychioli yn y sampl gyfleus/pelen eira (Elliott ac Olive): nid felly yma. Mae'r canlyniadau'n dangos profiadau athrawon mewn ysgolion cyfun gwladol, a chafwyd un ymateb gan ysgol gyfun mewn ardallle mae system addysg ddetholus. Yn aml, roedd dau neu ragor o athrawon o'r un ysgol yn cymryd rhan, felly mae rhywfaint o glystyru. Fodd bynnag, mae'n debygol bod yr athrawon hyn yn cynrychioli pynciau gwahanol mewn llenyddiaethau, ieithoedd a drama. Mae'r ddemograffeg hon yn adlewyrchu dosbarthiad y gwahoddiadau i gymryd rhan h.y. nid oedd ysgolion annibynnol na cholegau chweched dosbarth wedi'u cynnwys. Yn nhermau maint yr ysgolion, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn gweithio yn yr ysgolion mwyaf poblog, ac ychydig iawn a oedd mewn ysgolion bach neu ganolig eu maint. Roedd 19 yn gweithio mewn ysgolion lle'r oedd 1,101 neu ragor o ddisgyblion; 24 mewn ysgolion lle'r oedd 601-1,100 o ddisgyblion; 3 mewn ysgolion lle'r oedd 600 neu lai o ddisgyblion; 1 mewn ysgol lle'r oedd 101-300 o ddisgyblion. Nid oedd yr un yn gweithio mewn ysgol lle'r oedd 301-600 o ddisgyblion neu un lle'r oedd 100 neu lai o ddisgyblion. Felly, nid yw'r gynrychiolaeth i ysgolion llai yn y canlyniadau yn gystal â honno ar gyfer yr ysgolion mwy.

O ran categorïau iaith yr ysgolion lle mae cyfranogwyr yn gweithio, roedd 18 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, 14 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, 7 mewn ysgolion dwyieithog math B, 6 mewn ysgolion dwyieithog math A, a 2 mewn ysgolion Dwy Ffrwd. Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr wedi dweud ei fod yn gweithio mewn ysgol ddwyieithog math C, Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, neu ysgolion trosiannol. Rydym yn ymwybodol, fel ymchwilwyr, fod y categorïau wedi newid. Fodd bynnag, roedd hwn yn gwestiwn aml-ddewis a ddefnyddir yn fynych i gasglu data demograffig ysgolion ac fe'i dewiswyd am fod athrawon yn gyfarwydd â'r set hon o gategorïau, ar adeg casglu'r data. Roedd nifer y rheini a ymatebodd yn Gymraeg (n.24) a'r rheini a ymatebodd yn Saesneg (n.23) yn gyfartal bron, a hynny'n dangos bod y canlyniadau hyn o'r arolwg hefyd yn cynnig cydbwysedd rhwng y rheini sy'n addysgu Cymraeg yn bennaf a'r rheini sy'n addysgu Saesneg yn bennaf, a hefyd rhwng y rheini sy'n addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rheini sy'n addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (a niferoedd llai yn gweithio mewn ysgolion sydd mewn categorïau iaith eraill, fel y gwelir isod). Cymraeg oedd y pwnc a addysgwyd amlaf gan gyfranogwyr Cymraeg, a Drama yn yr ail le, a Sbaeneg a Ffrangeg ychydig ar ei hôl. Saesneg oedd y pwnc a addysgwyd amlaf gan gyfranogwyr Saesneg, a Chymraeg a Drama yn gydradd ail a thrydydd gan mwyaf, a Ffrangeg ychydig ar eu hôl.

Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi pa rai o'r pynciau canlynol roeddent yn eu haddysgu ym mlwyddyn 7 hyd at flwyddyn 13: Cymraeg, Saesneg, Drama, Ffrangeg, Sbaeneg, Arall/Eraill. Pynciau 'Arall/Eraill' y dywedodd cyfranogwyr eu bod yn eu haddysgu yw: Bagloriaeth Cymru (3 chyfranogwr); Dyniaethau (1 cyfranogwr); Sgiliau Byd Gwaith; Busnes; Gwasanaethau Cyhoeddus (1 cyfranogwr yr un); Astudiaethau Ffilm (1 cyfranogwr); Astudiaethau Cyfryngau (1 cyfranogwr); pynciau galwedigaethol (1 cyfranogwr); Iechyd (1 cyfranogwr); 'THS Uwch' (1 cyfranogwr, Astudiaethau Iechyd o bosibl – y gair 'uwch' yn awgrymu ei fod yn addysgu ar gyfer cymhwyster mewn pwnc ar lefel uwch). Roedd dau gyfranogwr wedi rhoi 'Cymraeg Ail Iaith' yn bwnc 'Arall/Eraill', a hynny'n codi'r cwestiwn a oedd cyfranogwyr yn rhagdybio mai Cymraeg Iaith Gyntaf yn unig a oedd dan sylw wrth holi am 'Cymraeg', neu a oedd cyfranogwyr eraill wedi cynnwys addysgu iaith gyntaf ac addysgu ail iaith yn eu prif ateb. Roeddem hefyd wedi holi am Almaeneg, ond nid oedd yr un cyfranogwr yn ei haddysgu ar unrhyw lefel. (Roedd athrawon ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg wedi dechrau ymateb i newidiadau gan CBAC a oedd yn gofyn am gynnwys llenyddiaeth yn y pynciau hyn ond, hyd yn hyn, ni chafwyd ond ychydig o dystiolaeth yn ymwneud ag addysgu llenyddiaethau yn y pynciau hyn, ar gyfer Ffrangeg a Sbaeneg yn unig.)

Tabl 1: pynciau a addysgir yn ôl grŵp blwyddyn

Blwyddyn	Cymraeg	Saesneg	Drama	Ffrangeg	Sbaeneg	Arall
Blwyddyn 7	18	10	7	4	3	2
Blwyddyn 8	18	10	6	3	2	2
Blwyddyn 9	18	9	7	4	2	3
Blwyddyn 10	19	12	6	3	2	7
Blwyddyn 11	18	13	6	3	2	6
Blwyddyn 12	10	7	3	2	1	6
Blwyddyn 13	10	7	3	1	1	4

Penaethiaid Adran oedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd ond maent yn cynrychioli athrawon sydd wedi gwasanaethu am wahanol gyfnodau (er bod llai o ymatebion gan y rheini ar ddechrau un eu gyrfa a gan y rheini sydd wedi gwasanaethu am fwy na phedwar degawd: am resymau ymarferol, yn cynnwys diffyg hynafedd a phrinder y rheini sydd wedi cyflawni hyn, yn y drefn honno). Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn Benaethiaid Adran (n.26), wedyn y rheini a oedd yn gyfrifol am bwnc o dan lefel Pennaeth Adran (n.13), athrawon ystafell ddisbarth ôl-ANG (n.7) ac 1 ANG. Nid oedd unrhyw gyfranogwr yn derbyn hyfforddiant i athrawon ar y pryd. Mae Penaethiaid Adran wedi'u gorgynrychioli i ryw raddau yma: gall hyn fod yn arwydd o faint yr adrannau ar gyfer y pynciau hyn a/neu ymdeimlad o gyfrifoldeb i ymateb i ymholiadau allanol (fel ceisiadau i gymryd rhan mewn ymchwil) yn ogystal ag ymdeimlad bod penderfynwyr yn y pynciau perthnasol mewn gwell lle i ymateb i'r arolwg.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'am faint o flynyddoedd y buoch yn addysgu', yr ateb gan y cyfranogwr hiraf ei wasanaeth oedd 33 blynedd. Y cyfnod addysgu byrraf oedd 1 flwyddyn, ateb a roddwyd gan 1 cyfranogwr. Roedd gweddill yr ymatebwyr rhwng y ddau begwn hyn, yn amrywio o newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn i athrawon hir eu gwasanaeth. Yn gyffredinol, roedd 3 chyfranogwr wedi addysgu am fwy na 30 blynedd; 11 cyfranogwr wedi addysgu am 21-30 mlynedd; 19 cyfranogwr wedi addysgu am 11-20 mlynedd; 14 cyfranogwr wedi addysgu am lai na 10 mlynedd. Mae'r cyfranogwyr yn cynrychioli amrediad gweddol dda o'r cyfnodau gwasanaethu posibl yn y proffesiwn addysgu, a dim ond y rheini sydd wedi dechrau'n ddiweddar iawn sydd wedi'u tangynrychioli i ryw raddau.

Gofynnwyd dau gwestiwn yn yr arolwg i gael gwell dealltwriaeth o ddatblygiad parhaus y cyfranogwyr o ran eu harbenigedd pwnc a'u harbenigedd proffesiynol. Gyda golwg ar aelodaeth o sefydliadau proffesiynol, roedd ychydig llai nag un rhan o bump o gyfranogwyr wedi enwi sefydliadau y maent yn aelodau ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys un neu ddau o athrawon, ar y mwyaf, a gyfeiriodd at y Theatr Genedlaethol, y Gymdeithas Genedlaethol er Addysgu Saesneg (NATE), Llenyddiaeth Cymru, Cymdeithas Llythrennedd y DU (UKLA), y Gymdeithas ar gyfer Dysgu Ieithoedd (ALL), Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), a National Theatre of London (n.1), a nodwyd yn y categori 'arall'. Dim ond un rhan o ddeg o'r ymatebwyr Cymraeg a ddywedodd eu bod yn perthyn i gymdeithas broffesiynol, o gymharu ag ychydig llai nag un rhan o bump o'r ymatebwyr Saesneg, a hynny'n awgrymu bod angen sicrhau darpariaeth briodol o sefydliadau perthnasol, ymwybyddiaeth ohonynt a chefnogaeth i ymuno â nhw. Roedd gradd ôl-raddedig gan 13 o blith 47 o athrawon (28%): 4 yn y Gymraeg; 4 mewn Addysg; 1 MSt (Meistr Astudiaethau) mewn Addysgu Pynciau Uwch (Saesneg); 1 MA mewn Ymarfer Addysgol; 1 mewn Astudiaethau Gwerin. Roedd un cyfranogwr wedi ennill dwy radd Meistr: un mewn newyddiaduraeth ac un mewn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Roedd un cyfranogwr a oedd heb nodi ei gymhwyster neu bwnc. Roedd un rhan o dair o ymatebwyr Cymraeg wedi ennill gradd ôl-raddedig o gymharu ag ychydig mwy nag un rhan o bump o ymatebwyr Saesneg. Felly, roedd graddau'r astudio pellach ymysg cyfranogwyr yn gyfyngedig, a hynny, gellid dadlau, yn amlygu perthnasedd cynlluniau Llywodraeth Cymru, fel y Rhaglen Genedlaethol Gradd Meistr, at y dyfodol a'r cyllid sydd ar gael i wella hyn.

4.2 Newidiadau yn yr awduron a'r testunau a addysgir

Wrth ymateb i gwestiynau am yr hyn a oedd wedi newid ers dechrau'r pandemig a pham, o ran y testunau llenyddol a addysgir ganddynt – yn rhyddiaith, barddoniaeth a dramâu – roedd ymatebwyr wedi ateb fel a ganlyn. Roedd y cwestiwn yn yr arolwg wedi'i eirio fel hyn: "Gallech ddewis myfyrio ynghylch a oedd y pandemig yn unig reswm neu'n rheswm uniongyrchol dros newid neu beidio; a oedd cyfuniad o resymau dros newid e.e. y pandemig ynghyd â chostau neu hygyrchedd; a oedd digwyddiadau eraill ers dechrau 2020 (y Cwricwlwm i Gymru newydd, newidiadau mewn testunau llenyddiaeth TGAU, Brexit, Mae Bywydau Du o Bwys) wedi chwarae rhan neu beidio". Rhannwyd y gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau Cymraeg a Saesneg rhwng ymchwilwyr dwyieithog a Saesneg. Rydym yn cadw'r rhaniad hwnnw wrth adrodd ar y canlyniadau ond yn dod â nhw ynghyd mewn adran grynodedd ar y diwedd.

4.2.1 Newidiadau mewn awduron a thestunau gan ymatebwyr Cymraeg

4.2.1.1 CA3/hyd at 14 oed

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (63% o ymatebwyr). Roedd 9 ymatebydd (60%) wedi sôn am newid mewn awduron a thestunau ers dechrau'r pandemig. Roedd 2 ymatebydd ychwanegol wedi nodi newid mewn testunau, gan ddweud bod hynny'n ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi symud ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 4 ymatebydd wedi datgan na fu newid. O'r rheini a nododd newid yn y testunau llenyddol a addysgir, roedd nifer o resymau amrywiol wedi'u cynnig. Mewn rhai ymatebion, nodwyd bod y pandemig wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar eu dewis o destunau i'w haddysgu: roedd un athro yn addysgu cerddi a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig a'i effaith wrth addysgu ar-lein, ac un arall wedi penderfynu peidio ag addysgu *Ar fy mhenfy hun* oherwydd y darlun negyddol sydd ynddo o ddechrau yn yr ysgol, gan fod athrawon yn credu y gallai anesmwytho disgyblion a oedd eisoes yn bryderus ynghylch dychwelyd i'r ysgol. Nododd athro arall ei fod wedi newid y storïau byrion a astudir am fod y casgliad arferol yn

ymddangos yn rhy ymestynnol a bod y pandemig wedi effeithio ar berfformiad disgyblion, fel bod rhaid symleiddio'r dewis o destunau i'w cyflwyno ar-lein.

Dywedodd 2 gyfranogwr fod newidiadau wedi'u gwneud i addasu i'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Er enghraifft, roedd un athro wedi cyflwyno llenyddiaeth yn ei ddosbarth Sbaeneg CA3 yn ystod y pandemig drwy gynnal tasgau ar Google Classroom. Mae wedi parhau i wneud hynny ers aildechrau addysgu wyneb yn wyneb. Ychwanegodd ei fod yn parhau i chwilio, wrth i'r cwricwlwm newydd ddatblygu, am destunau priodol yn Sbaeneg ar gyfer disgyblion CA3. Nododd un arall mai'r rheswm dros newid oedd yr angen i addysgu llenyddiaeth sy'n fwy perthnasol i Gymru ac i addysgu testunau mwy 'amrywiol' fel *Noughts and Crosses* gan Malorie Blackman a *The Boy with two Hearts* gan Hamed Amiri. Roedd yr awydd i sicrhau bod testunau'n berthnasol i fyfyrwyr yn ymhlyg hefyd mewn ymatebion eraill. Nododd 1 cyfranogwr ei fod yn addysgu amrywiaeth o ddramâu er mwyn meithrin diddordeb y dysgwyr mewn gwahanol feysydd. Eglurodd 2 gyfranogwr eu bod yn newid nofelau'n gyson wrth i rai newydd gael eu cyhoeddi, gan ychwanegu mai un o effeithiau cadarnhaol y pandemig oedd bod cymorth ariannol ychwanegol wedi'i ddarparu fel y gallai'r ysgol hon brynu setiau o nofelau newydd. Dywedwyd hefyd fod yr ysgol hon wedi buddsoddi mewn nofelau i'w darllen yn ystod amser cofrestru er mwyn meithrin empathi mewn disgyblion, sy'n gyson â nodau'r Cwricwlwm i Gymru newydd, yn ôl esboniad yr athrawon hyn.

Gyda golwg ar yr ymatebion a oedd heb sôn am newid yn yr hyn a addysgir, dim ond un ymatebydd a oedd wedi ymhelaethu ar hyn. Dywedodd yr athro hwn ei fod wedi llwyddo i addysgu llenyddiaeth ar-lein, un ai drwy Zoom neu Google Meet, gyda disgyblion Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5. Eglurodd mai'r unig angen a gododd oedd addasu ychydig o'r ymarferiadau.

4.2.1.2 TGAU

Roedd 14 cyfranogwr o blith 24 wedi ymateb i'r cwestiwn hwn (58%). Roedd rhaniad cyfartal (n.7, 50%) rhwng ymatebion yn amlinellu'r newidiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn a'r rheini a ddywedodd na fu newid. Yn y rhan fwyaf o ymatebion a nododd fod newid, dywedwyd mai'r prif reswm oedd newidiadau gan CBAC. Roedd 3 ymatebydd wedi dewis darnau llenyddiaeth gwahanol i'w hastudio yn ystod y pandemig er mwyn adlewyrchu natur y cyfnod yn well. Er enghraifft, dywedodd 1 ymatebydd ei fod wedi newid y nofel am ei bod yn trafod themâu a oedd yn debyg i'r rheini a brofwyd yn ystod y pandemig: 'yr hen fyd a'r byd newydd – sut mae cymeriadau'n gorfod addasu'. Nododd ymatebydd arall ei fod wedi penderfynu astudio *Llyfr Glas Nebo* gan Manon Steffan Ros yn lle *Ac yna Clywodd Sŵn y Môr* gan Alun Jones am fod dysgwyr yn gallu uniaethu'n well â'r cymeriadau a'r sefyllfa yn y testun cyntaf ar ôl y cyfnod clo. Dywedodd un arall ei fod hefyd wedi cyflwyno *Llyfr Glas Nebo* yn ei ddosbarth Blwyddyn 10, er nad oedd wedi egluro'r rheswm am hynny. Cyfeiriodd dau ymatebydd at newid yn y fanyleb a oedd yn caniatáu i ddysgwyr astudio un ai barddoniaeth neu ryddiaith. Dywedodd un athro ei fod yn croesawu'r newid hwn am ei fod yn teimlo bod y cwrs Llenyddiaeth yn rhy drwm a dwys a bod yr amser ar gyfer astudio'r testunau yn gyfyngedig, hyd yn oed cyn y pandemig. Dywedodd athro arall nad oeddent yn astudio barddoniaeth o ganlyniad i'r newid hwn.

4.2.1.3 Safon Uwch

Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn o blith 24 (54%). Nododd 3 (23%) fod newid wedi digwydd. Dywedodd 3 ymatebydd fod hyn yn ganlyniad i'r pandemig. Yn achos un o'r ymatebwyr hyn, roedd yn golygu nad oedd yn addysgu'r ffilm *Hedd Wyn* gan Alan Llwyd. Roedd un arall wedi croesawu hyn yn benodol ac wedi dewis astudio *Hedd Wyn* ond nid y

ddrama y mae'n ei haddysgu fel arfer, sef *Siwan*. Fel arfer, mae'r maes llafur Safon Uwch yn gofyn i fyfyrwyr astudio *Hedd Wyn* ac un testun drama – un ai *Siwangan* Saunders Lewis neu *Y Tŵr* gan Gwenlyn Parry. Nododd un ymatebydd ei fod yn ddiolchgar bod dwy gerdd wedi'u tynnu o Uned 5, a phenderfynwyd darparu copïau o'r cerddi i ddisgyblion ar y papur arholiad. Dywedodd cyfranogwr arall nad oedd wedi newid dim, ond ychwanegodd na allai astudio'r testunau i'r un dyfnder oherwydd cyfyngiadau amser. Mewn ymateb cysylltiedig lle nodwyd na fu newid, ymhelaethwyd drwy ddweud ei fod wedi penderfynu addysgu'r ddrama fyrraf o'r ddwy yn y maes llafur o ganlyniad i'r pandemig a diffyg dysgu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, er 2022-2023, mae wedi ailafael yn ei arfer o adael i'r dysgwyr benderfynu pa destun y byddant yn ei astudio ar gyfer A2 Sbaeneg.

4.2.2 Newidiadau mewn awduron a thestunau gan ymatebwyr Saesneg

4.2.2.1 CA3/hyd at 14 oed

Roedd 16 ymatebydd (70%) wedi ateb y cwestiwn hwn. Dywedodd 69% (n.11) o'r rheini a atebodd fod newid wedi digwydd. Dim ond 1 athro a gyfeiriodd yn benodol at effaith y pandemig a dywedodd ei bod yn effaith dros dro: 'Tynnwyd *Of Mice and Men* yn ystod y cyfnod clo am nad oeddem yn credu ei bod yn addas i'w hastudio'n annibynnol ond mae wedi cael ei hailgynnwys nawr'. Newidiadau mewn personél ac ymarfer mewn ysgolion penodol oedd y rheswm dros rai o'r newidiadau yn y testunau a addysgir. Un ffactor a nodwyd gan un athro oedd y sefyllfa lle'r oedd athrawon newydd yn dod i'r ysgol ac yn cyflwyno cynlluniau gwaith newydd; cyfeiriodd un arall at newid i 'ddosbarthiadau cymysg', fel nad oedd yr adran Saesneg bellach yn addysgu'r ddrama *The History Boys*. Dywedodd 2 athro fod ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys yn un rheswm dros newid. Eglurodd un o'r rhain fod ei adran wedi 'ychwanegu testunau newydd ar gyfer CA3' mewn ymateb i hyn – fel y rhan fwyaf o gyfranogwyr– ond ni enwodd yr awduron a'r testunau dan sylw. Atebodd 19% (n.3) fod newid wedi bod yn y testunau a addysgir 'o ganlyniad i lansio'r cwricwlwm newydd': 'ym Mlwyddyn 7, rydym wedi addasu testunau ar sail dull ysgol gyfan o ddysgu', 'mae rhai testunau wedi'u hychwanegu neu eu tynnu wrth i ni dreialu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru' ac 'Rydym newydd ddechrau cynnwys testunau llenyddol yn y cwricwlwm leithoedd Tramor Modern o ganlyniad i'r Cwricwlwm i Gymru newydd' (athro H). Atebodd 13% (n.2) gan ddweud na fu newid hyd yn hyn, ond bod hynny ar fin digwydd. Yn ogystal â hynny, dywedodd yr athrawon hyn y byddant 'yn dechrau meddwl am amrywiaethu'r testunau a addysgir', 'gan ganolbwyntio ar dreftadaeth ddiwylliannol ein myfyrwyr. Mae hyn wedi bod yn bwysig iawn wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru'. Nododd yr athrawon hyn fod newid mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru wedi cyd-fynd â chamau i amrywiaethu'r testunau a addysgir i gydnabod treftadaethau diwylliannol amrywiol eu myfyrwyr. Yn olaf, roedd 1 athro yn gwrthwynebu'r hyn a welai'n ffocws ar addysgu iaith ar draul llenyddiaeth: roedd yn cysylltu hyn â chyfyngiadau ar amser, cynnwys ac ymreolaeth athrawon: 'Llai o gerddi, dramâu a nofelau'n cael eu hastudio – yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y galwadau ar amser a Llywodraeth yn rhoi pwys ar gynnwys yn ymwneud ag iaith. Gadewch i ni gofio am werth llenyddiaeth! A chael rhyddid i'w haddysgu, os gwelwch yn dda!'

4.2.2.2 TGAU

Roedd 12 (52%) ymatebydd wedi ateb y cwestiwn hwn. Dywedodd 50% o'r rheini (n.6) na fu newid. Nododd un rhan o dair o ymatebwyr (n.4) fod 'addasiadau i'r Cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg' oherwydd y pandemig wedi peri iddynt dynnu testunau penodol, yn cynnwys *An Inspector Calls* gan J.B. Priestley (n.2), *Heroes* gan Robert Cormier (n.2), *Blood Brothers* gan Willy Russell (n.1), ac *A Christmas Carol* gan Charles Dickens (n.1). Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at newidiadau mewn nifer o'r testunau a addysgir, gan ddweud eu bod wedi newid 'rhai testunau' (n.1) neu fod 'y testunau ar yr ail bapur wedi'u gadael

allan ...oherwydd cyfyngiadau amser' (n.1). Dywedodd un ei fod wedi cymryd y cam dros dro o 'ddewis cwblhau'r arholiad Uned 1 ac addysgu *Of Mice and Men* oherwydd anghenion ein disgyblion' ond 'y byddwn yn parhau i addysgu pob un o'r 3 thestun cyfan o fis Medi 2022'. Y teimlad cyffredinol yw bod newidiadau bach, dros dro wedi'u gwneud i ymdopi â phwysau ar athrawon a myfyrwyr yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hyn, roedd 2 ymatebydd wedi cyfeirio at 'destunau TGAU newydd ym Medi '2022', ar gyfer llenyddiaeth Saesneg yn ôl pob tebyg. Dywedodd un arall eu bod 'newydd ddechrau cynnwys testunau llenyddol yn y cwricwlwm leithoedd Tramor Modern o ganlyniad i'r Cwricwlwm i Gymru newydd'. Felly, roedd chwarter yr ymatebwyr (n.3) yn dweud bod newidiadau wedi digwydd o ganlyniad i newid mewn polisi addysg a oedd heb gysylltiad â'r pandemig.

4.2.2.3 Safon Uwch

Roedd 8 (35%) ymatebydd wedi ateb y cwestiwn hwn yn Saesneg. Roedd 50% (n.4) o'r rhain wedi dweud na fu newid, heb ymhelaethu. Yr ateb gan un oedd 'na – ond mae llai o gerddi yn y casgliad yn cael eu hastudio' fel mesur dros dro oherwydd y pandemig. Yr ateb gan un arall oedd 'ie – tynnwyd un stori fer ac un gerdd o ganlyniad i newidiadau oherwydd COVID'. Roedd un arall eto wedi datgan, gan gyfleu balchder o fod wedi cyflawni camp anodd, ei fod 'wedi canolbwyntio'n astud ar y penodau a bennwyd gan CBAC, ond wedi llwyddo i drafod y rhan fwyaf o'r nofel (*Jane Eyre*)' gan Charlotte Bronte. Dim ond un ymatebydd a gyfeiriodd at newid a oedd heb gysylltiad â'r pandemig: 'Rydym wedi adolygu'r testunau y byddwn yn eu defnyddio ar gyfer y rhan NEA o'r arholiad Safon Uwch y flwyddyn nesaf – rydym wedi dechrau cyflwyno mwy o amrywiaeth a byddwn yn addysgu *Brooklyn* gan Colm Toibin ar y cyd â *The Colour Purple* gan Alice Walker', yn sgil ymgyrchu ynghylch cynrychiolaeth ac amrywiaeth.

4.2.3 Crynodeb o newidiadau yn yr awduron a'r testunau a addysgir

Yn achos ymatebwyr yn y ddwy iaith, roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gofnododd un neu ragor o newidiadau yn yr awduron a'r testunau a addysgir ers cyn y pandemig wedi gwneud hynny ar gyfer CA3/hyd at 14 oed, a'r ganran wedi gostwng drwy TGAU – 50/50 newid/dim newid – i newid o lai na 50% ar lefel Safon Uwch. Ar lefel CA3/hyd at 14 oed, roedd y ddau grŵp wedi nodi amrywiaeth o ffactorau mewn newid yn cynnwys y pandemig, y Cwricwlwm i Gymru a'r awydd i amrywiaethu testunau. Ar lefel Safon Uwch, roedd y ddau grŵp yn priodoli newid yn llwyr bron i effaith y pandemig, ac roedd un cyfeiriad at amrywiaeth. Roedd gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp o ran y ffactorau a nodwyd mewn newid ar lefel TGAU: roedd ymatebwyr Cymraeg wedi nodi mai CBAC oedd yr achos gan amlaf, ac ymatebwyr Saesneg wedi rhoi pwyslais ar y pandemig. Lle rhoddwyd gwybod am newid mewn addysgu, nid oedd hynny'n cael ei weld yn beth negyddol bob amser: roedd rhai cyfranogwyr wedi croesawu'r cymhelliad i wella a diweddarau eu harlwy. Mae ymagwedd gadarnhaol o'r fath yn gyson â llawer o'r llenyddiaeth ryngwladol bresennol (Edwards, Owen et al, Parr et al). Dylid nodi bod nifer o athrawon a gyfeiriodd at newid o ganlyniad i'r pandemig wedi tynnu sylw at ei natur dros dro, a rhai wedi cyfeirio at y ffaith eu bod eisoes wedi dychwelyd at eu hawduron a thestunau arferol. Ar y cyfan, roedd newidiadau a welwyd yn rhai negyddol, fel diffyg cyfle i addysgu testun penodol neu orfod cwtogi gwaith ar destunau er mwyn dysgu o bell, yn cael eu hystyried yn ganlyniad i'r pandemig ac yn rhai dros dro. Roedd newidiadau eraill, yn enwedig yng nghyswllt amrywiaeth, yn cael eu hystyried yn rhai cadarnhaol a hirdymor. Roedd y disgrifiadau o newidiadau mewn cysylltiad â'r cwricwlwm a byrddau arholi yn rhai niwtral, gan mwyaf.

Cafwyd rhywfaint o wybodaeth am y cyd-destun wrth ystyried y newidiadau hyn mewn atebion i gwestiwn am bwy sy'n gyfrifol am ddewis y testunau a addysgir. Gan amlaf, roedd y penderfyniadau wedi'u gwneud gan unigolion: yn bennaf gan yr athro ystafell

ddosbarth ei hun, y Pennaeth Adran neu ffigurau eraill ar lefel uwch (enwyd y 'rheolwr llinell' a'r 'Arweinydd Dysgu ar lefel CA3'). Nid oedd penderfynu ar y cyd yn digwydd mor aml. Dywedwyd ei fod yn cael ei wneud gan amlaf gan yr adrannau pwnc mewn ysgolion ond yn cael ei briodoli i'r manylebau TGAU a Safon Uwch a'r cyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau pwnc. Dywedodd un athro fod asesu yn dylanwadu ar hyn a bod yr awydd i 'fanteisio ar gryfderau ar lefel Safon Uwch' yn dylanwadu ar y dewis o destunau. Dywedodd un ymatebydd mai disgyblion sydd fel arfer yn dewis y ddau deitl a addysgir ar lefel Safon Uwch o restr CBAC.

4.3 Y pwysigrwydd parhaus o addysgu llenyddiaethau

Holwyd athrawon am eu canfyddiad o'r pwysigrwydd o astudio llenyddiaethau cyn y pandemig ac ers iddo ddechrau. Rhoddwyd anogaeth iddynt fyfyrion ynghylch a oedd y pandemig yn unig reswm neu'n rheswm uniongyrchol dros newid neu beidio; a oedd cyfuniad o resymau dros newid; ac a oedd digwyddiadau eraill wedi chwarae rhan. Cafwyd cyfradd ymateb o 100% i'r cwestiwn hwn gan gyfranogwyr Cymraeg a Saesneg. Dim ond 2 (1 bob un o'r ddau grŵp ymatebwyr) a oedd heb gytuno ei fod yn bwysig. Nid oedd neb yn teimlo ei fod yn llai pwysig ers dechrau'r pandemig. Dyma'r canlyniad y gellid ei ddisgwyl o bosibl, ac yn sicr yr un y dylid gobeithio amdano, gan athrawon llenyddiaethau.

Yn y sylwadau agored, roedd 9 ymatebydd wedi cyfeirio'n benodol at eu cred bod llenyddiaeth yn bwysig bob amser neu'n bwysicach nawr: 'Mae llenyddiaeth yn bwysig bob amser', 'yr un mor bwysig ag o'r blaen', 'mae wedi bod yn bwysig i mi erioed', neu fod llenyddiaeth i'w theimlo 'yn bwysicach byth' nawr, yn enwedig am fod 'dysgwyr yn darllen cyn lleied gartref' – gan gyfeirio o bosibl at ganfyddiad o'r effaith o gau ysgolion o ganlyniad i'r pandemig. Teimlai un ymatebydd fod y pandemig 'wedi amlygu pwysigrwydd llenyddiaeth i gynulleidfa fwy ledled y byd'. Ar lefel fwy manwl, roedd yr ymatebwyr hyn wedi priodoli'r pwysigrwydd cynyddol o addysgu llenyddiaethau i gyd-destun y pandemig am wahanol resymau. Roedd y rhain yn cynnwys y canfyddiad bod angen:

- gwrthweithio'r effeithiau negyddol tybiedig o gau ysgolion ar lefelau llythrennedd yn benodol;
- 'helpu myfyrwyr i wneud synnwyr o'u bywydau dros y blynyddoedd diwethaf a'u rhoi yn eu cyd-destun';
- meithrin yr ymdeimlad o gysylltioldeb yn y myfyrwyr, mewn perthynas â phobl o gig a gwaed yn eu hysgolion a'r byd ehangach, awduron o bob oes, a'u cymeriadau (rhywbeth yr oedd yr ymchwil hefyd wedi dangos bod y pandemig wedi amharu arno);
- lleddfu'r effeithiau economaidd lleol negyddol a briodolir yn rhannol o leiaf i'r pandemig drwy addysgu llenyddiaeth i'r holl ddisgyblion er mwyn cydraddoldeb, nid yn unig y rheini sydd â breintiau economaidd a chymdeithasol a breintiau eraill yng Nghymru.

Er nad yw'n peri syndod o bosibl, mae'n bwysig nodi bod athrawon a atebodd yn Gymraeg wedi sôn am y pwysigrwydd o addysgu llenyddiaeth i'r Gymraeg. Teimlai un athro fod addysgu llenyddiaeth Gymraeg wedi parhau i fod yn bwysig, yn enwedig mewn ysgol cyfrwng Cymraeg gan fod nifer mawr o'r disgyblion yn dod o aelwydydd di-Gymraeg (gan gymryd bod yr athro'n cyfeirio at iaith yr aelwyd, yn hytrach na chenedligrwydd). Roedd yn ymddangos hefyd fod un athro yn cysylltu'r pwysigrwydd cynyddol o astudio llenyddiaeth Gymraeg â chamau i hyrwyddo'r Gymraeg: 'Heb newid fy meddwl – fel athro Cymraeg mae wedi bod yn bwysig i mi erioed ond yn bwysicach yn awr o bosibl ein bod yn dangos y trysor sydd gennym yn yr iaith Gymraeg', er ei fod wedi nodi'r her a welai athrawon wrth geisio 'dod o hyd i lenyddiaeth sy'n ddeniadol a dealladwy y gallwch uniaethu â hi'.

Er nad oedd cysylltiad uniongyrchol rhyngddo a'r pandemig, ond ei fod wedi digwydd yn yr un cyfnod, atebodd un cyfranogwr ei fod wedi newid ei feddwl, gan weld mwy o werth mewn llenyddiaeth nawr 'er mwyn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru newydd'. Felly, yn ogystal â gweld bod addysgu llenyddiaethau cyn bwysiced neu'n bwysicach nag o'r blaen o ganlyniad i'r pandemig, roedd athrawon hefyd wedi cyfeirio at ffactorau fel ymdrechion parhaus i adfywio'r Gymraeg, cyfiawnder cymdeithasol a'r Cwricwlwm i Gymru.

4.4 Dibenion a gweledigaethau ar gyfer addysgu llenyddiaethau

Holwyd athrawon am y dibenion o ddysgu am lenyddiaeth a thrwy gyfrwng llenyddiaeth gan ddysgwyr a'u gweledigaethau ar gyfer hynny ac, yn benodol, a oedd y rhain wedi newid ers dechrau'r pandemig. Cwestiwn penagored oedd hwn ac roedd y cyfarwyddiadau'n eu cymell i fyfyrion ynghylch a oedd y pandemig yn unig reswm neu'n rheswm uniongyrchol dros unrhyw newid a gafwyd; a oedd digwyddiadau eraill wedi chwarae rhan; neu a oedd cyfuniad o resymau. Cafwyd cyfradd ymateb o 100% i'r cwestiynau hyn gan gyfranogwyr Cymraeg a Saesneg, er bod llond llaw o'r ddau grŵp wedi dweud na fu newid neu wedi ysgrifennu 'amherthnasol' (i ddangos na fu newid o bosibl neu am eu bod yn athrawon ieithoedd rhyngwladol a oedd heb addysgu llenyddiaeth).

O ran egluro prif ddiben addysgu llenyddiaeth/au, cofnodwyd amrywiaeth o atebion. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi cyfeirio at nifer o ddibenion. Roedd y rhain yn cynnwys hyrwyddo profiad real a dirprwyol disgyblion, ehangu eu gorwelion, cynnig mwynhad, cynyddu eu gwybodaeth am wahanol fathau o lythrennedd ac iaith/ieithoedd a sgiliau ar gyfer hynny – yn ymwneud yn enwedig â chyfoeth ac amrywiaeth y Gymraeg a'i diwylliant. Yn gyffredinol, gwelwyd bod llenyddiaeth yn datblygu priodoleddau disgyblion mewn ffordd gyfannol a fydd yn para gydol oes, gan gynnwys gallu beirniadol, creadigedd, dinasyddiaeth weithgar, empathi, deallusrwydd emosiynol, a lles. Mae hyn yn dangos ei bod yn arferol o hyd i athrawon ystyried y diben o addysgu llenyddiaethau yng nghyd-destun datblygu sgiliau yn ogystal â datblygiad personol. Mae'r dibenion a grybwyllwyd gan yr athrawon hyn yn perthyn i fodolau sefydledig ar gyfer addysgu llenyddiaethau (Elliott 2021, Olive 2015), ond wedi'u mynegi mewn ffyrdd unigryw gan bob athro sy'n cyfleu blaenoriaethau sy'n wahanol ond yn gorgyffwrdd yn aml. Ceir blas o'r hyn a ddywedodd athrawon am ddibenion addysgu llenyddiaethau ers dechrau'r pandemig yn y dyfyniad sy'n dilyn:

Yn ein hysgol ni, mae'r dibenion o addysgu llenyddiaeth yn ymwneud â sbarduno disgyblion i ddatblygu sgiliau. Rydym hefyd yn ceisio hyrwyddo cariad at ddarllen yn yr holl grwpiau blwyddyn drwy astudio o leiaf un nofel bob blwyddyn. Ers dechrau'r pandemig, mae'r angen i addysgu llenyddiaeth wedi cynyddu o ganlyniad i ymddieithrio o addysg gan ddisgyblion. Mae angen i ni ddefnyddio llenyddiaeth hefyd i ehangu gwybodaeth a phrofiadau disgyblion yn dilyn mynediad cyfyngedig at y rhain yn ystod y pandemig.

Nid wyf yn credu bod y diben wedi newid ers dechrau'r pandemig – credaf ei bod yn hollbwysig i ddisgyblion gael at destunau llenyddol er mwyn gwerthfawrogi prydferthwch y gair ysgrifenedig. Os nad addysgir llenyddiaeth iddynt, byddant yn cael eu hamddifadu o brofi pob math o ryfeddodau creadigol. Mae llenyddiaeth yn cynyddu eu hempatthi, yn eu haddysgu am y byd ac yn agor drysau at nifer mawr o bynciau eraill.

Roedd nifer bach o athrawon wedi rhoi disgrifiad cyfyng o ddibenion addysgu llenyddiaethau e.e. i gwrdd â manylebau arholiadau ar gyfer pynciau iaith a llenyddiaeth.

Fodd bynnag, er bod ofnau o'r fath wedi'u mynegi o bryd i'w gilydd am addysg lenyddol ers cyflwyno Saesneg fel pwnc mewn ysgolion a phrifysgolion ar ddiwedd y 1800au, yr hyn na wnaeth yr athrawon hyn yng Nghymru – hyd yn oed o dan bwysau pandemig byd-eang – oedd cyfyngu'r amcanion ar gyfer addysgu llenyddiaethau i nifer o sgiliau swyddogaethol, gweithrediadol, mynegiannol neu alwedigaethol yn unig (Olive 2015). Nid oeddent wedi'u cyfyngu ychwaith i'r anghenion a allai godi mewn addysg a chymdeithas ar y pryd: er bod nifer ohonynt wedi sôn am yr angen i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o gyd-destunau cyfredol, maent hefyd yn dweud yn aml mai un o ddibenion astudio llenyddiaeth yw helpu myfyrwyr i ddeall y gorffennol a'r presennol a phosibiliadau'r dyfodol, a'r cysylltiadau rhwng gwahanol gyfnodau hanesyddol.

Roedd 37% (n.13) wedi nodi newidiadau yn eu gweledigaeth ar gyfer addysgu llenyddiaethau ers dechrau'r pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys y dylid:

- Achub ar y cyfleoedd yn y Cwricwlwm i Gymru newydd i 'ymdrin â darparu llenyddiaeth yn ein Cynlluniau Gwaith' (dau ymateb tebyg);
- Cynnig dihangfa i fyfyrwyr o fywyd go iawn ac amseroedd anodd i fydoedd dychmygol;
- Rhoi mwy o bwys ar 'ennyn cariad at ddarllen yn ein dysgwyr a meithrin annibyniaeth ar gyfer darllen a gwerthfawrogi bod darllen mewn oed cynnar yn cael effaith fawr ar gyflawniadau yn y dyfodol';
- 'Newid ein ffordd o ddewis ac addysgu testunau er mwyn sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn teimlo cysylltiad â'r llenyddiaeth y maent yn ei darllen ac yn cael eu hysbrydoli ganddi' (2 ymateb tebyg iawn am hyn) – roedd nifer o ymatebion pellach yn arddel y weledigaeth hon:
 - Newid testunau drwy'r amser i'w cadw'n berthnasol – gan roi'r enghraifft bod angen tynnu rhai testunau a gyflwynwyd i ymateb i sefyllfa'r pandemig am nad oeddent yn berthnasol bellach;
 - Rhoi mwy o bwyslais ar fywydau Du, iechyd meddwl, ac empathi (2 ymateb tebyg iawn am hyn); llenyddiaeth fodern; testunau seiliedig ar y DU; awduron benywaidd;
 - Llacio'r cyfyngiadau ar lefel CA4 a CA5 ar yr hyn y gellir ei addysgu – roedd yr ymatebydd hwn wedi sylwi ei bod yn haws gwneud newidiadau ac amrywiaethu testunau ar lefel CA3 ar hyn o bryd;
 - Newid topigau a astudiwyd am nifer o flynyddoedd am rai newydd;
 - Defnyddio llenyddiaeth i addysgu myfyrwyr am faterion byd-eang cyfoes;
 - Ystyried effaith y pandemig ar ysgrifennu cyfoes (cymharwyd hyn â'r ffordd y mae hanes am blâu yn y cyfnod modern cynnar yn cael ei gymhwyso at astudio Shakespeare);
- 'Cynyddu'r cymorth i fyfyrwyr i brynu eu copïau eu hunain/copïau PDF o ffynonellau agored i'w lawrlwytho gan ysgolion a'u hargraffu ar gyfer myfyrwyr'.

Oherwydd effaith uniongyrchol y pandemig ac effeithiau eilaidd o newidiadau yng nghydestun y Cwricwlwm i Gymru yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd gweledigaeth yr ymatebwyr hyn ar gyfer addysgu llenyddiaethau yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarllen er mwynhad ac fel ffordd i sicrhau llwyddiant academaidd ehangach. Eu gweledigaeth oedd y byddai myfyrwyr yn cael gwell mynediad at destunau mwy amrywiol, sydd â gwell cysylltiad â chymdeithas a digwyddiadau cyfoes (ar lefel leol a rhyngwladol), yn ystod yr holl gyfnodau allweddol.

O'r 63% (n.34) a oedd heb gyfeirio'n benodol at newid yn eu gweledigaeth ar gyfer addysgu llenyddiaethau ers dechrau'r pandemig, roedd nifer ohonynt er hynny wedi ategu pwyntiau a wnaed uchod am berthnasedd cymdeithasol, yn cynnwys amrywiaeth (n.5); mwy o ymreolaeth i athrawon o ran dewis testunau, yn arwain at addysgu testunau mwy amrywiol (n.3); darllen er mwynhad a llythrennedd yn gyffredinol (n.3) wrth amlinellu eu gweledigaethau presennol.

5. Casgliad

Fel y mae'r ymatebwyr i'r arolwg wedi dangos uchod, mae llenyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd myfyrwyr, yn ogystal â'u datblygiad personol, mewn pynciau fel Cymraeg, Saesneg a Drama. Mae hefyd yn codi yng nghydestun addysgu ieithoedd rhyngwladol, felly mae'r adroddiad hwn wedi cyfeirio ar ei hyd at addysgu llenyddiaethau yn y lluosog. Gyda golwg ar Feysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm i Gymru, mae llenyddiaethau'n rhan o feysydd ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r Celfyddydau Mynegiannol. Yn y prosiect hwn, ymchwiliwyd i effaith y pandemig COVID-19 ar addysgu llenyddiaethau mewn ysgolion uwchradd o bersbectif athrawon. Roedd hyn o gymorth wrth gymharu â'r llenyddiaeth bresennol, sydd hefyd wedi'i seilio'n bennaf ar bersbectifau'r rhanddeiliaid hyn.

Mewn ymateb i Gwestiwn Ymchwil 1, 'Pa ymchwil a wnaed am effeithiau'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau ar lefel ysgolion uwchradd yng Nghymru ac ar lefel ryngwladol?', yr hyn a gafwyd gan mwyaf oedd myfyrdodau gan unigolion neu astudiaethau achos bach yn disgrifio profiadau athrawon wrth addysgu Llenyddiaeth Saesneg a Drama yn Awstralia, y DU ac UDA. Roedd y rhain yn awgrymu nad yw'r pandemig yn llwyr gyfrifol, neu hyd yn oed yn bennaf cyfrifol, am y newidiadau a welwyd mewn addysgu llenyddiaethau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, er y byddai wedi gallu creu'r angen am rai newidiadau sydyn neu roi hwb ychwanegol i ad-drefnu testunau a dulliau addysgu. Roeddent yn sôn am fwynhau "space" – yn yr ystyr trosiadol o ryddid neu ymreolaeth fel arfer – i gyflwyno newid ac arbrofi. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y ffaith mai adroddiadau yw'r rhain gan grŵp bach hunanddetholiadol o addysgwyr sydd wedi perfformio ar lefel uchel o dan bwysau ac a gyhoeddwyd yn ystod y pandemig, wrth asesu pa mor gynrychiadol ydynt.

Gyda golwg ar Gwestiwn Ymchwil 2, 'Pa fylchau sydd yn yr ymchwil hon?', roedd y disgrifiadau presennol yn ymwneud ag addysgu llenyddiaeth Saesneg yn unig. Dyma'r adroddiad cyntaf am brofiadau yng Nghymru, yn trafod ieithoedd swyddogol y wlad, ac yn cwmpasu nifer o bynciau a Meysydd Dysgu a Phrofiad lle mae llenyddiaethau'n cael eu haddysgu. Roedd 47 o athrawon y pynciau hyn mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi cwblhau arolwg ar-lein yn myfyrio ar eu profiadau o addysgu llenyddiaethau cyn ac ers dechrau'r pandemig. Mae hyn yn helpu i lenwi bwlch mewn gwybodaeth a dealltwriaeth cenedlaethol o'r profiad mewn system addysg ddwyieithog. Yn ogystal â hyn, mae'n ychwanegiad gwerthfawr i'r llenyddiaeth bresennol gan awduron a oedd wedi'u dewis eu hunain oherwydd eu hymateb cadarnhaol i'r pandemig ac am eu bod wedi datblygu arferion da i'w rhannu. Ar ben hynny, mae'r astudiaeth wedi edrych ar ffactorau eraill sydd wedi dylanwadu ar addysgu llenyddiaethau yn yr un cyfnod â'r pandemig (e.e. y Cwricwlwm i Gymru newydd a'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys), gan nodi'r croestorri rhyngddynt mewn manau.

Mewn perthynas â Chwestiwn Ymchwil 3, 'Beth mae athrawon ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi rhoi gwybod amdano o ran effeithiau'r pandemig ar addysgu llenyddiaethau?' Gyda golwg ar newidiadau mewn awduron a thestunau, cofnodwyd mwy o newidiadau ar lefelau is yn yr ysgol uwchradd nag ar y lefel uwch, a hynny'n ymwneud o bosibl â'r asesiadau tyngedfennol a geir ar y lefel hon. Lle'r oedd newidiadau wedi'u gwneud ar y lefel hon, dywedwyd eu bod yn ganlyniad i'r pandemig ym mron pob achos. Ar lefelau is, roedd y Cwricwlwm i Gymru ac awydd athrawon i amrywiaethu testunau yn sgil ymgyrchu cymdeithasol poblogaidd, fel Mae Bywydau Du o Bwys, yn ffactorau cyffredin hefyd. Ar y cyfan, dywedwyd bod effeithiau negyddol o'r pandemig ar y dewis o awduron a thestunau i'w haddysgu yn rhai dros dro. Roedd nifer o'r athrawon wedi croesawu'r gwahanol gymhellion o ganlyniad i'r pandemig, y Cwricwlwm i Gymru a mudiadau

cymdeithasol i ailystyried y testunau a addysgir. Roedd athrawon llenyddiaethau yn teimlo argyhoeddiad a oedd cyn gryfed neu'n gryfach yn sgil y pandemig o'r pwysigrwydd o addysgu llenyddiaethau er mwyn datblygu sgiliau myfyrwyr (mewn pwnc penodol neu ar draws y cwricwlwm) a datblygiad personol. Roedd y newid a gafwyd yn eu gweledigaethau ar gyfer addysgu llenyddiaethau ers dechrau'r pandemig yn ymwneud yn bennaf ag addysgu testunau sydd, yn ddelfrydol, yn fwy amrywiol (yn enwedig yn nhermau hil a rhywedd) yn yr holl gyfnodau allweddol, yn fwy perthnasol o ran cyfnod, cymdeithas a daearyddiaeth, a lle mae myfyrwyr yn cael gwell mynediad at destunau o bob math.

5.1 Cyfyngiadau

Mewn perthynas ag ymroddiad athrawon i'w pwnc, eu myfyrwyr a'u hysgolion, mae'n werth cofio bod athrawon yn weithwyr brwdfrydig iawn sydd â gallu mawr i addasu – yn enwedig y rheini sy'n cwblhau arolygon yn sgil pandemig byd-eang, felly mae'n bosibl bod y priodoleddau hynny wedi peri iddynt fychanu effeithiau negyddol y pandemig neu nad oeddent wedi cofnodi barn y rheini a brofodd flinder hirdymor yn sgil y pandemig.

Yn ystod haf 2022, pan gasglwyd y data, roedd y pandemig yn parhau i achosi salwch ac ymyrraeth, er bod hynny ar raddfa lai nag yn y ddwy flynedd blaenorol. Roedd yn destun sylw cyffredin yn y cyfryngau darlledu, y cyfryngau cymdeithasol ac mewn negeseuon gan lywodraeth i'r cyhoedd. Mae'n ddigon posibl, a ninnau mor agos mewn amser at bwynt cychwyn y pandemig, nad oedd modd sylwi eto ar effeithiau mwy cynnil a chymhleth a fyddai'n para yn y tymor hwy (e.e. yn croestorri ag argyfyngau economaidd a gwleidyddol ym Mhrydain ac ar lefel ryngwladol). Rydym yn awgrymu y dylid cynnal ymchwil ddilynol yn hwyrach yn y cyfnod ymadfer ar ôl y pandemig.

Yn unol â dyluniad ein harolwg, roedd cyfranogwyr wedi rhoi mwy o sylw i'r effaith ar eu haddysgu nag ar yr effaith ar ddysgu gan fyfyrwyr, na fydd yn hollol amlwg eto o bosibl. Gall yr effaith hon ddod yn fwy clir wrth i ddysgwyr ifanc gyrraedd lefel TGAU a Safon Uwch, tra bo'n bosibl bod y cohort Safon Uwch a effeithiwyd wedi gorffen eu haddysg a'u bod yn profi effeithiau mewn sectorau sydd y tu hwnt i gyrraedd ein cyfranogwyr. Roedd hefyd yn golygu mai ychydig a ddywedodd athrawon am y gwahaniaeth rhwng profiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr – er eu bod wedi mynegi ymrwymiad cadarn i sicrhau darpariaeth a mynediad cyfartal.

Un cyfyngiad cysylltiedig ar ein harolwg yw ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn a addysgwyd a pham, yn ystod y pandemig, ond yn holi am arferion a gweithgareddau addysgu "wrth fynd heibio" yn unig. Roedd hyn yn ganlyniad i gyfyngiadau ymarferol ar amser yr ymchwilwyr, yr athrawon, a'r amhosibilrwydd o fynd i mewn i ysgolion i gasglu data yn union ar ôl y pandemig. Bydd dulliau addysgu yn faes ymchwil buddiol ar gyfer y dyfodol, er bod rhai enghreifftiau o arferion addysgu ar gael eisoes – fel y mae ein adolygiad llenyddiaeth yn awgrymu – o systemau addysg gweddol gymaradwy.

Gyda golwg ar ymatebwyr, roedd nifer y Penaethiaid Adran yn ein data ychydig yn uwch na'r cyfartaledd – o ganlyniad i recriwtio athrawon drwy gysylltu â thimau arwain ysgolion; roedd gwell cynrychiolaeth o lawer o dde Cymru nag o'r gogledd (yn enwedig o Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr); ardaloedd penodol a oedd wedi'u tangynrychioli yw gogledd-ddwyrain, canolbarth, gorllewin a de-ddwyrain Cymru. Roedd yr holl ymatebwyr yn gweithio mewn ysgol o un math – ysgol gyfun wladol. Cymerwyd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol. Roedd athrawon yn parhau i brofi blinder proffesiynol o addasu i'r pandemig, fel bod heriau wedi codi wrth recriwtio cyfranogwyr yng ngwanwyn/haf 2022. Felly, ni all y canfyddiadau fod yn hollol gynrychiadol.

5.2 Argymhellion

Roedd nifer o athrawon yn dawedog wrth adrodd ar effeithiau negyddol uniongyrchol y pandemig ar eu hymarfer addysgu llenyddiaethau, neu wedi dweud bod yr effeithiau hynny'n rhai dros dro, felly mae'r rhestr hon yn rhoi sylw hefyd i ffyrdd ehangach i helpu i addysgu llenyddiaethau sydd wedi codi o'n gwaith ymchwil:

- Cefnogi hyblygrwydd mewn manylebau os bydd yr angen yn codi eto – roedd athrawon wedi croesawu gostyngiad dros dro yn nifer neu ystod y testunau i'w hastudio.
- Ymestyn cymorth ariannol sy'n galluogi ysgolion i brynu copïau o lyfrau. Gall y rhain fod yn gopïau printiedig, yn fersiynau digidol, yn llyfrau llafar (fel y mae'r ymchwil bresennol yn awgrymu), lle bynnag y gellir sicrhau trwyddedau priodol ar gyfer rhannu ac argraffu.
- Galluogi athrawon llenyddiaethau i gynnwys mwy o awduron benywaidd, mwy o awduron o liw, mwy o destunau modern – dewis o destunau diweddar a pherthnasol yn gyffredinol – drwy'r cymorth ariannol hwn. Mae'r cynllun Lit in Colour Pioneers yn un model posibl (Elliott et al 2021).
- Hybu aelodaeth o gymdeithasau proffesiynol i athrawon, yn enwedig athrawon Cymraeg eu hiaith, athrawon Saesneg Cymraeg eu hiaith, ac athrawon Drama Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhain wedi rhoi gwybod am gyfraddau aelodaeth is na'r rheini ar gyfer cymheiriaid Saesneg eu hiaith yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r ddarpariaeth o gymdeithasau perthnasol sy'n cwrdd ag anghenion yr athrawon hyn h.y. yn canolbwyntio ar y Gymraeg, ar addysg cyfrwng Cymraeg, a/neu destunau a diwylliannau Cymraeg.

Cyfeiriadau

#DisruptTexts (d.d.) #DisruptTexts Guides. Ar gael yn: <https://disrupttexts.org/disrupttexts-guides/> (cyrchwyd 25 Mawrth 2022)

Ahlberg, S. (2021) *Teaching Literature in Times of Crisis*. London: Routledge.

Armstrong, D. D. (2020) *Ugly Dogs Don't Cry*. London: Jacaranda.

Arslan, G., et al. (2022) 'Benefits of Positive Psychology-Based Story Reading on Adolescent Mental Health and Well-Being', *Child Indicators Research*, 15, tt. 781-793.

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws-ein-gwaith/coronafeirws-a-fi-canlyniadau/>

Dienw (2020/2021), 'We "won't be Beaten"', *Drama & Theatre*, 94, t. 11.

Dyer, L. (2010) 'Setting up a Reading Group', *Mental Health Practice*, 13, 8, tt. 21-23.

Edwards, M. (2021) 'The Tempest Explored Online by Year 7', *Teaching Shakespeare*, 21, tt. 19-20

Elliot, V. (2021) *Knowledge in English: Canon, Curriculum and Cultural Literacy*. London: Routledge.

Elliot, V., ac Olive, S. (2021) 'Secondary Shakespeare in the UK: What Gets Taught and Why?', *English in Education*, 55 (2) tt. 102-115.

Elliott, V., Nelson-Addy, L., Chantiluke, R., Courtney, M. (2021) *Lit in Colour: Diversity in Literature in English Schools*. London: Penguin & Runnymede Trust. Ar gael yn: <https://litincolour.penguin.co.uk/>

Estyn (2020) *Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/safon-uwch-cymraeg-iaith-gyntaf?_ga=2.84917914.269873526.1688055062-34350397.1688055062

Evans, C., et al. (2020) 'Teaching under Lockdown: The Experiences of London English Teachers', *Changing English*, 27 (3), tt. 244-254.

Farmer, D. (d.d.) *Conscience Alley*. Ar gael yn: <https://dramaresource.com/conscience-alley/> (cyrchwyd 21 Gorffennaf 2022)

Fenn, R. (2022a) *Balancing the Books: An Analysis of Gender Bias in the Authorship of Literature Texts Taught at KS3 in England*. Ar gael yn: <https://endsexismsinschools.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/Balancing-the-Books-Gender-Bias-in-the-KS3-English-Curriculum-1.pdf>

Fenn, R. (2022b) 'Invisible Women: Gender Bias in the English Curriculum', *Teaching English*, 28, tt. 26-29.

- Frazier, M., a Lewis, A. (2021) ‘“Sick, O Sick!”: Zooming with Shakespeare during the Pandemic’, *English Journal*, 110 (4) tt. 124-127.
- Howard, E., Khan, A., a Lockyer, C. (2021) *Learning During the Pandemic: Review of Research from England*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/learning-during-the-pandemic/learning-during-the-pandemic-review-of-research-from-england>
- Kneen, J., et al. (2019-2020) *What Literature Texts are Being Taught in Years 7 to 9?* Ar gael yn: https://ukla.org/funded_projects/what-literature-texts-are-being-taught-in-years-7-to-9/
- Lambert, D. (2011) ‘Reviewing the Case for Geography, and the “Knowledge Turn” in the English National Curriculum’, *The Curriculum Journal*, 22 (2) tt. 243-264.
- Lee, H. (1960) *To Kill A Mockingbird*. London: Heinemann.
- Llywodraeth Cymru (2016) *Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg: Cyfnodau Allweddol 2-4*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/2584232a-184a-4392-8b2a-5549c6cee3ac/rhaglan-astudio-ar-gyfer-saesneg.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau Statudol Drafft Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/04cb83d9-7c43-4c4a-8791-c14e4bf627d6/canllawiau-statudol-drafft-ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2020a) ‘Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu>
- Llywodraeth Cymru (2020b) ‘Y Celfyddydau Mynegiannol’, *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/>
- Llywodraeth Cymru (2021a) *Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-html>
- Llywodraeth Cymru (2021b) *Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/12/2/1640098388/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2022) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>
- Mandel, E. S. J. (2014) *Station Eleven*. London: Picador.
- Murphy, G. (2022) ‘Audiobooks: At Home and at School’, *Teaching English*, 28, tt. 21-22.
- Nazario, S. (2014) *Enrique’s Journey (The Young Adult Adaptation): The True Story of a Boy Determined to Reunite with his Mother*. New York: Ember.

- Oak National Academy (d.d.) *Homepage*. Ar gael yn: <https://www.thenational.academy/> (cyrchwyd 22 Mawrth 2022)
- Oak National Academy (2021) *Oak National Academy Annual Report: September 2020-July 2021*. Ar gael yn: <https://www.thenational.academy/annual-report-2020-21>
- Olive, S. (2015) *Shakespeare Valued: Education Policy and Pedagogy, 1989-2009*. Intellect: Bristol.
- Parr, G. *et al.* (2021) 'English Teacher Education in the Time of COVID: Australian Teacher Educators Share Their Experiences', *English in Australia*, 56, 2, tt. 21-31.
- QAA (2019) *Subject Benchmark Statement: Languages, Cultures and Societies*. Ar gael yn: <https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/subject-benchmark-statements/subject-benchmark-statement-languages-cultures-and-societies.pdf>.
- Reach Foundation (2020) *Trustees' Report and Financial Statements for the Year Ended 31 August 2020*. Ar gael yn: https://www.reach-c2c.org/sites/default/files/2021-10/report_0.pdf
- Sellers, C. (2019) "Fitting in" and "Standing out": The Peer Group and Young People's Development of Reader Identity', *British Journal of Sociology of Education*, 40 (7) tt. 938-952.
- Semler, L. (2014) *Teaching Shakespeare and Marlowe: Learning Versus the System*. London: Bloomsbury.
- Steinbeck, J. (1937) *Of Mice and Men*. London: Heinemann.
- Smurthwaite, N. (2019/2020) 'Making a Difference, From a Distance', *Drama & Theatre*, 90, Summer Term 2, tt. 12-13.
- Sulzer, M. A. (2021) 'The Future is Known. Now What? Using *Macbeth* to Explore the Social Complexity of the Climate Crisis and COVID-19', *Changing English*, 28 (3) tt. 271-285.
- Torres, C. (2021) 'Hear and be Heard', *English Journal*, 110 (6) tt. 96-98.
- Wilkinson, R. a R. Gabriëls (2021) *The Englishization of Higher Education in Europe*. Amsterdam: Amsterdam University Press.
- Wolfsdorf, A. (2021) 'Gazing at the Skull: Teaching *Hamlet* During the Pandemic of 2020', *English Journal*, 110 (6) tt. 93-95.
- Woozley, C. (2022), 'Rebuilding Talk for Learning', *Teaching English*, 28, tt. 19-20.
- Yandell, J. (2020) 'Learning under Lockdown: English Teaching in the Time of Covid-19', *Changing English*, 27 (3), tt. 262-269.
- Yr Adran Addysg (2014) *The National Curriculum in England: Key Stages 3 and 4 Framework Document*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/840002/Secondary_national_curriculum_corrected_PDF.pdf

Atodiad: Holiadur

Effeithiau'r pandemig Coronafeirws ar addysgu llenyddiaethau o fewn ysgolion uwchradd yng Nghymru

Tudalen 1 o'r holiadur

Diolch am gymryd rhan yn y holiadur yma ar effaith y pandemig Coronafeirws ar addysgu a dysgu llenyddiaethau o fewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'r holiadur yma yn un o'r prosiectau Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol ar adferiad Cofid mewn Addysg wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Pam rwyf wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan?

Rydych wedi cael gwahoddiad gan eich bod yn addysgu un o'r llenyddiaethau (yn Gymraeg, Saesneg, iaith arall, neu Ddrama) o fewn ysgol uwchradd yng Nghymru ac/neu eich bod yn addysgu ieithoedd (Cymraeg, Saesneg, neu iaith arall) o fewn ysgol uwchradd yng Nghymru ac yn defnyddio llenyddiaeth yn eich dosbarth. Rydym yn defnyddio'r term 'llenyddiaethau' (lluosog) trwy'r holiadur er mwyn adnabod bod testunau llenyddol yn cael eu haddysgu a'u dysgu dros amrywiaeth o bynciau ysgol / Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Beth rydym eisiau darganfod?

Ar hyn o bryd, nid oes gorolwg cenedlaethol na rhyngwladol yn dangos sut mae addysgu llenyddiaethau wedi cael eu heffeithio gan y pandemig ers y dechreuad yn gynnar yn 2020. Rydym yn anelu at annerch hyn yng nghyd-destun ysgolion uwchradd yng Nghymru. Bydd rhannu tystiolaeth ar effaith y pandemig ar addysgu a dysgu llenyddiaethau ac argymhell awgrymiadau am ddiwygio neu adfer yn dilyn y pandemig yn annerch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adferiad Cofid yn y sector addysg.

Pa mor hir yw'r broses o gwblhau'r holiadur?

Ni fydd yr holiadur yn cymryd amser hir – tua 30 munud. Ceir 20 o brif gwestiynau ac ychydig yn rhagor er mwyn er mwyn ein cynorthwyo i weld pa mor gynrychiadol o'r system addysg uwchradd Cymraeg yw ein data. Rydym yn gobeithio byddech chi'n credu bod hyn yn fuddsoddiad gwerth chweil wrth i ni geisio gwneud argymhellion i randdeiliad yn yr ymchwil (e.e. llunwyr polisi, athrawon) i gynorthwyo'r sector addysg yng Nghymru yn ei adferiad yn dilyn y Cofid. Hefyd, rydym yn rhoi tocyn llyfr gwerth £200 i ysgolion uwchradd ar sail dewis ar hap o fewn codau post yng Nghymru.

Beth fydd yn digwydd i fy nata?

Bydd yr holl ddata yn ddiennw. Byddem yn cyhoeddi'r canlyniadau cyffredinol ond ni fydd modd o gysylltu eich ymatebion i chi yn bersonol gyda'r canlyniadau hynny. Rydym yn gofyn i chi rhoi côd post eich ysgol i ni, er mwyn i ni weld os oes gor-gyffwrdd rhwng pobl o fewn yr un ysgol AC er mwyn dosbarthu tocyn llyfr gwerth £200 i ysgolion uwchradd gyfrannodd yn yr ymchwil o fewn 4 cod post yng Nghymru ddewiswyd ar hap. Fodd bynnag, ni ddatgelir enwau unrhyw ysgol na chod post yn y cyhoeddiad terfynol o'r data.

Pwy ydym ni?

Rydym ni yn dri academydd gydag arbenigedd mewn addysgu llenyddiaeth o Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Ysgol Gwyddorau Addysgol, Prifysgol Bangor: Dr Sarah Olive; Mrs Gwawr Maelor; a Dr Mary Davies.

Sut ydw i'n mynd amdani?

Drwy gwblhau'r cwestiynau isod, rydych yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich atebion o fewn yr ymchwil yma. Mae'r astudiaeth yma wedi derbyn cymeradwyaeth moeseg trwy brosesau sicrhau moeseg Ysgol Gwyddorau Addysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr ymchwil, mae croeso i chi cysylltu gyda'r prif ymchwilydd Dr Sarah Olive (s.olive@bangor.ac.uk). Os oes gennoch unrhyw bryder neu gwynion am yr astudiaeth neu am ymagwedd yr unigolion sy'n cynnal yr astudiaeth, mae croeso i chi gysylltu gyda Rheolwr y Coleg, Coleg Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor, Dr Huw Roberts (e-bost: huw.roberts@bangor.ac.uk).

Tudalen newydd, cwestiynau holiadur yn cychwyn:

RHAN 1/5: EICH ADDYSGU

1. Côt post fy ysgol i yw:
2. Dwi wedi bod yn addysgwr am ____ o flynyddoedd
3. Ar hyn o bryd, rwyf yn addysgu mewn (dewis dim ond un):
 - Ysgol gyfun
 - Ysgol ramadeg
 - Annibynnol
 - Ysgol gyfun o fewn ardal dewisiedig
 - Coleg Chweched Dosbarth
 - Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)

4 a. Ar hyn o bryd, dwi'n addysgu'r pwnc/pynciau canlynol a'r lefel/au (dewiswch pob un sy'n berthnasol i chi):

	Cymraeg	Saesneg	Drama	Ffrangeg	Almaeneg	Sbaeneg	Arall/Eraill
Blwyddyn 7							
Blwyddyn 8							
Blwyddyn 9							
Blwyddyn 10							
Blwyddyn 11							
Blwyddyn 12							
Blwyddyn 13							

4.b Os ddewisoch chi 'Arall/Eraill' yn y cwestiwn uchod, rhannwch pa bwnc/pynciau os gwelwch yn dda:

5. Rydw i yn (dewiswch un yn unig):

- TAR / School Direct / myfyriwr dan hyfforddiant
- ANG
- Ôl-ANG Cymhorthydd Dosbarth
- Deiliad cyfrifoldeb pwnc o dan y Pennaeth Adran
- Pennaeth Adran

6. Ydych chi yn aelod o unrhyw gymdeithasau? (dewiswch pob un sy'n berthnasol)

- Cymdeithas Cenedlaethol Athrawon Saesneg (NATE)
- Y Gymdeithas Saesneg (The English Association)
- Cymdeithas Llythrennedd DU (UK Literacy Association)
- Cymdeithas Addysgu Ieithoedd (Association for Language Learning)
- Theatr Genedlaethol
- Cymdeithas Cenedlaethol Athrawon Drama (National Association of Teachers of Drama)
- Cymdeithas Athrawon Drama a Llefaredd (Society of Teachers of Speech and Drama)
- Llenyddiaeth Cymru
- Arall (rhewch fanylion os gwelwch yn dda)

7. Oes gradd meistr (neu doethuriaeth) gennych?

- Oes
- Nac oes

7. b. Os ateboch chi 'Oes' i'r cwestiwn uchod, ym mha bwnc?

RHAN 2/5 TESTUNAU RYDYCH YN EI ADDYSGU

8. a. Os ydych yn addysgu myfyrwyr yn CA3/hyd at 14 oed, pa destunau llenyddol oeddech chi'n debygol o'u haddysgu a'u dysgu cyn y pandemig? (Os nad ydych yn dysgu'r cyfnod yma, gadewch yn wag os gwelwch yn dda).

	Awdur	Teitl	Testun cyfan neu rannau/ detholiad?
Rhyddiaith			
Cerddi			
Dramâu			

8. b. Ydy'r rhestr yma wedi newid ers cychwyn y pandemig yn gynnar yn 2020? Os ydyw, rhannwch beth sydd wedi newid a pham os gwelwch yn dda.

Efallai yr hoffech chi adlewyrchu p'run ai'r pandemig oedd y prif neu'r unig reswm am y newid neu beidio; neu a oedd cyfuniad o resymau dros newid e.e. pandemig gan gynnwys argaeledd neu hygyrchedd; neu a oedd digwyddiadau eraill wedi cyfrannu neu chwarae rôl at y newid ar ddechrau 2020 (Cwricwlwm newydd i Gymru, newidiadau i destunau llenyddol TGAU, ymateb I Brexit, Black Lives Matter ac ati).

9. a. Os ydych yn addysgu disgyblion ar lefel TGAU, pa destunau llenyddol roeddech yn debygol o'u haddysgu a'u dysgu cyn y pandemig? (Os nad ydych yn addysgu'r lefel yma, yna gadewch yn wag os gwelwch yn dda)

	Awdur	Teitl	Testun cyfan neu rannau/detholiad?
Rhyddiaith			
Cerddi			
Dramâu			

9. b. Ydy'r rhestr yma wedi newid ers cychwyn y pandemig? Os ydyw, rhannwch beth sydd wedi newid a pham os gwelwch yn dda.

Efallai yr hoffech chi adlewyrchu p'run ai'r pandemig oedd y prif neu'r unig reswm am y newid neu beidio; neu a oedd cyfuniad o resymau dros newid e.e. pandemig gan gynnwys argaeledd neu hygrychedd; neu a oedd digwyddiadau eraill wedi cyfrannu neu chwarae rôl at y newid ar ddechrau 2020 (Cwricwlwm newydd i Gymru, newidiadau i destunau llenyddol TGAU, Brexit, Black Lives Matter ac ati).

10 a. Os ydych yn addysgu myfyrwyr Lefel A, pa destunau llenyddol oeddech chi'n debygol o'u haddysgu a'u dysgu cyn y pandemig? (Os nad ydych yn dysgu'r lefel yma, gadewch yn wag os gwelwch yn dda).

	Awdur	Teitl	Testun cyfan neu rannau o destun/detholiad?
Rhyddiaith			
Cerddi			
Dramâu			

10 b. Ydy'r rhestr yma wedi newid ers cychwyn y pandemig? Os ydyw, rhannwch beth sydd wedi newid a pham os gwelwch yn dda.

Efallai yr hoffech chi adlewyrchu p'run ai'r pandemig oedd y prif neu'r unig reswm am y newid neu beidio; neu a oedd cyfuniad o resymau dros newid e.e. pandemig gan gynnwys argaeledd neu hygrychedd; neu a oedd digwyddiadau eraill wedi cyfrannu neu chwarae rôl at y newid ar ddechrau 2020 (Cwricwlwm newydd i Gymru, newidiadau i destunau llenyddol TGAU, Brexit, Black Lives Matter ac ati).

RHAN 3/5 SUT I DDEWIS TESTUNAU

11. Pwy sy'n dewis pa destunau llenyddol sy'n cael eu dysgu?

- Fi
- Pennaeth Adran
- Pleidlais Adrannol
- Arall (Rhowch fanylion)

12. Pa nodweddion rydych chi'n edrych amdanynt mewn testunau llenyddol er mwyn eu dysgu i ddisgyblion CA3/hyd at 14 oed? (Os nad ydych yn addysgu'r lefel yma, yna, gadewch yn wag os gwelwch yn dda)

13. Pa nodweddion rydych chi'n edrych amdanynt mewn testunau llenyddol er mwyn eu dysgu i ddisgyblion TGAU? (Os nad ydych yn addysgu'r lefel yma, yna, gadewch yn wag os gwelwch yn dda)

14. Pa nodweddion rydych chi'n edrych amdanynt mewn testunau llenyddol er mwyn eu dysgu i ddisgyblion Lefel A? (Os nad ydych yn addysgu'r lefel yma, yna, gadewch yn wag os gwelwch yn dda)

15. Oes ffactorau eraill yn dylanwadu ar eich penderfyniad wrth ddewis testunau? Os oes, yna dywedwch wrthym ni beth ydyn nhw os gwelwch yn dda.

RHAN 4/5: RHESYMEG TROS ADDYSGU LLENYDDIAETH

16. Cyn y pandemig, oeddech chi'n credu ei bod hi'n bwysig astudio llenyddiaeth/au?

- Oedd
- Nac oedd
- Ddim yn siŵr

17. Ers cychwyn y pandemig, ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig astudio llenyddiaeth/au?

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn siŵr

18. Os ydych wedi newid eich meddwl ynglyn ag a yw hi'n bwysig astudio llenyddiaeth/au ers y pandemig, esboniwch pam/beth sydd wedi newid eich meddwl os gwelwch yn dda.

19. Beth yw prif amcanion addysgu llenyddiaeth/au mewn ysgolion uwchradd? Ydy'r amcanion wedi newid ers cychwyn y pandemig? Os ydynt, beth gyfrannodd at hynny?

Efallai yr hoffech chi adlewyrchu ai'r pandemig oedd y prif neu'r unig reswm am y newid; neu a oedd cyfuniad o resymau am y newid; neu a oes digwyddiadau eraill wedi cyfrannu neu chwarae rôl yn y newid ers dechrau 2020.

20. Beth ddylai fod ein gweledigaeth wrth addysgu a dysgu am lenyddiaeth neu drwy lenyddiaeth mewn ysgolion uwchradd? Ydy hwn wedi newid ers cychwyn y pandemig? Os ydyw, sut?

Efallai yr hoffech chi adlewyrchu ai'r pandemig oedd y prif neu'r unig reswm am y newid; neu a oedd cyfuniad o resymau am y newid; neu a oes digwyddiadau eraill wedi cyfrannu neu chwarae rôl yn y newid ers dechrau 2020.

RHAN 5/5: CWESTIYNAU CYFFREDINOL

21. Ym mha sir y lleolir eich ysgol? Dewiswch un os gwelwch yn dda.

Ynys Môn
Gwynedd
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Wrecsam
Powys
Ceredigion
Sir Benfro
Sir Gaerfyrddin
Abertawe

Nedd/Port Talbot
Penybont
Bro Morgannwg
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tudful
Caerffili
Blaenau Gwent
Torfaen
Sir Fynwy
Casnewydd
Caerdydd

22. Ym mha fath o ysgol ydych chi'n addysgu ynddi? Dewiswch un os gwelwch yn dda.

Ysgol ganol
Ysgol uwchradd
Ysgol ddilynol

23. Faint o ddisgyblion sydd wedi cofrestru yn eich ysgol? Dewisiwch un os gwelwch yn dda.

100 neu lai o ddisgyblion
Rhwyng 101 a 303 o ddisgyblion
Mwy na 300 o ddisgyblion
600 o ddisgyblion neu'n llai
Rhwyng 601-1,100 o ddisgyblion
1, 101 neu fwy o ddisgyblion

24. Pa gategori iaith isod sydd yn disgrifio eich ysgol orau? (Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyflwyno set newydd o gategoriâu, ond yma rydym yn defnyddio'r categorïau oedd yn eu lle ar ddechrau'r pandemig).

Dwyieithog Math A – Caiff o leiaf 80% o bynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Efallai y caiff un neu ddau o bynciau eu haddysgu i rai disgyblion drwy gyfrwng y Saesneg neu'r ddwy iaith.

Dwyieithog Math B – Caiff o leiaf 80% o bynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Dwyieithog Math C – Caiff 50-79% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Dwy ffrwd – Cymraeg a Saesneg yn cael eu defnyddio yn ddyddiol yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae iaith cyfathrebiad gyda'r disgyblion yn cael eu pennu gan natur yr arlwy cwricwlwm, ond mewn rhai ysgolion, mae pwyslais uchel yn cael eu rhoi at greu ethos iaith Gymraeg trwy'r ysgol. Cyfathrebir yr ysgol gyda rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfrwng Saeneg – Saesneg bu iaith busnes dyddiol yr ysgol, ond mae ychydig o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio fel iaith gyfathrebol gyda'r disgyblion gyda'r amcan o wella eu darpariaeth i ddefnyddio Cymraeg pob dydd. Cyfathrebir yr ysgol gyda rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg – Mae iaith, neu ieithoedd dyddiol yr ysgol yn cael eu pennu gan gyd-destun ieithyddol yr ysgol. Caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu defnyddio fel ieithoedd cyfathrebol gyda'r disgyblion ac ar gyfer gweinyddiaeth yr ysgol. Mae pwyslais uwch i greu ethos Cymraeg. Cyfathrebir yr ysgol gyda rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfrwng Cymraeg – Cymraeg yw iaith ddyddiol yr ysgol. Caiff y Gymraeg eu defnyddio fel iaith gyfathrebol gyda disgyblion ac ar gyfer gweinyddiaeth yr ysgol. Cyfathrebir yr ysgol gyda rhieni yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Trosiannol – Cymraeg yw iaith ddyddiol busnes yr ysgol. Mae pwyslais uwch yn cael eu rhoi i greu ethos Cymraeg. Cyfathrebir yr ysgol gyda rhieni yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Dwi ddim yn siŵr

Tudalen Olaf: Diolch!

Diolch am eich amser a’ch amynedd wrth gwblhau’r holiadur yma.